# Dogfen ir Cyhoedd

## PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

## Dydd Mawrth, 1 Gorffennaf 2014 (2.00 o'r gloch)

Gweler ynghlwm os gwelwch yn dda yr atodiadau sydd wedi'u dynodi fel rhai "I DDILYN" ar raglen y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol:

**4** **OPSIYNAU AR GYFER LLETY I BOBL HYN - GARREGLWYD** (Tudalennau 1 - 44)

Atodiad 1 – Adroddiad Trosolwg ar y Broses Ymgynghori ynghlwm fel rhan o'r ddogfennaeth.

**5** **CYFARFOD AG ANGHENION OEDOLION HYN : AMLWCH & LLANGEFNI** (Tudalennau 45 - 134)

Atodiad 1 – Achos Busnes ynghlwm fel rhan o'r ddogfennaeth.

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Sgriwtini Ffurfiol – 1 Gorffennaf 2014**<br>**Pwyllgor Gwaith – 14 Gorffennaf 2014** |
| **Dyddiad:** | **23/6/14** |
| **Pwnc:** | **Opsiynau ar gyfer Llety i Bobl Hŷn – Garreglwyd** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Y Cynghorydd K Hughes** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Alwyn Jones, Pennaeth Gwasanaethau Oedolion** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **James Dawson**<br>**01248 752732**<br>**James Dawson@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Aelodau Caergybi**<br>Robert Llewelyn Jones<br>Raymond Jones<br>J Arwel Roberts<br><br>**Aelodau Ynys Gybi**<br>Dafydd Rhys Thomas<br>Jeffrey Evans<br>Trefor Lloyd Hughes |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

Cytunodd y Pwyllgor Gwaith ym mis Mai 2014 y dylid ymgynghori ynglŷn â'r bwriad i werthu Garreglwyd. Mae'r ymgynghori hwn bellach wedi'i gwblhau (gweler isod) a gofynnir yn awr i'r Pwyllgor Gwaith gytuno:

I'r **Argymhelliad** y dylid gwerthu Garreglwyd, gorau oll iddo gael ei redeg fel cyfleuster dementia arbenigol neu ddarpariaeth gofal preswyl preifat neu nyrsio preifat. Gwneir hyn ar yr amod:

- Y rhoddir blaenoriaeth i ofal y preswylwyr cyfredol ac y bydd y canllawiau arfer orau ar gyfer gofal (gan gynnwys unrhyw drosglwyddiad o ofal) yn cael eu mabwysiadu a'u gweithredu
- Na fydd unrhyw ymrwymiad o ran comisiynu yn cael ei wneud ar adeg gwerthu
- Y byddir yn ymgysylltu'n barhaus gyda phreswylwyr, teuluoedd, staff ac aelodau

Cydnabyddir y bod cyfrifoldeb arnom i sicrhau gwerth gorau ond rhaid cydbwyso hynny gyda'r ddyletswydd i ofalu am y rheiny sy'n derbyn gwasanaeth drwy Garreglwyd. Bydd gwerthu'r cartref yn amodol ar broses gystadleuol briodol y bydd Gwasanaethau Eiddo'r Cyngor yn ymwneud â hi.

Y cyd-destun ehangach, fel yr amlinellwyd yn y papurau a oedd ynghlwm wrth y cynnig i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Mai i argymell ymgynghori ynglŷn â gwerthu'r cartref (ac yn unol â Bwriadau'r Gwasanaeth sy'n amlinellu'r weledigaeth a'r cyfeiriad ar gyfer gofal oedolion hŷn) yw bod y model traddodiadol o ofal preswyl yn dod yn llai "addas i'r pwrpas" ac y gellir sicrhau gwell canlyniadau ar gyfer gofal drwy ddefnyddio modelau eraill (gofal ychwanegol, ail-alluogi, darpariaeth yn y cartref) ac, yn ychwanegol at hynny, nid yw'r bobl hŷn eu hunain yn dymuno symud i ofal preswyl. Hefyd, mae darpariaeth breswyl yn opsiwn drud ac yn arbennig ar adeg pan mae pwysau sylweddol ar gyllidebau, dylid datblygu opsiynau eraill (sydd hefyd yn darparu gwell canlyniadau o ran gofal). Fodd bynnag, dywed ein hasesiad o anghenion yn glir wrthym fod angen datblygu darpariaeth sy'n cefnogi ac yn darparu llety ar gyfer y rheiny sy'n byw gyda dementia. Dyma'r rhesymeg sydd wedi gyrru'r achos ar gyfer y cynnig i werthu Garreglwyd (ar gyfer defnydd a ffefrir) fel yr amlinellir uchod.

Roedd yr ymgynghori (Mai 23 i Fehefin 21) wedi'i dargedu at y preswylwyr presennol a defnyddwyr eraill gwasanaethau Garreglwyd a'u teuluoedd; cartrefi preswyl eraill yn yr ardal, cyflenwyr lleol, Meddygon Teulu, Cynghorau Cymuned. Roedd gwybodaeth hefyd ar gael ar wefan y Cyngor ac ymddangosodd erthyglau'n yn wasg leol. Cynhaliwyd cyfarfodydd un-i-un gyda phreswylwyr (gyda'u teuluoedd neu eiriolwyr yn bresennol) a gwneud yr un peth gyda staff gyda Ad a'r Undebau'n bresennol. Yn achos eraill, cylchredwyd holiadur er y cafwyd cyfarfod hefyd gyda chartref preswyl a nyrsio eraill.

| Cydranddeiliaid | Dosbarthwyd | Derbyniwyd |
|---|---|---|
| Preswylwyr | 13 | 13 (100% |
| Teuluoedd y Preswylwyr | 13 | 6 (46%) |
| Gofal Ysbaid | 17 | 15 (88%) |
| Cyflenwyr | 16 | 8 (50%) |
| Cartrefi Gofal Eraill | 7 | 2 (29%) |
| Gofal Dydd | 3 | 3 (100%) |
| Y Gymuned | 40 | 52[1] (130%) |

Y negeseuon allweddol o'r Ymgynghoriad yw:

- 97.5% yn cytuno bod angen gwneud penderfyniad yn fuan
- Wrth wneud penderfyniad, y ffactor pwysicaf (66.7%) oedd "Ansawdd Gofal" ac yna "Parhad y Gwasanaeth"
- I drigolion a theuluoedd, y pryderon allweddol oedd gorfod symud o'r fan a oedd yn gartref iddynt ond yn croesawu'r ffaith y byddai penderfyniad yn cael ei wneud
- O ran y staff, roedd eu pryderon yn ymwneud â TUPE, diswyddiadau neu gyfle i adleoli ac eto'n croesawu'r ffaith y byddai penderfyniad yn cael ei wneud

[1] Mae hyn yn uwch na'r nifer a ddosbarthwyd gan ei bod wedi derbyn ymatebion gan fwy nag un aelod o rhai sefydliadau.

- O'r ymatebion cyffredinol (Cynghorau Tref a Chymuned, sefydliadau perthnasol eraill yn y gymuned, cymdogion ac ati), roedd 65.7% yn cytuno y dylid gwerthu Garreglwyd, gorau oll ar gyfer gwasanaethau dementia ac yn teimlo rhyddhad y bydd penderfyniad yn cael ei wneud

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Ystyriodd y Bwrdd Gofal Cymdeithasol i Oedolion Hŷn nifer o opsiynau ar gyfer dyfodol Garreglwyd gan gynnwys dim newid, ei ddatblygu ar gyfer Gofal Preswyl a defnydd arall o'r adeilad gan y Cyngor. Fodd bynnag, cytunwyd nad oedd "dim newid" yn ymarferol naill ai o safbwynt darpariaeth gofal neu bersbectif ariannol; nid oedd ei ddatblygu fel cyfleuster gofal preswyl yn cydnabod y byddai gorgyflenwad o welyau yn yr ardal (ar adeg pan mae a phan fu yn y gorffennol nifer sylweddol o welyau gweigion) a bod hynny'n groes i fwriadau'r Gwasanaeth, sef symud tuag at lai o ddibyniaeth ar ofal preswyl. Ystyriwyd nad oedd yr opsiynau eraill o ran y defnydd o'r adeilad yn briodol.

Rhoddwyd sylw hefyd i rentio'r adeilad (yn hytrach na'i werthu) ond cafwyd cyngor gan yr Adrannau Eiddo a Chyllid i beidio ag ystyried y trywydd hwnnw.

**C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Dyma fater y mae angen cefnogaeth y Pwyllgor Gwaith yn ei gylch o'r cychwyn er mwyn sicrhau dull cyson wrth ymgysylltu gyda phreswylwyr a'u teuluoedd ac yn wir, gyrff a fydd efallai'n buddsoddi mewn gofal cymdeithasol yn y dyfodol.

Mae'r penderfyniad yn un pwysig o ran ei effaith ar y preswylwyr unigol a'u teuluoedd ynghyd â chyfeiriad strategol gofal cymdeithasol i oedolion yn y dyfodol.

Bydd y camau a gymerir gan yr awdurdod yn cael eu sgriwtineiddio gan reoleiddwyr a chan gyrff statudol ac, yn ychwanegol at hyn, mae'r mater yn debygol o gael cryn sylw yn y cyfryngau.

**CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Mae'r awdurdod wedi nodi ei ymrwymiad i ddarparu'r gwasanaethau gorau posibl yn unol ag anghenion a nodwyd o fewn yr adnoddau sydd ar gael. Mae'r cynnig hwn yn gyson â'r egwyddor honno.

| D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Byddai'r cynnig yn creu arbedion refeniw i'r awdurdod ac yn lleihau'r risgiau cyfalaf ar gyfer y dyfodol.<br><br>Byddai'r cynnig hefyd, pe câi ei weithredu, yn lleihau costau ar gyfer y rheiny sy'n talu am eu gofal eu hunain. |

| DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)**<br>(mandadol) | "Opsiynau ar gyfer Llety i Oedolion Hŷn – Cybi – Cyflwynodd GC yr adroddiad a chytunodd yr UDA i Opsiwn 1, sef dadgomisiynu Garreglwyd a chyflwyno'r cynnig i'r Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor ac, yn ogystal, Opsiwn 2 ar yr amod y byddid yn ymchwilio i'r opsiwn o rentio'r safle. Unwaith y gwyddys beth yw'r weledigaeth wleidyddol, efallai y byddai'n ddoeth ymgynghori gyda'r Cymdeithasau Tai."<br>Cofnodion UDA 31/3/14<br>Mae hefyd ar raglen yr UDA ar 7 Gorffennaf |
| **2** | **Cyllid / Adran 151**<br>(mandadol) | Mae cyllid wedi cadarnhau'r data ariannol perthnasol sydd yn y ddogfen (ac eithrio'r manylion a baratowyd gan yr Adain Eiddo mewn perthynas â gwerth y safle ac ati). |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro**<br>(mandadol) | Bod rhybudd digonol ac ymgynghori (yn unol ag unrhyw ganllawiau statudol cyfredol ac arferion da cydnabyddedig) wedi digwydd ac yn atgoffa o'r angen i sicrhau gwerth gorau. Parheir i ymgysylltu a gofyn am gyngor er mwyn sicrhau fod unrhyw argymhellion a weithredir yn glynu wrth reoliadau a gofynion perthnasol. |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | Wedi ymgynghori'n agos ag AD ar y goblygiadau ar gyfer staff gan gynnwys TUPE ac unrhyw faterion AD a chafwyd cyfarfodydd un-i-un gyda staff. Mae AD hefyd wedi cael cyngor arbenigol pellach ynghylch TUPE er mwyn sicrhau y cymerir y camau priodol. Byddir yn gweithio'n agos â nhw er mwyn sicrhau y dilynir y drefn briodol. |
| **5** | **Eiddo** | Wedi ymgysylltu â nhw er mwyn sefydlu costau clirio'r safle ac ati ac wedi cadarnhau eu rôl arweiniol o ran cael gwared â/gwerthu unrhyw safle/adeilad. |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu** | Heb ymgynghori |

| | | |
|---|---|---|
| | **(TGCh)** | |
| **7** | **Sgriwtini** | Papur yn cael ei gyflwyno i Sgriwtini ar 1 Gorffennaf |
| **8** | **Aelodau Lleol** | Cafodd yr Aelodau Lleol eu briffio ar adeg gwahodd diddordeb ar y farchnad ar gyfer prynu Garreglwyd a chydnabuwyd bod angen ymarfer o'r fath. Mae Aelodau Lleol hefyd wedi cael eu gwahodd i fod yn rhan o Grŵp Ymgynghorol i Aelodau, grŵp a sefydlwyd i sicrhau fod eu barn a'u sylwadau'n cael eu cynnwys ac i roi gwybod iddynt am unrhyw ddatblygiadau. |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | (Yn Adran A, nodir grwpiau eraill a fu'n rhan o'r broses ymgynghori) |

| **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | Mae Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldebau wedi cael ei gynnal ac mae ynghlwm yma. |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| Trosolwg o'r Broses Ymgynghori a Ddilynwyd<br><br>Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb |

| **FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| 1 - Gwybodaeth gefndirol ac asesiad o fanteision/anfanteision y cynnig<br><br>2 – Crynodeb o'r camau gweithredu<br><br>3 – Crynodeb o'r Ymgynghoriad Arfaethedig |

Asesu Effaith ar Gydraddoldeb (AEC)

# Rhan A – Asesiad Cychwynnol o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Dyddiad cychwyn: 21/05/14 Dyddiad cwblhau: **Yn mynd rhagddo**

**RHAN A – Cam 1: Paratoi**

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Beth sy'n cael ei asesu? | Cam 4 y Prosiect Gwella Opsiynau Llety - Cybi |
| 2. | Ydy'r polisi yma'n un newydd neu un sy'n bodoli eisoes? | Newydd |
| 3. | Beth yw nodau a phwrpas y polisi yma? | Adolygu'r ddarpariaeth o wasanaethau sy'n seiliedig ar lety yn Cybi a nodi'r Opsiynau ar gyfer dyfodol Garreglwyd.<br><br>Ar hyn o bryd, Ynys Môn sydd â'r boblogaeth uchaf ond un o bobl hŷn yng Nghymru ac yn ystod y degawd nesaf, disgwylir cynnydd o 68% yn nifer y bobl a fydd yn byw i fod yn hŷn nag 85. Rhagwelir cynnydd hefyd yn nifer y bobl fydd â chyflyrau tymor hir megis dementia.<br><br>Yn ogystal, mae anghenion cymdeithas wedi newid, Mae pobl yn byw yn hirach ac yn aml yn mwynhau gwell iechyd yn eu blynyddoedd diweddar nag unrhyw genhedlaeth o'r blaen. O ganlyniad, mae pobl sy'n ymddeol heddiw'n debygol o fod â dyheadau gwahanol iawn i'r bobl sy'n byw mewn cartrefi gofal ar hyn o bryd.<br><br>Felly, mae'r Cyngor yn gweithio i drawsnewid a moderneiddio ei ddarpariaeth o ofal cymdeithasol ar gyfer oedolion hŷn. Gwneir hyn drwy gefnogi pobl i fyw'n hirach yn eu cartrefi eu hunain a chan gomisiynu mwy o wasanaethau gofal yn hytrach na'u darparu ei hun.<br><br>Mae'r Rhaglen Trawsnewid i oedolion yn edrych ar bob agwedd ar foderneiddio'r |

ddarpariaeth o ofal cymdeithasol ar gyfer ein pobl hŷn ac un agwedd (bwysig) yn unig yw'r sylw y byddwn yn ei roddi i faterion yn ymwneud â llety. Mae'r holl newidiadau yn y modd y byddwn yn darparu, yn comisiynu ac yn sicrhau ansawdd gofal yn y cartref, er enghraifft, drwy ddarparu gwasanaethau ataliol neu weithio tuag at wella'r ddarpariaeth gymunedol ac ymateb i hynny, yn gysylltiedig â'i gilydd. Felly, mae darparu gofal preswyl yn ardal Cydi yn rhan o ddarlun mwy lle mae angen cydnabod hefyd rôl a gwasanaethau gan y sector preifat. Mae'r galw am ofal preswyl yn lleihau ac mae darpariaeth dda eisoes ar gael ar y farchnad yn ardal Cybi.

Yn 2012, cafwyd trafodaeth ac ymgynghoriad ynghylch dyfodol Garreglwyd a rhoddwyd rhybudd (ar y pryd) y byddai Garreglwyd yn cau (yn rhannol o ganlyniad uniongyrchol i sefydlu "Gofal Ychwanegol" ym Mhenucheldre). Fodd bynnag, chaewyd mo'r cartref ac mae'r ansicrwydd wedi parhau i'r preswylwyr, y staff, y gymuned leol a'r aelodau. Er mwyn rheoli'r sefyllfa, cytunwyd na fyddai ychwaneg o bobl yn mynd i'r cartref am gyfnodau tymor hir ac y byddai'r gwelyau sbâr yn cael eu defnyddio ar gyfer gofal tymor byr/gofal ysbaid (ailgadarnhawyd hyn gan y Pwyllgor Gwaith ym mis Gorffennaf 2013); dyma fu'r sefyllfa am y flwyddyn ddiwethaf.

Mae 28 o welyau yn Garreglwyd ac yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, roedd cyfraddau defnydd ychydig dros 60%. Bellach, mae yno 11 o breswylwyr tymor hir. Ar hyn o bryd, mae pump o gartrefi gofal preswyl preifat ynghyd â chartref nyrsio preifat yn ward Cybi nad ydynt yn llawn.

Eisoes, cafwyd cryn ddiddordeb yn yr eiddo o du'r sector preifat gan gynnwys diddordeb gan gwmnïau â chartrefi gofal a nyrsio ar hyn o bryd ynghyd â'r rheiny sy'n adeiladu llety gofal arbenigol.

Cyn penderfynu ar yr opsiwn yr oedd yn ei ffafrio, rhoes y Cyngor sylw manwl i'r opsiynau isod, sef:

1. Bod y Cyngor yn parhau i redeg y cartref fel cartref gofal preswyl
2. *Bod y cartref yn cael ei werthu, gorau oll i gael ei ddefnyddio fel cyfleuster dementia arbenigol neu fel cartref nyrsio preifat neu gartref gofal preswyl preifat*
3. Sefydlu cartref gofal Nyrsio/Dementia a fyddai'n cael ei redeg gan y Cyngor
4. Ei ddefnyddio gan y Cyngor i bwrpas arall, megis cartref i blant
5. Ei werthu ar gyfer ei ddatblygu'n breifat

Tudalen 9

Mae Opsiwn 2, sef gwerthu'r eiddo yn hytrach na'i osod am rent, wedi cael ei gymeradwyo gan y Bwrdd GCOH, yr UDA ac yn anffurfiol gan Sgriwtini a chan y Pwyllgor Gwaith Anffurfiol.

Yn ei gyfarfod ar 19 Mai 2014, disgwylir i Bwyllgor Gwaith Ffurfiol Cyngor Sir Ynys Môn benderfynu cynnal ymgynghoriad ffurfiol am 30 diwrnod ar ddyfodol Cartref Preswyl Garreglwyd yng Nghaergybi; ac yn benodol ar yr opsiwn a ffefrir gan y Cyngor, sef *bod y cartref yn cael ei werthu, gorau oll i gael ei ddefnyddio fel cyfleuster dementia arbenigol neu fel cartref nyrsio preifat neu gartref gofal preswyl preifat.*

Mae'r Asesiad hwn o'r Effaith ar Gydraddoldebau'n ymwneud â'r effaith o ran cydraddoldebau ar y trigolion, eu teuluoedd, ffrindiau a'r staff yn Garreglwyd oherwydd y bydd unrhyw benderfyniad mewn perthynas â dyfodol y cartref yn cael yr effaith fwyaf uniongyrchol ac arwyddocaol arnynt hwy.

**Data Cydraddoldebau**

Dyma fanylion am y trigolion yn y cartref o ran y nodweddion a ddiogelir fel y cânt eu nodi yn Neddf Cydraddoldebau 2010:

| **Rhyw** | Gwryw | Benyw |
|---|---|---|
| | 3 | 10 |

| **Oed** | 70-79 | 80-89 | 90-99 |
|---|---|---|---|
| | 2 | 5 | 6 |

| **Anabledd** | Dementia | Strôc | Symudedd / /Osteoarthritis | Pwysedd Gwaed Uchel |
|---|---|---|---|---|
| | 5 | 1 | 5 | 2 |

| **Crefydd** | Yr Eglwys yng Nghymru | Eglwys Loegr | Yr Eglwys Gatholig Rufeinig | Tystion Jehova |
|---|---|---|---|---|
| | 5 | 3 | 2 | 1 |

<table>
<tr>
<td></td>
<td></td>
<td>
<table>
<tr><td>Hil</td><td>Prydeinig</td><td>Gwyddelig</td><td>Sbaeneg</td></tr>
<tr><td></td><td>11</td><td>1</td><td>1</td></tr>
</table>
<br>
Nid oes unrhyw breswylydd wedi ei nodi fel un trawsryweddol.<br>
Ni chedwir cofnod o gyfeiriadedd rhywiol y preswylwyr.<br>
Nid yw beichiogrwydd a mamolaeth yn berthnasol i unrhyw breswylydd.  Mae polisïau Adnoddau Dynol y Cyngor ar gael i gefnogi unrhyw aelod o staff sy’n feichiog.<br><br>
Ni chedwir unrhyw wybodaeth ynghylch “nodweddion a ddiogelir” o ran ffrindiau a theulu.  Fodd bynnag, dylid ystyried yr effaith bosibl ar “nodweddion a ddiogelir” o ran ffrindiau a theulu.<br><br>
Proffil Staff<br><br>
Mae 20 aelod o staff yn gweithio yn Garreglwyd, 19 o fenywod ac un dyn.  Mae’r proffil oed yn cynnwys:<br>
2x (60+) 11x (50-59) 6 x(40-49) 1x (30-39).  Mae’r holl staff yn Wyn Prydeinig ac mae 12 allan o’r 20 aelod o staff yn siarad Cymraeg fel iaith gyntaf.
</td>
</tr>
<tr>
<td>4.</td>
<td>Pwy sydd yn gyfrifol am y polisi sy’n cael ei asesu?</td>
<td>Bwrdd Trawsnewid Gofal Cymdeithasol i Oedolion Hŷn</td>
</tr>
<tr>
<td>5.</td>
<td>Pwy yw’r swyddog arweiniol ar gyfer cynnal yr AEC yma?</td>
<td>Carys Emyr Edwards – Pennaeth Gwasanaethau Oedolion (Dros Dro)</td>
</tr>
<tr>
<td>6.</td>
<td>Pwy arall sy’n cymryd rhan yn yr AEC yma?</td>
<td>Linda Kinani – Arweinydd Tîm<br>
Iola Richards – Rheolwraig y Gwasanaeth<br>
Sarah Tillman – Rheolwraig y Rhaglen<br>
Brenda Roberts – Cyngor Pobl Hŷn<br>
Brian Jones – Cydlynydd y Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn<br><br>
Bydd y Panel Cydraddoldebau’n asesu effaith bosibl yn erbyn pob nodwedd a ddiogelir.</td>
</tr>
</table>

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| 7. | Oes yna gyswllt rhwng y polisi yma a pholisïau/meysydd gwaith eraill? | Cynllun Corfforaethol y Cyngor 2013-2017 – Mae cefnogi'r bobl fwyaf bregus wedi cael ei nodi fel un o dair blaenoriaeth yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor ac mae Trawsnewid Gofal Cymdeithasol i Oedolion Hŷn yn un o wyth o feysydd y bydd yn canolbwyntio arno. Cymeradwywyd y Cynllun Corfforaethol gan y Cyngor Llawn ar 5 Rhagfyr 2013.<br><br>Mae'r Rhaglen Gofal Cymdeithasol i Oedolion Hŷn hefyd yn rhan o faes gwaith y Bwrdd Rhaglen Rhagoriaeth Gwasanaeth, sy'n un o dair rhaglen yng Nghynllun Trawsnewid Ynys Môn i oruchwylio a gyrru rhaglenni a phrosiectau newid yn y Cyngor a chyda phartneriaid allanol y byddir yn cydweithio â nhw.<br><br>Mesur Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru<br>Fframwaith ar gyfer darparu Gofal Iechyd a Chymdeithasol Integredig ar gyfer Pobl Hŷn a chanddynt Anghenion Cymhleth<br><br>Deddf Safonau Gofal 2000 – Y Safonau Sylfaenol Cenedlaethol ar gyfer Cartrefi Gofal |
| 8. | Pwy yw'r rhanddeiliaid allweddol? | Defnyddwyr gwasanaeth a gweithlu Garreglwyd, eu teuluoedd, gofalwyr, cyflenwyr, cymdogion, cydweithwyr yn y maes Iechyd, AGGCC, y boblogaeth leol, cynghorau tref a chymuned, Meddygon Teulu, Ysbyty Penrhos Stanley, cartref gofal eraill yn ardal Cybi. |

| 9 - Ydy’r polisi’n berthnasol i sut mae’r Awdurdod yn cydymffurfio â dyletswydd cyffredinol y sector gyhoeddus mewn perthynas â phobl sy’n cael eu gwarchod ar sail oed; anabledd; rhyw; newid rhyw; beichiogrwydd a mamolaeth; hil, ethnigrwydd neu genedligrwydd; crefydd neu gred a chyfeiriadedd rhywiol? | Ydy’ | Nac ydy’ |
|---|---|---|
| Dileu gwahaniaethu ac aflonyddu | ✓ | |
| Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal | ✓ | |
| Meithrin perthynas dda | ✓ | |
| Diogelu a hyrwyddo hawliau dynol | ✓ | |

## RHAN A – Cam 2: Casglu gwybodaeth

| | |
|---|---|
| 10 - A yw'r polisi / maes gwaith yma'n sicrhau cydraddoldeb i'r ieithoedd Cymraeg a Saesneg yn unol â Chynllun Iaith y Cyngor? | Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth hollol ddwyieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg ar draws ei holl wasanaethau. Byddwn yn hyrwyddo dull rhagweithiol o ran cynnig gwasanaeth yn yr iaith Gymraeg yn unol â Fframwaith Strategaeth Llywodraeth Cymru 'Mwy na Geiriau'. Byddwn yn sicrhau ein bod yn cydymffurfio gyda Chynllun Iaith Gymraeg y Cyngor wrth drefnu a darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol. |
| 11 - Oes cyfle drwy'r polisi / maes gwaith i gynnig mwy o gyfleoedd i bobl ddysgu a / neu ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd? | Bydd nifer uchel o'r defnyddwyr gwasanaeth yn siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf. Rhoddir sylw gofalus i anghenion ieithyddol a byddwn yn sicrhau fod modd i ddefnyddwyr gwasanaeth gyfathrebu gyda ni yn yr iaith o'u dewis.<br>Bydd disgwyliad i unrhyw ddarparwr newydd ddarparu gwasanaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg a bod yn sensitif i'r diwylliant. |
| 12 - Pa gyfraniad posibl sy'n cael ei gynnig drwy'r polisi / maes gwaith yma tuag at sicrhau bod diwylliant hanesyddol a chyfoes yr Ynys yn ffynnu ac yn llwyddo? | Yn ei hanfod, mae'r Prosiect hwn yn ymwneud â datblygu a diogelu gwasanaethau ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol drwy sicrhau fod gwasanaethau gwell ar gael a fydd yn gwella ansawdd bywyd ac yn darparu gwasanaethau ar gyfer mwy o bobl gyda llai o refeniw. Mae'r Prosiect wedi cael ei rannu'n Gyfnodau er mwyn sicrhau ei fod yn gydnaws yn lleol fel y gellir sefydlogi'r gwasanaeth a sicrhau ei fod yn cydweddu ag anghenion a diwylliant lleol. |
| 13 - Oes yna unrhyw faterion sydd angen ystyriaeth o ran Hawliau Dynol?<br>Os oes, beth yw'r materion yma?<br><br>(Mae'r 16 hawl sylfaenol sydd yn y Ddeddf Hawliau Dynol wedi'u rhestru yn Atodiad 1) . | Yn unol â'r dull o drawsnewid gofal cymdeithasol i oedolion hŷn yn seiliedig ar hawliau dynol, mae'r weledigaeth ar gyfer Ynys Môn yn annog ac yn rhoi pwyslais ar yr angen i bobl a chymunedau sy'n cael budd o wasanaethau, polisïau a rhaglenni fod yn rhan o'r broses o'u dylunio a'u darparu.<br>Rhaid rhoi sylw i unrhyw achosion o dorri'r canlynol:<br>Erthygl 6 – Yr hawl i achos teg yn yr ystyr y gwrthodir mynediad i lys i herio'r penderfyniad i gau'r cartref<br>Erthygl 8 – Yr hawl i fywyd preifat, parchu teulu a chyfeillgarwch |
| 14 - Beth sydd wedi cael ei wneud hyd yn hyn o ran cyfranogiad ac ymgynghoriad mewn perthynas â'r polisi yma? | Ymgynghorwyd yn fewnol ar y Ddogfen Bwriadau Gwasanaeth ac ymgysylltwyd yn ei chylch yn allanol. Oherwydd bod yr ymgynghori ar yr EAC hwn yn digwydd cyn gwneud unrhyw benderfyniad, nid oes unrhyw ymgynghori ffurfiol eto wedi digwydd ynghylch newidiadau penodol i Garreglwyd. Cafwyd trafodaethau gyda defnyddwyr gwasanaeth (a chyda teuluoedd neu eiriolwyr) ar sail un i un gyda'r Cyfarwyddwr ac yn ogystal, cafwyd sgyrsiau gyda gweithwyr Garreglwyd sydd, y cyfan ohonynt, yn ymwybodol fod Opsiynau'n cael eu hystyried mewn perthynas â darparu gwasanaethau yn ardal Cybi yn y dyfodol ac yn arbennig felly ar gyfer Garreglwyd. |
| 15 - Oes yna unrhyw fylchau yn y wybodaeth a gasglwyd hyd yma? | Anfodlonrwydd ar hyn o bryd ynghylch amserlenni, angen eglurder.<br>Bydd yr ymgynghori ar yr opsiynau ar gyfer y cartref yn y dyfodol yn digwydd dros gyfnod o |

| | |
|---|---|
| Os oes, sut fydd y rhain yn cael sylw? | fis yn cychwyn ar 23 Mai 2014. |

**RHAN A – Cam 3: Ystyried yr effaith debygol**

*Ar gyfer pob un o'r nodweddion a warchodir, manylwch yn y golofn ar y dde yn y tabl isod, os gwelwch yn dda:
(1) unrhyw adroddiadau, ystadegau, gwefannau, linciau ayyb sy'n berthnasol i'ch dogfen / cynnig ac sydd wedi cael eu defnyddio fel rhan o'ch asesiad; a/neu
(2) unrhyw wybodaeth a gasglwyd yn ystod yr ymgysylltu gyda defnyddwyr gwasanaeth neu staff; a/neu
(3) unrhyw wybodaeth arall sydd wedi'i gynnwys yn eich asesiad o'r effaith debygol

**Er mwyn penderfynu beth yw'r effaith debygol, dewiswch un o'r canlynol os gwelwch yn dda:
Negyddol - uchel; Negyddol - canolig; Negyddol - isel; Niwtral; Cadarnhaol - isel; Cadarnhaol - canolig; Cadarnhaol – uchel; Dim effaith/ddim yn berthnasol

| **Y grŵp a warchodir** | ****Yr effaith debygol** | ***Manylion** | **Camau Lliniaru** |
|---|---|---|---|
| Oed | **Negyddol Uchel**<br>**O 21 Mai 2014** | Rhaid gwerthuso'r holl opsiynau er mwyn sicrhau nad oes unrhyw breswylydd yn dioddef anfantais o gymharu â phobl iau gyda lefel debyg o angen/anabledd a bod preswylwyr mewn grwpiau oedran penodol yn cael eu trin yn gyfartal. Gall pobl hŷn yn arbennig ei chael yn anodd addasu i newid ac mae newid yn achosi pryder iddynt. Gall hyn gael effaith ar berthnasau a ffrindiau o ran trefniadau teithio os yw preswylydd yn cael ei symud i lety arall. Os bydd preswylwyr yn cael eu symud i lety arall, dylid ystyried yr effaith bosibl ar y gyfeillgarwch rhwng preswylwyr sy'n symud i lety arall. | Yn y lle cyntaf, dylid ystyried canlyniadau'r ymgynghori yn ofalus er mwyn nodi unrhyw faterion a godwyd mewn perthynas â'r effaith ar breswylwyr, eu teuluoedd, ffrindiau a phartïon eraill sydd â diddordeb.<br>Os yw'r penderfyniadau'n golygu fod angen symud preswylwyr, yna daw cynllun cau cartref gofal y Grŵp Cefnogaeth Weithredol i Ddarparwyr i rym.<br>Bydd y cynllun cau'n cynnwys:<br>• Darparu gwybodaeth hwylus<br>• Trosglwyddiadau wedi eu teilwrio a'u cynllunio'n unigol<br>• Cynnal cysylltiadau teuluol a chyfeillgarwch<br>• Deall y posibilrwydd y bydd unrhyw newid arfaethedig neu drosglwyddiad yn achosi gofid a dryswch |

| Y grŵp a warchodir | **Yr effaith debygol | *Manylion | Camau Lliniaru |
|---|---|---|---|
| | | **Staff**<br>Mae ansicrwydd ymysg y staff ynghylch pwy fydd y darparwr newydd ac a fydd unrhyw hawliau trosglwyddo dan TUPE.  Efallai y bydd diswyddiadau a chyfleoedd adleoli. | Bydd angen ystyried trefniadau teithio perthnasau a chynnal grwpiau cyfeillgarwch yn y cynllun ar gyfer cau'r cartref. Bydd gwasanaethau gofal cartref penodol a gwasanaethau eiriolaeth ar gael.<br><br>Bydd ymgysylltiad llawn a buan gyda'r staff a'r undebau llafur, gan gynnwys proses ymgynghori lawn a fydd yn digwydd ar yr un pryd â'r ymgynghori cyhoeddus. Os bydd darparwyr newydd yn y cartref, ac er mwyn osgoi diswyddiadau, byddai trefniadau adleoli'r Cyngor yn cael eu defnyddio.  Cynigir hyfforddiant ychwanegol i staff er mwyn sicrhau fod ganddynt y sgiliau ychwanegol i gymryd swyddi newydd.  Bydd gwasanaethau cymorth sensitif ac amserol ar gael ar gyfer yr holl staff yn ystod y cyfnod o ymgynghori a'r tu draw i hynny. |
| Anabledd | **Negyddol Uchel** | Efallai y bydd pobl yn cael anhawster addasu i lety newydd oherwydd eu hanabledd ac efallai y byddant yn pryderu ynghylch hyn.<br>Efallai y bydd preswylwyr a chanddynt anableddau penodol sydd ar hyn o bryd yn derbyn cymorth arbenigol dan anfantais oni bai y bydd opsiynau eraill yn darparu cymorth tebyg o'r un ansawdd.  Rhaid ystyried y risg i iechyd preswylwyr wrth eu symud.  Rhaid hefyd | Byddai gwasanaethau cymorth ac eiriolaeth penodol ar gael i reoli gofal gan gynnwys gwasanaeth IMCA er mwyn cefnogi trigolion a defnyddwyr gwasanaeth.<br>Rhaid i unrhyw drosglwyddiad gydymffurfio gyda'r cynllun ar gyfer cau'r cartref a chael ei gynllunio a'i weithredu mewn modd sy'n cymryd anghenion |

| Y grŵp a warchodir | **Yr effaith debygol | *Manylion | Camau Lliniaru |
|---|---|---|---|
| | | cymryd i ystyriaeth y posibilrwydd y bydd symud yn achosi gofid neu ddryswch arbennig i breswylwyr sydd â dementia. | penodol bob unigolyn i ystyriaeth. Mewn achosion priodol, byddai perthnasau agosaf y preswylydd a staff cyfarwydd yn rhan o'r broses er mwyn eu cefnogi i wneud penderfyniad ynghylch llety arall. |
| Rhyw | **Niwtral** | Ni ragwelir y bydd unrhyw newidiadau arfaethedig yn debygol o gael effaith wahanol ar ddynion a merched sy'n breswylwyr. Fodd bynnag, mae mwy o ferched yn breswylwyr ac yn staff sy'n golygu y byddai unrhyw effeithiau negyddol a fyddai'n codi o ganlyniad i unrhyw gynnig yn syrthio'n anghymesur ar y grŵp hwn.<br><br>Staff<br><br>Mae 19 o'r staff yn ferched ac un aelod o staff yn ddyn sy'n golygu y byddai unrhyw effeithiau negyddol a fyddai'n codi o ganlyniad i unrhyw gynnig yn syrthio'n anghymesur ar y grŵp hwn. | Byddai cynllun trosiannol effeithiol yn cael ei baratoi ar gyfer pob preswylydd yn seiliedig ar gynllun sy'n canolbwyntio ar y person. Byddai gwasanaethau cymorth ac eiriolaeth penodol ar gyfer rheoli gofal yn cael eu sefydlu er mwyn cefnogi preswylwyr.<br><br>Bydd yr holl staff yn cael yr un cyfle i gyfrannu ac i gael dweud eu dweud yn y broses ymgynghori waeth beth fo eu rhyw. |
| Newid Rhyw | **Dim Effaith** | Ni ragwelir y bydd unrhyw newidiadau arfaethedig yn cael effaith ar y nodwedd hon a ddiogelir. | |
| Beichiogrwydd a Mamolaeth | **Niwtral** | Nid yw'r nodwedd hon a ddiogelir yn berthnasol i'r preswylwyr. Glynir wrth bolisïau ac arferion Adnoddau Dynol mewn perthynas â staff ynghyd ag asesiadau risg priodol. | |
| Hil / Ethnigrwydd / Cenedligrwydd | **Niwtral** | Ni ragwelir y byddai unrhyw un o'r opsiynau yn arwain at achosi unrhyw anfantais i breswylwyr o unrhyw grŵp hil penodol mwy nag unrhyw breswylwyr eraill. Fodd bynnag, lle mae | Yn unol â Rheoliadau Cartrefi Gofal, rhaid i ddarpariaeth mewn cartref gofal gwrdd â gwahanol anghenion a dyheadau diwylliannol y preswylwyr. Bydd hyn yn |

| Y grŵp a warchodir | **Yr effaith debygol | *Manylion | Camau Lliniaru |
|---|---|---|---|
| | | gwasanaethau penodol yn cael eu darparu ar hyn o bryd i gwrdd ag anghenion penodol, mae'n bwysig bod y rhain yn cael eu nodi a chamau'n cael eu cymryd i sicrhau bod y gwasanaethau'n cael eu gwarchod a'u cynnwys yn y dewisiadau a roddir. | cael ei fonitro drwy'r system flynyddol ar gyfer cydymffurfio gyda chontractau. Felly, rhaid i unrhyw lety arall a nodir ddangos eu bod yn gallu bodloni anghenion diwylliannol unigol y preswylwyr. |
| Crefydd neu Gred | **Niwtral** | Ni ragwelir y byddai unrhyw un o'r opsiynau'n cael effaith anghymesur neu andwyol ar breswylwyr ar sail crefydd. Fodd bynnag, os bydd preswylydd yn cael ei drosglwyddo i lety arall, rhaid i'r llety hwnnw fedru cwrdd ag anghenion y preswylwyr o safbwynt crefydd. | Rhaid i unrhyw ddarpariaeth arall fedru cwrdd ag anghenion y preswylwyr yn unol â'r Rheoliadau Safonau Gofal. |
| Cyfeiriadedd Rhywiol | **Niwtral** | Ni ragwelir y byddai unrhyw newidiadau arfaethedig yn cael effaith ar y nodwedd hon a ddiogelir. | |
| Yr iaith Gymraeg | **Cadarnhaol Uchel** | Mae'r Cyngor yn ymrwymo i ddarparu gwasanaeth hollol ddwyieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg ar draws ei wasanaethau. | Byddwn yn sicrhau fod y darparwyr newydd yn cydymffurfio gyda Chynllun Iaith Gymraeg y Cyngor a dogfen strategaeth Llywodraeth Cymru 'Mwy na Geiriau'. |
| Hawliau Dynol | **Negyddol Canolig** | Gallai cau cartref gofal oherwydd penderfyniad polisi a symud preswylwyr i lety arall gael effaith ar hawliau dynol unigolyn o safbwynt:<br>Erthygl 6 – Yr hawl i achos teg yn yr ystyr y gwrthodir mynediad i lys i herio'r penderfyniad i gau'r cartref<br>Erthygl 8 – Bod yr hawl i barch ar gyfer bywyd preifat a bywyd teulu fywyd preifat, parchu teulu a chyfeillgarwch o ran symud i lety arall yn golygu ymyrryd ym mywyd preifat a bywyd teulu'r preswylydd mewn modd na fedrir ei gyfiawnhau. | Bydd y Cyngor yn ymgymryd â'i ddyletswydd statudol i ymgynghori er mwyn cael barn y preswylwyr a'u teuluoedd, gofalwyr, staff a grwpiau â diddordeb ynghylch yr opsiynau ar gyfer dyfodol Garreglwyd.<br>Bydd y Cyngor yn glynu wrth gynllun y Grŵp Cefnogaeth Weithredol i Ddarparwyr ar gyfer cau'r cartref a fydd yn cymryd unrhyw gamau i hwyluso symud preswylwyr a sicrhau fod eu hawliau dynol yn cael eu gwarchod. |

| Y grŵp a warchodir | **Yr effaith debygol | *Manylion | Camau Lliniaru |
|---|---|---|---|
| | | | Bydd yr holl ymatebion a gesglir yn ystod yr ymgynghori a chanlyniad yr Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn cael eu defnyddio i lunio argymhellion a fydd yn cael eu hsytyried gan y Bwrdd Gweithredol.  Bydd y gwerthusiad o'r ymgynghoriad wedyn yn cael ei roi at ei gilydd ar gyfer ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith Anffurfiol ar 30 Mehefin 2014. |

---



**RHAN A – Cam 4: Canlyniad yr asesiad cychwynnol**

| | |
|---|---|
| Ydy' Canlyniad yr asesiad cychwynnol yn mynd i symud ymlaen i Asesiad Effaith Cydraddoldeb llawn? | Na – Bydd y AEC cychwynnol hwn yn sail i waith pellach fel a nodir isod |
| | Bydd yr Asesiad hwn o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn cael ei adolygu'n dilyn y cyfnod ymgynghori a phan fydd Pwyllgor Gwaith y Cyngor yn gwneud penderfyniad terfynol. |
| Os na, oes yna unrhyw faterion sydd angen sylw? | |
| | Nodwch y manylion: Fel yr uchod. |

Os rydych wedi penderfynu **bod angen cynnal Asesiad Effaith Cydraddoldeb Llawn,** ewch ymlaen i **Rhan B** os gwelwch yn dda.

Os rydych wedi penderfynu **peidio symud ymlaen i Asesiad Effaith Cydraddoldeb Llawn,** ewch ymlaen i **Rhan C – Adroddiad ar y Canlyniad.**

# Templed Asesu Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) – CANLYNIAD

## RHAN C – Cam 1: Adroddiad ar y Canlyniadau

| | |
|---|---|
| Sefydliad: | Cyngor Sir Ynys Môn |
| | |
| | |
| Beth sy'n cael asesiad:<br>(Rhan A – cam 1) | Prosiect Opsiynau Gwella Llety – Cybi (Cartref Gofal Garreglwyd) |
| | |
| Amlinelliad byr o'r nodau ac amcanion:<br>(Rhan A – cam 1) | Adolygu'r ddarpariaeth o wasanaethau sy'n seiliedig ar lety yn ardal Cybi a nodi opsiynau ar gyfer Garreglwyd yn y dyfodol.<br>Gweler Rhan A pwynt 3 os gwelwch yn dda. |
| | |
| A symudwyd ymlaen i gynnal Asesiad Effaith Cydraddoldeb llawn o ganlyniad i'r asesiad cychwynnol?<br>(RHAN A – Cam 4) | **Na** – Bydd yr AEC cychwynnol hwn yn sail i waith pellach fel a nodir isod: |
| | Nodwch y rhesymau dros y penderfyniad:<br><br>Bydd yr AEC hwn yn cael ei adolygu'n dilyn y cyfnod ymgynghori a'r penderfyniad gan Bwyllgor Gwaith y Cyngor ar 14 Gorffennaf. |
| Os na, oes yna unrhyw faterion sydd angen sylw? | Fel yr uchod |
| | |
| Os do, beth oedd canlyniad yr asesiad llawn? | |
| | |
| A fydd y polisi' n cael ei fabwysiadu / anfon ymlaen am gymeradwyaeth? Pwy fydd yn gwneud y penderfyniad? | Bydd yr holl ymatebion a gesglir yn ystod yr ymgynghori a chanlyniad yr Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn cael eu defnyddio i lunio argymhellion a fydd yn cael sylw gan y Bwrdd Gweithredol. Yna, bydd y gwerthusiad ar yr ymgynghoriad yn cael ei gasglu ynghyd ar gyfer ei gyflwyno i'r cyfarfod anffurfiol o'r Pwyllgor Gwaith ar 30 Mehefin. |

| | |
|---|---|
| | Os na, nodwch, os gwelwch yn dda, beth yw’r rheswm dros hynny, ynghyd ag unrhyw weithredu pellach sydd angen ei wneud: |
| | |
| Oes yna drefniadau monitro mewn lle? Beth yw’r trefniadau hynny? | Bydd y Panel Cydraddoldebau’n adolygu’r AEC unwaith y bydd penderfyniad terfynol wedi’i wneud. Sefydlwyd grŵp tasg a gorffen i oruchwylio’r broses ymgynghori a byddwn yn monitro’r broses drosglwyddo wrth iddi ddatblygu. |

| | | |
|---|---|---|
| Pwy yw'r Swyddog Arweiniol? | Enw: | Carys Emyr Edwards |
| | Teitl: | Pennaeth Gwasanaeth – Uned Ddarparu |
| | Adran: | Adran Cymunedau |

| | |
|---|---|
| Dyddiad adolygu’r polisi a’r asesiad effaith: | I’w benderfynu |

| Enwau’r holl bartion a gymerodd rhan yn yr asesiad yma | Enw | Teitl |
|---|---|---|
| | Linda Kinani<br>Iola Richards<br>Sarah Tillman<br>Brian Jones<br>**Aelodau’r Panel Cydraddoldebau**<br>Carys Emyr Edwards<br>Gareth Llwyd<br>Brenda Roberts<br>Rhian Hughes – Polisi Corfforaethol<br>Ann Perkins | Arweinydd Tîm<br>Rheolydd Gwasanaeth<br>Rheolydd Rhaglen<br>Cydlynydd y Strategaeth ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol i Bobl Hŷn<br><br>Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Oedolion<br>Rheolwr yr Uned Cefnogi Busnes<br>Cyngor Pobl Hŷn<br>Swyddog Polisi Corfforaethol<br>Hwylusydd Iechyd a Gofal Cymdeithasol<br>Swyddog Trawsnewid Gwasanaethau Oedolion |

| | | |
|---|---|---|
| | Gwen Bennet | |
| | | |

Noder os gwelwch yn dda: Dylid atodi Cynllun Gweithredu at yr Adroddiad yma ar Ganlyniadau cyn ei gwblhau.

**RHAN C – Cam 2 – Cynllun Gweithredu**

Rhowch fanylion yma am unrhyw weithrediadau sydd wedi'u cynllunio yn dilyn cwblhau'r AEC. Dylid cynnwys unrhyw newidiadau a wnaed i leihau neu ddileu effaith negyddol tebygol neu wirioneddol, ynghyd ag unrhyw drefniadau i gasglu data neu wneud gwaith ymchwil pellach

| Cyf | Gweithrediadau arfaethedig | Swyddog arweiniol | Amserlen |
|---|---|---|---|
| 001 | Ymgynghori am fis ar yr opsiynau ar gyfer y dyfodol mewn perthynas â Chartref Gofal Garreglwyd | Brian Jones | 23 Mai – 22 Mehefin 2014 |
| 002 | Paratoi adroddiad ar gasgliadau'r ymgynghori | Tîm Trawsnewid | 23 Mehefin 2014 |
| 003 | Adolygu'r AEC yn dilyn penderfyniad y Pwyllgor Gwaith | Brian Jones | Cyn gynted ag sy'n bosibl ar ôl 14 Gorffennaf. Dyddiad i'w benderfynu. |

## ATODIAD 1 – HAWLIAU DYNOL

Hawliau a rhyddid i bob unigolyn yw hawliau dynol, gwaeth beth yw eu cenedligrwydd nag eu dinasyddiaeth. Mae yna 16 o hawliau sylfaenol yn y Ddeddf Hawliau Dynol - i gyd wedi'u cymryd o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. At bwrpas y Ddeddf, fe gyfeirir atynt fel 'Hawliau'r Confensiwn'. Fe'u rhestrir isod:

(Cyflwyniad yw Erthygl 1 – nid yw wedi'i ymgorffori yn y Ddeddf Hawliau Dynol)
Erthygl 2: Yr hawl i fywyd
Erthygl 3: Gwahardd artaith
Erthygl 4: Gwahardd caethwasiaeth a llafur gorfodol
Erthygl 5: Yr hawl i ryddid a diogelwch
Erthygl 6: Yr hawl i dreial teg
Erthygl 7: Dim cosb heb gyfraith
Erthygl 8: Hawl i barch at fywyd preifat a theuluol
Erthygl 9: Rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd
Erthygl 10: Rhyddid mynegiant
Erthygl 11: Rhyddid cymdeithasiad ac ymgynnull
Erthygl 12: Yr hawl i briodi
Erthygl 14: Gwahardd gwahaniaethu
Erthygl 1 o Brotocol 1: Diogelu eiddo
Erthygl 2 o Brotocol 1: Hawl i gael addysg
Erthygl 3 o Brotocol 1: Hawl i etholiadau rhydd
Erthygl 1 o Brotocol 13: Diddymu'r gosb eithaf

# Ymgynghori Lleol ar Garreglwyd
# Cyfarfod ag anghenion llety pobl hŷn yn awr ac yn y dyfodol

*Trosolwg o'r broses ymgynghori a ddilynwyd a'r adborth a dderbyniwyd*

**Mae'r trosolwg hwn yn ffurfio rhan o'r ymgynghoriad a gynhaliwyd o 23 Mai 2014 i 21 Mehefin 2014 i gasglu safbwyntiau ar y bwriad i werthu Garreglwyd, gorau oll iddo gael ei redeg fel cyfleuster dementia arbenigol (neu ddarpariaeth gofal preswyl preifat neu nyrsio preifat arall); bydd hyn yn cael ei gynnwys mewn adroddiad a'i gymryd i ystyriaeth pan fydd y Cyngor yn gwneud penderfyniad ynglŷn â'r cartref.**

## 1. Y Broses Ymgynghori a Chynllunio

**Ymgynghori ar beth?**
Bwriad yr ymgynghori oedd cael safbwyntiau ar y bwriad i werthu Garreglwyd, gorau oll iddo gael ei redeg fel cyfleuster dementia arbenigol (neu ddarpariaeth gofal preswyl preifat neu nyrsio preifat arall) fel a gymeradwywyd gan Bwyllgor Gwaith Ffurfiol Cyngor Sir Ynys Môn ar 19 Mai 2014.

**Pam Ymgynghori?**
Bwriad yr holl broses ymgynghori ac ymgysylltu, a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith, yw cael safbwyntiau'r bobl sydd ar hyn o bryd yn byw mewn cartrefi gofal preswyl, defnyddwyr ysbaid, defnyddwyr canolfannau dydd, eu gofalwyr, perthnasau a'r staff sy'n darparu gofal a chefnogaeth. Er mwyn sicrhau bod anghenion preswylwyr a'u cynrychiolwyr yn cael eu bodloni, a bod camau effeithiol ac effeithlon yn cael eu cymryd i ymateb i amgylchiadau ac anghenion unigol, pan fydd penderfyniad wedi ei wneud i ddadgomisiynu cartref gofal. Roedd y cynllun ymgynghori yn cynnwys strwythur oedd â'r nod o:

- Ganiatáu i bartïon allweddol oedd â diddordeb roi eu safbwyntiau ar y cynigion
- Darparu ystod o ffyrdd i bobl a grwpiau gofrestru eu safbwyntiau
- Gwella'r wybodaeth oedd ar gael i aelodau a chynorthwyo'r broses o wneud penderfyniad

**Pa bryd y gwnaethom ni Ymgynghori?**
Cynhaliwyd yr ymgynghori o 23 Mai 2014 i 21 Mehefin am gyfnod o 30 diwrnod yn unol a gweithredoedd tebyg gan Awdurdodau Lleol eraill cyfagos.

**Hefo pwy y gwnaethom ni Ymgynghori?**
Roedd y broses ymgynghori wedi ei chyfyngu a'i thargedu at gael safbwyntiau'r rhai a allai gael eu heffeithio petai newid o ran perchenogaeth Cartref Gofal Preswyl Garreglwyd. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Preswylwyr Garreglwyd
- Teuluoedd Preswylwyr Garreglwyd
- Staff Garreglwyd
- Defnyddwyr Ysbaid Garreglwyd
- Defnyddwyr y Gwasanaeth Dydd yn Garreglwyd
- Cyflenwyr i Garreglwyd
- Cartrefi Gofal Preswyl eraill Cybi a'r ddau Gartref Gofal Nyrsio ym Môn
- Ysbyty Penrhos Stanley a Meddygon Teulu Cybi
- Cynghorau Tref a Chymuned Plwyf Cybi

*SarahETillman@anglesey.gov.uk*

# Ymgynghori Lleol ar Garreglwyd
# Cyfarfod ag anghenion llety pobl hŷn yn awr ac yn y dyfodol

*Trosolwg o'r broses ymgynghori a ddilynwyd a'r adborth a dderbyniwyd*

- AGGCC
- Undebau
- Grwpiau cydranddeiliaid allweddol

Cafodd y canlynol eu hysbysu am yr Ymgynghoriad:
- Pob Cynghorydd
- Aelodau Cynulliad / Seneddol
- Comisiynydd Pob Hŷn
- Medrwn Môn
- Holl Staff Gofal Cymdeithasol

**Sut y gwnaethom ni gynllunio'r Ymgynghoriad?**
Sefydlwyd Grŵp Tasg a Gorffen Cynllunio Ymgynghoriad o swyddogion a pharatowyd dogfen cynllunio ymgynghoriad oedd yn cynnwys camau allweddol er mwyn sicrhau bod yr Ymgynghori'n dilyn y broses gywir.

Yn ogystal, sefydlwyd Bwrdd Ymgynghorol Trawsbleidiol o Aelodau a rôl y Bwrdd oedd rhoi cyfle i gynghorwyr o bob parti (a Deilyddion Portffolio allweddol) nid yn unig i gael cyfle yw hysbysu am y broses ymgynghori, ond hefyd yn cael eu diweddaru am ddatblygiadau. Sefydlwyd y ddau grŵp cyn i'r Ymgynghori ddechrau ac maent yn parhau i weithredu ar ôl yr Ymgynghori er mwyn darparu cefnogaeth barhaus yn ystod unrhyw newidiadau y bwriedir eu cyflwyno.

Mynychodd Gweithwyr Cymdeithasol Allweddol a Rheolwr Cartref Gofal Garreglwyd gyfarfod briffio oedd yn rhoi gwybodaeth gefndirol a manylion am sut y bydd yr Ymgynghori'n cael ei gwblhau gan gynnwys swyddogaethau pobl. Sefydlwyd Cymorthfeydd hefyd bob dydd Iau yn Garreglwyd rhwng 2 a 4 pm i dderbyn sylwadau, cwestiynau, ymholiadau a phryderon. Rhoddwyd gwybod i'r holl Staff Gofal Cymdeithasol a Thai drwy e-bost ar 23 Mai 2014 ynglŷn â'r Ymgynghori.

## 2. Darparu'r Ymgynghori ac Atborth

Cyn dechrau'r Ymgynghoriad, cadwyd mewn cysylltiad gyda'r holl gydranddeiliaid a chynhaliwyd cyfarfodydd un i un rhwng preswylwyr a theuluoedd a'r Cyfarwyddwr Cymuned a chyfarfodydd briffio i Aelodau. Rhoddwyd Dogfen Ymgynghori, Gwybodaeth Gefndirol ac amserlenni ar gyfer y penderfyniad i'r holl rai yr ymgynghorwyd â nhw a lle y cynhaliwyd cyfarfodydd un i un. Mae rhybuddion wedi cael eu cyhoeddi yn y wasg ac ar wefan y cyngor ei hun.

**Preswylwyr a Theuluoedd Preswylwyr Garreglwyd**
Cynhaliwyd cyfarfodydd unigol a chyfrinachol ar 28 Mai 2014 i pob preswylydd gydag Arweinydd Tîm Linda Kinani, a'r Gweithwyr Cymdeithasol Ann Lawlor a Megan Roberts. Hefyd yn bresennol oedd naill ai aelod o'r teulu neu eiriolydd o Gymdeithas yr Henoed. Rhoddwyd copïau o'r ddogfen ymgynghori i'r preswylwyr a'u cynrychiolwyr ac eglurwyd beth oedd y cynigion oedd yn yr ymgynghoriad i'r preswylwyr a'u cynrychiolwyr a gofynnwyd iddynt gwblhau holiadur yn nodi eu safbwyntiau ar y cynigion. Yn ogystal, mae "Ymgynghori Teuluoedd" hefyd yn cael ei gwblhau gyda holiadur ar wahân.

Gwelwyd cyfanswm o 11 preswylydd, ynghyd a dau gleient "tymor hir" a oedd ar gyfnod o ysbaid.

SarahETillman@anglesey.gov.uk

# Ymgynghori Lleol ar Garreglwyd
# Cyfarfod ag anghenion llety pobl hŷn yn awr ac yn y dyfodol

*Trosolwg o'r broses ymgynghori a ddilynwyd a'r adborth a dderbyniwyd*

Roedd chwe phreswylydd heb gwblhau'r holiadur ymgynghori, pedwar heb fod a'r galluedd meddyliol i roi ymateb ystyrlon, ag fe'i cynrychiolwyd gan eu teulu. Roedd y ddau breswylydd arall (un heb deulu felly yn cael ei gefnogi gan yr eiriolwr) yn teimlo y gallai fod yn ormod o straen ac roedd yn well ganddynt i'w teulu eu cynrychioli.

| | |
|---|---|
| Holiadur wedi'i lenwi | 7 |
| Holiadur heb ei gwblhau oherwydd gallu meddyliol a holiadur teuluoedd wedi'i gwblhau | 4 |
| Holiadur heb ei gwblhau oherwydd straen a holiadur teuluoedd wedi'i gwblhau | 1 |
| Holiadur heb ei gwblhau oherwydd straen a holiadur eiriolwr wedi'i gwblhau | 1 |

Roedd gweddill y preswylwyr yn gallu cwblhau'r holiadur yn llawn neu'n rhannol yn ystod y cyfarfod. Rhoddwyd holiaduron hefyd i deuluoedd a fynychodd. Mae ymatebion teuluoedd a preswylwyr wedi eu casglu ynghyd isod:

- Yn bryderus ynglŷn â'r newid, y posibilrwydd o orfod symud a'r gofid y byddai hyn yn ei achosi i'r preswylwyr. Roedd hon yn thema gyson drwyddi draw.
- Roedd pob un yn dymuno aros yn Garreglwyd er y tarfu posibl oherwydd newid mewn perchnogaeth. Dywedodd rhai preswylwyr y byddent yn rhoi "cyfle i'r perchnogion newydd i weld sut rai oedden nhw". Dywedodd un arall "cyn belled â'u bod yn bobl digon iawn". Dywedodd un cleient y byddai'n symud i Ddulyn pe bai pethau'n newid.
- Y teimlad cyffredinol oedd mai Garreglwyd oedd eu cartref. Roedd eu ffrindiau a'u teuluoedd yn gallu ymweld â hwy yn rhwydd. Roedd un preswylydd yn bryderus na allai ymweld â'r Neuadd Kingdom leol yn rheolaidd.
- Roedd yr holl breswylwyr a'u teuluoedd yn hapus gyda'r gofal yn Garreglwyd, roeddent yn canmol y staff, gan eu disgrifio fel rhai da, cywir a charedig. Mae'r staff yn rhai y gellir mynd atynt ac maent yn ffeind, ac mae llawer ohonynt hefyd yn siarad Cymraeg.
- Roedd un preswylydd wedi bod yn byw mewn cartref yn cael ei redeg yn breifat, ac roedd y ferch yn hynod o bryderus ac yn dweud nad oedd ganddi unrhyw hyder mewn cartrefi sy'n cael eu rhedeg yn breifat, ac y byddai'n rhaid iddi fod yn fwy gwyliadwrus am ofal ei mam.
- Roedd teimlad cyffredinol o ymddiriedaeth yng ngofal y cyngor o'r preswylwyr.
- Ni chafwyd unrhyw sylwadau croes ynglyn â Garreglwyd, dywedodd y preswylwyr eu bod yn mwynhau'r gweithgareddau, y tripiau, miwsig a gemau. Dywedodd un cleient ei bod wedi mwynhau'r solariwm yn arbennig a chael eistedd allan gyda'r adar a'r anifeiliaid. Roedd un arall eisiau gwell cludiant i fynd allan o gwmpas.
- Cafwyd rhai sylwadau cadarnhaol am gartref "Dementia", "maent angen mwy ar yr ynys".
- Roedd y mwyafrif yn teimlo nad oedd gofal nyrsio yn berthnasol iddynt hwy, ac roeddent yn ei chael yn anodd rhagweld a fyddai'n berthnasol yn y dyfodol.
- Roedd thema gyffredinol o gwestiynu pam bod y cyngor yn ystyried gwerthu cartref oedd wedi ei adeiladu'n bwrpasol pan "maent yn cadw toiledau ar agor".

Roedd yr eiriolwr yn bresennol yn ystod pum ymgynghoriad, ac roedd ei rôl yn bennaf yn un o gefnogi'r preswylwyr gyda'r broses hon.

SarahETillman@anglesey.gov.uk

# Ymgynghori Lleol ar Garreglwyd
# Cyfarfod ag anghenion llety pobl hŷn yn awr ac yn y dyfodol

*Trosolwg o'r broses ymgynghori a ddilynwyd a'r adborth a dderbyniwyd*

**Staff Garreglwyd**

Rhoddwyd rhybudd ysgrifenedig i Staff Garreglwyd gan yr Adran Adnoddau Dynol cyn i gyfarfodydd un i un a drefnwyd ymlaen llaw gael eu cynnal ar 29 Mai 2014. Dechreuodd hyn gyda sesiwn briffio gan Bennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Oedolion a'r Cyfarwyddwr Cymuned. Cynhaliwyd y cyfarfodydd un i un rhwng pob aelod unigol o staff, Ceri Jarvis (Swyddog AD), Bethan Williams (Cymhorthydd AD), Thelma Parry (Cynrychiolydd Undeb), Gwen Bennett (Swyddog Cefnogi Trawsnewid).

Rhai pwyntiau allweddol a godwyd gan staff mewn perthynas â'r ymgynghori oedd:

- Roedd rhai wedi gwneud cais eisoes am ddiswyddiad gwirfoddol ac eisiau gwybod pam y cafodd hyn ei wrthod ac a fydd yn cael ei ailsefydlu
- Eisiau gwybod a fyddai TUPE yn berthnasol
- Mae rhai aelodau staff yn weithwyr achlysurol gyda chontractau oriau sero ac wedi bod felly am o leiaf 3 i 14 blynedd, ac eisiau gwybod sut y byddai TUPE yn effeithio arnynt hwy neu a fyddai modd iddynt gael contract
- A fydd adleoli ar gael a pa hyfforddiant fyddai ar gael i'w helpu
- Yn gofyn am fwy o wybodaeth am eu pensiynau unigol
- Un gweithiwr yn teimlo bod yr Ynys angen cyfleuster dementia.
- Gwnaed dim gwrthwynebiad yn erbyn y cynigion a roedd staff yn croesawodd staff fod penderfyniad yn cael ei wneud

**Defnyddwyr Ysbaid yn Garreglwyd**

Cafwyd cyfarfodydd un i un (gyda'r un aelodau o staff yn bresennol) eu cynnal gyda Defnyddwyr Ysbaid (17) a Gwasanaeth Dydd (3, er bod 2 unigolyn arall yn derbyn gwasanaethau dydd, maent hefyd yn derbyn gofal Ysbaid ac felly gwblhaodd yr holiadur ysbaid yn ogystal) sydd hefyd wedi derbyn holiaduron. Eto, os oedd angen, roedd aelod o'u teulu neu eiriolwr hefyd yn bresennol. Yn gyffredinol fe gwblhawyd hwy yng nghartref y defnyddiwr gwasanaeth ei hun. Cynhaliwyd y rhain rhwng 2 a 21 Mehefin 2014. Roedd un ymateb 'Dim barn'.

Pwyntiau allweddol a godwyd o'r cyfarfodydd ar holiaduron oedd:

- Gwerthfawrogi'r angen am welyau ychwanegol ar gyfer Dementia, bydd cartref cyfan ar gyfer Dementia yn cael ei groesawu, ond mae consyrn y byddai ffioedd yn cynnyddu a byddai yn effeithio ar Ysbaid gan fod gwelau Ysbaid eisoes yn brin ar yr Ynys.
- Sylwadau tebyg i Dementia yn cael eu gwneud am nyrsio.
- Os gwerthir yr eiddo, byddai'n well i Garreglwyd aros yr un fath gan gynnwys staff, ond gyda rhywfaint o foderneiddio, gan gynnwys ailwampio a WiFi.
- 100% yn hapus i aros yn Garreglwyd a dim ond un eisiau Ysbaid mewn sefydliad arall.
- Os nad oes cartrefi ar gael, dylid buddsoddi yn y Gymuned.
- Cwestiynau a sylwadau eraill yn cynnwys:
    - A oes ddigon a welyau preswyl ar Ynys Mon?
    - Sut gall aelodau hyn o'r teulu ymweld ar preswylwyr?
    - Pam ydych chi eisiau cau Garreglwyd?
    - "Oni bai eich bod, neu wedi bod yn Ofalwr llawn amser, nid oes gennych ymwybyddiaeth na dealltwriaeth o'r anawsterau a wynebir gan Ofalwyr"
- Byddai'n ystyried gwasanaethau mewn cartref arall, ond Garreglwyd bydd dewis cyntaf ar yr amod nad oedd amhariad mawr drwy waith adeiladu / adnewyddu.

# Ymgynghori Lleol ar Garreglwyd
# Cyfarfod ag anghenion llety pobl hŷn yn awr ac yn y dyfodol

*Trosolwg o'r broses ymgynghori a ddilynwyd a'r adborth a dderbyniwyd*

**Defnyddwyr Gwasanaeth Dydd Garreglwyd**
Derbyniodd Defnyddwyr Ysbaid a Gwasanaeth Dydd holiaduron tebyg i rai'r Preswylwyr. Fel gyda'r Preswylwyr cynhaliwyd y rhain ar sail un i un gydag un o'r Gweithwyr Cymdeithasol a nodir uchod ac aelod o'u teulu neu eiriolwr os oedd angen. Yn gyffredinol fe gwblhawyd hwy yng nghartref y defnyddiwr gwasanaeth ei hun. Cynhaliwyd y rhain rhwng 2 a 21 Mehefin 2014.
Er bod pump o bobl yn derbyn Gwasanaethau Dydd yn Garreglwyd, mae dau o'r rhain hefyd yn derbyn Ysbaid ac felly wedi cwblhau holidaur Ysbaid yn ogystal:

Pwyntiau allweddol a godwyd o'r cyfarfodydd ar holiaduron oedd:

- Mewn perthynas a Garreglwyd yn dod yn Gartref Gofal Dementia, y farn oedd y dylai fod yn agored i bob grwp, yr henoed, pobl anabl a EMI.
- Ni fyddai eisiau mynd i wasanaethau dydd os oedd pawb yn dioddef o Dementia.
- Pryder os nad yw gwasanaethau dydd ar gael drwy newid y defnydd neu'r perchnogaeth, byddai hyn yn effeithio ar y defnyddiwr gwasanaeth a theuluoedd.
- Roedd un yn ffafrio iddo gael ei redeg fel gartref nyrsio preifat. Un yn ffafrio iddo gael ei redeg fel cartref preswyl preifat cyn belled bod y staff ar gofal yn aros yr un fath ac roedd gan un dim barn yn ffordd na'r llall cyn belled a bod ansawdd y gofal yn dda
- Nid oes unrhyw un yn teimlo ni fyddai newid i nyrsio yn effeithio ar eu gwasanaethau dydd, cyn belled ag y gallend dal fynd yno.
- Nid oes unrhyw un yn casau unrhyw beth ac yn mwynhau sawl elfen o'r cartref, maent yn hapus i fynd yno ac ni fyddent yn hoffi'r cyfle i fynd i rhywle arall.
- Yr unig gwestiwn oedd mewn perthynas a'r budd ariannol caiff y Cyngor o werthu Garreglwyd.

**Cyflenwyr Garreglwyd**
Anfonwyd llythyrau personol at 16 o'r cyflenwyr nwyddau a gwasanaethau i Garreglwyd ar 23 Mai 2014 gyda holiadur ynghlwm.

Cysylltwyd â'r holl gyflenwyr ar y ffôn i'w atgoffa i gwblhau ac yn dychwelyd eu holiadur er bod dryswch ymysg rhai ynghylch pam yr oeddynt yn cael cymryd rhan yn yr Ymgynghoriad. Derbyniwyd 8 ymateb.

Pwyntiau allweddol a godwyd o'r trafodaethau ar holiaduron oedd:

- Ansicr a fyddai newid perchnogaeth yn effeithio eu cyflenwad.
- Ni chafodd barn cryf ei fynegi

**Cartrefi Gofal Preswyl eraill yn Ardal Cybi a'r ddau Gartref Gofal Nyrsio yn Ynys Môn**
Yn ogystal, ar 23 Mai 2014, anfonwyd llythyrau at y 5 Cartrefi Gofal Preswyl eraill a'r 2 Gartref Gofal Nyrsio yn Ynys Môn a all gael eu heffeithio gan unrhyw newidiadau mewn perchenogaeth ac/neu ddefnydd o Garreglwyd ynglŷn â'r newidiadau arfaethedig. Fe'u gwahoddwyd i ddychwelyd holiadur a'u gwahodd i gyfarfod i drafod y cynigion ar y 18 Mehefin, a fynychwyd gan 3 allan o'r 7.

# Ymgynghori Lleol ar Garreglwyd
# Cyfarfod ag anghenion llety pobl hŷn yn awr ac yn y dyfodol

*Trosolwg o'r broses ymgynghori a ddilynwyd a'r adborth a dderbyniwyd*

Pwyntiau allweddol a godwyd o'r cyfarfodydd ar holiaduron oedd:

- Yn gyffredinol yn cefnogi
- Croesawu penderfyniad yn cael ei wneud
- Yn awyddus i weithio gyda'r awdurdod i sicrhau y gellid hanghenion yn cael eu diwallu
- Roedd diddordeb mewn prynu Garreglwyd eu hunain, ond roedd ansicrwydd am yr effaith pe bai cystadleuydd yn ei brynu.

**Penrhos Stanley a Meddygon Teulu Cybi**

Ysgrifennwyd i'r holl bartïon Iechyd naill ai drwy'r post neu drwy e-bost ar 4 Mehefin 2014. Roedd hyn yn cynnwys yr holiadur a roddwyd i'r cyhoedd. Yn ogystal, ffoniwyd pob swyddfa i'w hatgoffa o'r cyfle i gymryd rhan ar 18 Mehefin 2014. Ni dderbyniwyd unrhyw ymateb amlwg er mae'n bosib eu bod wedi ymateb i'r holiadur ar-lein.

**Cynghorau Tref a Chymuned Plwyf Cybi**

Ysgrifennwyd yr holl Gynghorau uchod un ai drwy'r post neu e-bost ar 4 Mehefin 2014. Roedd hyn yn cynnwys holiadur a roddwyd i'r cyhoedd. Atgoffwyd pob cyngor i'w hatgoffa o'r cyfle i gymryd rhan ar 18 Mehefin 2014. Un ymateb yn unig y derbynnir yn uniongyrchol, oni bai eu bod wedi ymateb i'r holiadur ar-lein, cafwyd un ymateb i'r Ymgynghori gan Gynghorau Plwyf, Tref a Chymuned yn ardal Cybi.

- Cyngor Tref Caergybi or farn y byddent yn gwrthwynebu gwerthu'r cyfleuster ac iddo gael ei gadw fel cartref preswyl ar gyfer cymuned Caergybi.

**AGGCC**

Anfonwyd llythyr at AGGCC ar 23 Mai 2014, yn amlinellu'r cynigion ar gyfer Ymgynghori ac yn rhoi cyfle iddynt nodi sylwadau. Ni chafwyd unrhyw ymateb i'r ymgynghori gan AGGCC.

**Undebau**

Ar 23 Mai 2014, anfonwyd llythyr at bob un o'r Undebau (Unsain, GMB a Unite) yn rhoi gwybod iddynt am yr Ymgynghori ac yn cynnig cyfle iddynt gymryd rhan. Cynhaliwyd cyfarfod pellach gyda Carys Emyr Edwards ar 21 Mai 2014 i drafod yr Ymgynghori ac mae'r Undebau wedi bod ar gael i Staff drwy gydol yr Ymgynghoriad. Cafwyd ymateb gan Unsain.

**Grwpiau Cydranddeiliaid Allweddol**

Nodwyd y cydranddeiliaid allweddol ac anfonwyd holiadur atynt i gael eu teimladau am yr ymgynghori hwn. Ar 2 Mehefin 2014, aeth y Cynghorydd Robert Llewelyn Jones (Pencampwr Pobl Hŷn) a chopïau o'r holiadur priodol, y wybodaeth gefndirol a'r Ddogfen Ymgynghori i Glwb Cinio Morawelon. Yn dilyn hynny, ymwelwyd â dau glwb cinio arall.

Gallai ymateb gan unrhyw un o'r grwpiau uchod wedi dod trwy'r wefan neu drwy rai o'r holiaduron papur a gafwyd, ac efallai ni fydd modd eu hadnabod. Er mwyn cysondeb wrth ddadansoddi holiaduron hyn, cafwydd unrhyw un derbyniwyd ar ffurf papur eu cofnodi ar-lein.

Mae cyfanswm o 53 o ymatebion i'r holiadur ar-lein yn ystod y cyfnod ymgynghori, mae hyn yn cynnwys unrhyw ymatebion ysgrifenedig a dderbyniwyd.

# Ymgynghori Lleol ar Garreglwyd
# Cyfarfod ag anghenion llety pobl hŷn yn awr ac yn y dyfodol

*Trosolwg o'r broses ymgynghori a ddilynwyd a'r adborth a dderbyniwyd*

## 3. Ymatebion i'r Cwestiynau a Godwyd

Yn ystod yr Ymgynghoriad, codwyd rhai cwestiynau yr oedd modd i ni ymateb iddynt yn syth. Ceir crynodeb isod:

| | |
|---|---|
| Ymddiswyddo Gwirfoddol | Gwrthodwyd Ymddiswyddiad Gwirfoddol ar gyfer staff eisoes oherwydd hyd oni fydd penderfyniad wedi cael ei wneud am ddyfodol Garreglwyd, mae dyletswydd o ofal ar Gyngor Sir ynys Môn i'r trigolion a rhaid parhau i ddarparu gwasanaeth. Nid oes unrhyw wahaniaeth yn y cyfraddau rhwng diswyddiad gorfodol a gwirfoddol. |
| TUPE | Bydd hyn yn dibynnu ar y penderfyniad a wnaed ac ni fydd gwybodaeth bellach ar gael hyd oni fydd hynny wedi digwydd. Cyngor arbenigol ychwanegol yn cael ei sicrhau drwy Adnoddau Dynol. |
| Hyfforddiant Staff | Mae Hyfforddiant i Staff mewn nifer o feysydd wedi bod ar gael ers peth amser. Mae hyfforddiant yn rhan hanfodol o ddatblygu rôl ac mae'n rhan o'r broses o werthuso staff lle gall unigolion drafod eu hanghenion hyfforddiant ac addysg ynghyd ag argaeledd hyfforddiant o'r fath. |

## 4. Trosolwg o'r holl Bwyntiau Allweddol a Godwyd

Ac eithrio cwestiynau a godwyd ac yr ymatebwyd iddynt (gweler 3 uchod), gellir crynhoi Pwyntiau Allweddol yr Ymgynghori fel a ganlyn:

1. 96.2% o blaid penderfyniad yn cael ei wneud yn fuan a dealltwriaeth cyffredinol o'r sefyllfa gyfredol. Mynegwyd rhyddhad y bydd penderfyniad yn cael ei wneud yn fuan fel y gall unigolion gynllunio yn effeithiol ar gyfer eu dyfodol.

2. Cytunodd 65.5% o'r 53 o ymatebion i'r holiadur cyffredinol y dylai Garreglwyd yn cael ei werthu gyda defnydd a ffafrir ar gyfer gwasanaethau dementia, er bod sylwadau ategol ychwanegol o'r Ymgynghoriad cyfan yn cynnwys dewisiadau ar gyfer Nyrsio

3. 58.2% o'r ymatebion cyffredinol yn cefnogi'r cynnig a gyflwynwyd (32.7% gefnogi'n gryf a 25.5% o blaid)

4. Ychydig iawn o bryder generig oedd yna ac roedd y pryderon a leisiwyd yn bennaf yn ymwneud ag amgylchiad unigolion.

5. Pobl yn ffafrio ei ddefnyddio fel cyfleuster dementia, nyrsio neu breswyl, dim am ei weld yn cael ei ddefnyddio i unrhyw bwrpas arall.

6. 52.7% o'r ymatebion i'r holiadur cyffredinol yn dweud ei fod yn bwysig pwy sydd biau'r cartref, ac yn dweud y dylai perchennog redeg y cartref yn iawn a rhoi'r gofal gorau posib. Mae rhai yn credu mai'r Cyngor ddylai'r perchennog fod.

7. Safon y gofal yw'r ffactor bwysicaf mewn unrhyw benderfyniad.

SarahETillman@anglesey.gov.uk

8. Byddai 47.2% o'r ymatebwyr yn cael eu heffeithio mewn rhyw fodd gan y newidiadau.

9. Sylwadau pellach yn cynnwys bod y Cyngor wedi cymryd gormod o amser i gyrraedd y pwynt hwn a'u bod yn gobeithio fod y Cyngor am wrando ar yr hyn y mae pobl yn ei ddweud.

Mae'r tabl isod yn dangos dadansoddiad o'r holiaduron sydd wedi cael eu dosbarthu a'u derbyn. Fel disgrifwyd uchod, cafwydd cyfarfodydd ychwanegol eu cynnal fel rhan o'r ymgynghoriad.

| Cydranddeiliad | Dosbarthwyd | Derbyniwyd | % |
|---|---|---|---|
| Preswylwyr | 13 | 9 | 69% |
| Teuluoedd Preswylwyr | 13 | 8 | 60% |
| Ysbaid | 17 | 15 | 88% |
| Cyflenwyr | 16 | 8 | 50% |
| Cartrefi Gofal Eraill | 7 | 2 | 29% |
| Gwasanaeth Dydd | 3 | 3 | 100% |
| Cymunedol* | | 55 | |

**Yn cynnwys Iechyd, Meddygon Teulu Cybi, Cynghorau Tref, Cymuned a Phlwyf, Cymdogion, y cyhoedd yn gyffredinol. Ymgynghorwyd gyda staff trwy brosesau AD priodol.*

# Ymgynghori Lleol ar Garreglwyd
# Cyfarfod ag anghenion llety pobl hŷn yn awr ac yn y dyfodol

*Trosolwg o'r broses ymgynghori a ddilynwyd a'r adborth a dderbyniwyd*

**Atodiad 1** **Ymatebion i'r Holiadur**

***DIM OND YN CYNNWYS Y 55 O YMATEBION A OEDD WEDI DOD I LAW ERBYN 23/06/14***

**1. What connection do you have with the home?**

| | Response Percent | Response Count |
|---|---|---|
| Have friend / relatives there | 29.1% | 16 |
| Provide services to the home | 7.3% | 4 |
| It is my neighbour | 3.6% | 2 |
| None | 60.0% | 33 |
| Other (please confirm) | | 13 |
| answered question | | 55 |
| skipped question | | 0 |

- Arfer gweithio yno
- Gwirfoddoli yno weithiau
- Arfer bod â pherthynas yno
- Arfer byw yn ymyl y cartref
- Roedd fy ngŵr yn arfer mynd yno am ofal ysbaid
- Wedi derbyn gofal ysbaid yno am 3 wythnos
- Mae gennyf berthynas yno y mae fy mam yn ymweld ag ef/â hi yn aml
- Mae gan ein hetholwyr lleol berthnasau yno
- Roedd fy mam yn arfer derbyn gofal ysbaid yno
- Mae cyfaill i mi yn derbyn gofal ysbaid yno
- Ardal Cymunedau yn Gyntaf
- Meddyg Teulu lleol
- Mae llawer o drigolion Meddygfa Victoria yn byw yng nghartref preswyl Garreglwyd

SarahETillman@anglesey.gov.uk

# Ymgynghori Lleol ar Garreglwyd
# Cyfarfod ag anghenion llety pobl hŷn yn awr ac yn y dyfodol

*Trosolwg o'r broses ymgynghori a ddilynwyd a'r adborth a dderbyniwyd*

2. In past there was consultation on closing Garreglwyd. To manage the uncertainty there was agreement that no further long term admissions should be made and spare beds be used for short term / respite care. Consulting now on Garreglwyd to provide some certainty around its future has been welcomed. This current Consultation will inform a decision by our Formal Executive on 14th July 2014. Following the decision, the timescales for any changes will be clearly communicated to those affected. Do you agree with the proposed way forward that Garreglwyd be sold with a preferred use for it to be run as a specialist dementia facility?

| | Response Percent | Response Count |
|---|---|---|
| Yes, because.... | 65.5% | 36 |
| No, because.... | 34.5% | 19 |
| answered question | | 55 |
| skipped question | | 0 |

- Na, gwastraffu arian y trethdalwyr ar fwy o ymgynghori, mae'r ffordd yr ydych yn trin y preswylwyr yn warthus, yn eu gadael mor hir heb wneud penderfyniad
- Ydw, ar gyfer uned dementia ac uned breswyl
- Na, byddai'n well gennyf ddefnydd preswyl
- Ydw, angen iddo fod yng Nghaergybi
- Ydw, efallai y byddaf ei angen yn y dyfodol
- Ydw, mae angen amdano yn y gymuned
- Ydw, mae angen pob cymorth ar gyfer yr henoed
- Ydw, does unman arall i fynd
- Ydw, mae'n darparu gwasanaeth gwerthfawr
- Ydw, ar gyfer yr holl bobl sydd â dementia nad ydynt yn gallu aros yn eu cartrefi eu hunain
- Ydw, nid oes cyfleuster ar gael ar hyn o bryd
- Nid yw'r hyn yr ydych yn ei gynnig yn gwarantu y bydd yn gyfleuster dementia penodol nac yn cynnig gofal nyrsio dementia arbenigol 24 awr ar y safle ynghyd â gofal
- Byddai'n well gennym ni petai CSYM yn rhedeg Garreglwyd fel cyfleuster dementia arbenigol
- Ydw, mae gwir angen cyfleuster o'r fath
- Ydw, mae angen cyfleuster dementia arbenigol arnom
- Na, mae gwasanaethau dementia arbenigol eraill ar gael
- Na, nid yw'r adeilad yn addas
- Na, am ei weld yn aros fel y mae
- Ydw, mae angen gwasanaeth dementia
- Na, dim yn hoffi'r syniad o werthu'r adeilad
- Na, aros yn nghofal y Cyngor

SarahETillman@anglesey.gov.uk

- Ydw, byddai'n lleihau'r baich ar gartrefi gofal preswyl a rhyddhau gwelyau a'r gyfer cleientiaid llai abl
- Ydw, mae angen am le ar gyfer Dementia
- Dim ansicrwydd o wasanaethau sydd ar gael
- Na, cartref arferol yw'r prif angen yng Nghaergybi
- Na oherwydd ei fod yn rhan hanfodol o wasanaethau cymdeithasol lleol a gofal yn y gymuned
- Cyn belled â'i fod yn darparu ar gyfer yr henoed yn gorfforol, yn ogystal
- Mae angen canolfan ar gyfer trin dementia, ond hefyd sicrhau bod canolfannau ar gyfer pobl hŷn eraill

**3. Do you agree that a decision should be made soon?**

| | Response Percent | Response Count |
|---|---|---|
| Yes, because.... | 94.5% | 52 |
| No, because.... | 5.5% | 3 |
| answered question | | 55 |
| skipped question | | 0 |

- Ydw, wedi mynd ymlaen yn rhy hir
- Ydw, dim yn gwybod beth sy'n digwydd
- Ydw, ansicrwydd i'r staff a'r preswylwyr
- Ydw, gormod o ansicrwydd ar hyn o bryd
- Ydw, peth yw pwrpas llusgo eich traed
- Ydw, i leddfu ansicrwydd i'r preswylwyr a'r staff
- Gorau po gyntaf
- Ydw, wedi bod yn mynd ymlaen yn rhy hir
- Ydw, gorau po gyntaf
- Ydw, wedi bod yn mynd ymlaen yn rhy hir
- Rwy'n tybio bod y preswylwyr a'r staff angen rhyw elfen o sicrwydd ynglŷn â'r dyfodol yn lle gorfod pryderu am eu dyfodol
- Ydw, nid oes digon o ddefnydd yn cael ei wneud ohono ar hyn o bryd
- Ydw, oherwydd yr ansicrwydd
- Ydw, oherwydd nid yw'r preswylwyr yn gwybod beth sy'n digwydd
- Ydw, oherwydd mae'r preswylwyr yn nerfus oherwydd nad oes sicrwydd ynglŷn â'u dyfodol
- Ydw, gorfod gwneud penderfyniad, dim yn deg ar y sawl sy'n byw yno
- Ydw, oherwydd yr ansicrwydd i'r preswylwyr a'r staff
- Ydw, oherwydd mae'n bosib y caiff yr adeilad ei fandaleiddio

# Ymgynghori Lleol ar Garreglwyd
# Cyfarfod ag anghenion llety pobl hŷn yn awr ac yn y dyfodol

*Trosolwg o'r broses ymgynghori a ddilynwyd a'r adborth a dderbyniwyd*

- Ydw, oherwydd yr effaith ar y preswylwyr
- Ydw, byddai'n lleihau'r straen a gofid preswylwyr presennol, staff a theuluoedd ynghylch eu dyfodol
- Ydw, mae mwy o bobl a Dementia ac yn gorfod trafeilio ymhellach i gael lle.
- Ydw, i atal pobl rhag poeni
- Na, pam rhuthro
- Ydw, angen i bobl wybod lle maent yn sefyll
- Amhendantrwydd yn creu straen i drigolion a theuluoedd
- Rhaid cael ymgynghoriad boddhaol gyda'r gymuned gyfan yn dalgylch Garreglwyd
- Nid oes unrhyw reswm i oedi

**4. This consultation is on proposals for Garreglwyd to be sold with a preferred use for it to be run as a specialist dementia facility (or other private nursing or private residential care provision) and this is with the provisos that: - No commissioning commitment will be made to accompany the sale - Care of current residents is prioritised and best practice guidance for care (including any transfer of care) is adopted and implemented - Engagement with residents, families, staff and members is undertaken on a continuous basis. Which do you think would be the best future use for Garreglwyd?**

| | Response Percent | Response Count |
|---|---|---|
| Specialist dementia | 56.4% | 31 |
| Nursing | 20.0% | 11 |
| **Residential** | **58.2%** | **32** |
| Other | 5.5% | 3 |
| Please explain what benefits your preferred choice would bring and why you think this would be the best use? | | 30 |
| **answered question** | | **55** |
| **skipped question** | | **0** |

- Gadewch ef fel y mae a'i redeg yn iawn, rhowch i'r preswylwyr yn lle pobl mewn swyddfeydd yr hawl i ddewis sut y mae'r arian yn cael ei wario, e.e. ar fwyd, dodrefn ac ati. Prynwch yn lleol, arbedwch arian a chynhaliwch yr economi leol yn lle talu am fwy na fyddech yn ei brynu eich hun. Mae'r Cyngor wedi bod yn gwneud hyn am flynyddoedd ac wedi gwastraffu arian. Cael uned gofal nyrsio lle gall pob aros pan fo eu hanghenion yn ddwysach, rydych yn dweud eich bod yn malio, felly dangoswch hynny.
- Ni fedr nifer o henoed ofalu am eu hunain yn eu cartrefi
- Pobl yn byw yn hirach, felly mae ei angen
- Cymaint o bobl hŷn yng Nghaergybi, mae gwir angen y cyfleuster hwn
- Dim byd arall yn y dref

# Ymgynghori Lleol ar Garreglwyd
# Cyfarfod ag anghenion llety pobl hŷn yn awr ac yn y dyfodol

*Trosolwg o'r broses ymgynghori a ddilynwyd a'r adborth a dderbyniwyd*

- Dylai tref fawr fel Caergybi fod â chyfleuster i edrych ar ôl eu henoed
- Rhaid cael mwy o gartrefi nyrsio
- Mae angen am y cyfleuster hwn yn lleol
- Rwyf eisoes yn defnyddio'r cyfleuster ar gyfer gofal ysbaid ac mae'r gofal yn wych
- Pawb hefo'i gilydd. Angen canolfan feddygol fel Scarborough. Braf gweld y meddyg a phawb
- Gwasanaeth cymunedol gyda gofal meddygol ar gyfer yr henoed
- Rwy'n credu ein bod angen cartref dementia a nyrsio arbenigol. Y rheswm am hyn yw bod gennyf berthynas agos iawn yn St Tysilio sydd angen gofal preswyl a nyrsio oherwydd dementia dwys a phroblemau iechyd. Mae'r cartref preifat hwn yn cael ei sgriwtineiddio'n rheolaidd gan y Cyngor a'r AGGCC oherwydd safonau isel. Rhaid i ni dderbyn mai hyn yw'r gorau sydd ar gael ar yr Ynys ar gyfer ein perthynas ni oherwydd diffyg cyfleusterau eraill. Mae nifer o'r preswylwyr tymor hir yn St Tysilio o Gaergybi a byddwn yn tybio bod llawer mwy yn gorfod byw oddi ar yr Ynys. Yr unig ddewis arall a oedd ar gael i ni oedd Llanelwy a Rhyl. Mae 'defnydd a ffefrir' yn awgrymu y gellid cyflwyno cais am unrhyw beth ar y safle ac mai ychydig iawn o reolaeth fyddai gan y Cyngor dros y math o ddatblygiad, e.e. gallai fod yn ddatblygiad tai cyffredin oherwydd ei fod mewn lleoliad preswyl delfrydol yng Nghaergybi. Mae angen i Ynys Môn ddal gafael yn y safle hwn ar gyfer gofal dementia, gofal preswyl a nyrsio, p'un a yw'n cael ei adeiladu/ei redeg gan ddatblygwr/darparwr preifat a RHAID i hynny fod yn amod gwerthu.
- Rydym yn boblogaeth sy'n heneiddio ac mae gofalu am henoed gyda phroblemau iechyd meddwl yn broblem sydd ar gynnydd
- Mae'r system bresennol yn gweithio'n dda. Pam mae'r Cyngor yn colli arian? Nid yw cartref preifat yn colli arian.
- Fel bod y preswylwyr sydd yno ar hyn o bryd yn derbyn gofal.
- Mae cymysgedd o breswylwyr gyda dementia lefel isel neu gyflyrau eraill o fudd i bawb.
- Mae nifer y bobl sydd â dementia ar gynnydd.
- Dim yn siŵr i ddweud y gwir, oherwydd mae fy nheulu wedi cytuno'n barod i edrych ar fy ôl pe cyfyd yr angen.
- Dim cartref nyrsio yn yr ardal.
- Dim cartref dementia yn yr ardal.
- Ar hyn o bryd, mae theuluoedd yn teithio ymhellach i gadw cysylltiad neu yn gobeithio y bydd y sector breifat yn eu derbyn, mae hyn oherwydd diffyg cyfleusterau EMI
- Mae rhaid i rhai fynd i gartrefi gofal eraill mewn ardal gwahanol
- Aros fel y mae
- Hyfforddiant ar gyfer gofalwyr y dyfodol ar draws Ynys Mon, yn dangos ymrwymiad CSYM i ddyfodol yr Henoed.
- I Breswylwyr a'u teuluoedd fod yn y gymuned leol.
- Byddai hyn orau i gwrdd ag angen y gymuned, yn enwedig os bydd yn cynnwys pwyslais ar Ysbaid
- Cymuned hŷn yn cynnydu'n gyflym (â gofynion gofal iechyd corfforol a meddyliol) angen safon broffesiynol ac uchel o ofal.

SarahETillman@anglesey.gov.uk

# Ymgynghori Lleol ar Garreglwyd
# Cyfarfod ag anghenion llety pobl hŷn yn awr ac yn y dyfodol

*Trosolwg o'r broses ymgynghori a ddilynwyd a'r adborth a dderbyniwyd*

- Rwyf am i dementia a phreswyl gymryd i ystyriaeth maint yr adeilad, oni fyddai'r defnydd gorau o'r adeilad hwn eich bod yn cymryd un hanner o drigolion hŷn gyda dementia a'r hanner arall ar gyfer preswyl ar gyfer y rhai nad ydynt yn dioddef o gyflwr fel dementia.

**5. Do you think it matters who owns Garreglwyd? How and why?**

| | Response Percent | Response Count |
|---|---|---|
| Yes, because.... | 52.7% | 29 |
| No, because.... | 47.3% | 26 |
| answered question | | 55 |
| skipped question | | 0 |

- Na, fedra nhw ddim bod dim gwaeth na'r Cyngor.
- Ydw, Gwasanaethau Cymdeithasol.
- Ydw, Gwasanaethau Cymdeithasol fyddai orau
- Ydw, yr Ymddiriedolaeth
- Ydw, byddant yn cael eu monitro gan AGGCC
- Ydw, rhaid bod ganddynt record y gellir ymddiried ynddi
- Na, ar yr amod ei fod yn cael ei redeg yn dda
- Na, ar yr amod ei fod yn cael ei redeg yn dda
- Na, angen ei redeg yn dda
- Na, ar yr amod fod pobl yn derbyn gofal da
- Na, ar yr amod fod y gofal yn dda
- Preifat, oherwydd mae'r Cyngor yn colli arian
- Ydw, dylai'r Cyngor ei redeg
- Ar yr amod ei fod yn uned dementia arbenigol, gofal preswyl a nyrsio ac yn parhau i ddarparu gwasanaeth ar gyfer pobl Caergybi ac Ynys Môn yn ei chyfanrwydd
- Ydw, mae'n rhaid i ni fod yn hollol siwr fod ein henoed yn derbyn y gofal gorau posibl
- Ydw, mae rhai cartrefi'n cael eu rhedeg yn wael
- Ydw, os yw'n cael ei redeg gan gwmni preifat a fedr ei reoleiddio
- Ydw, ni ddylai gael ei ddefnyddio i wneud y perchenogion yn gyfoethog iawn
- Ydw, rhaid i'r Cyngor barhau i'w redeg
- Ydw, oherwydd nid wyf am ei weld yn cael ei breifateiddio dim ond i eraill wneud arian
- Ydw, mae angen parhau i ofalu am y preswylwyr
- Ydw, oherwydd mae angen parchu'r Iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig
- Na, ar yr amod ei fod yn cael ei redeg yn dda
- Ydw, y Cyngor ar y cyd a GIC fel y mae wedi adeiladu mewn camau diogelu
- Na, cyn belled ei fod yn cael ei gadw ar agor ai redeg gan ofalwyr

- Na, aros yng nghofal y Cyngor
- Na, cyn belled ei fod i safonau AAA
- Ydw, mae'n berthyn i bobl leol sydd methu fforddio gofal preifat
- Safon uchel o dan berchnogaeth cyngor
- Cyn belled â bod safon uchel o ofal diogel yn cael ei ddarparu

**6. Which of the following do you think we should take into account when making our final decision? Please rate each of these from 0 to 5 (5 being the most important, 0 being the least important)**

| | Least important | | | | | Most important | Rating Average | Rating Count |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Continuity of services | 9.6% (5) | 19.2% (10) | 15.4% (8) | 3.8% (2) | 21.2% (11) | **30.8% (16)** | 3.00 | 52 |
| Value for money | 27.5% (14) | **29.4% (15)** | 15.7% (8) | 7.8% (4) | 7.8% (4) | 11.8% (6) | 1.75 | 51 |
| Quality of care | 1.9% (1) | 1.9% (1) | 7.4% (4) | 1.9% (1) | 13.0% (7) | **74.1% (40)** | 4.44 | 54 |
| Opinion of service users | 10.6% (5) | 21.3% (10) | 14.9% (7) | 14.9% (7) | **23.4% (11)** | 14.9% (7) | 2.64 | 47 |
| Using resources to offer more care for more people | **26.0% (13)** | 10.0% (5) | 10.0% (5) | 20.0% (10) | 22.0% (11) | 12.0% (6) | 2.38 | 50 |
| | | | | | | Other (please specify) | | 2 |
| | | | | | | | **answered question** | **55** |
| | | | | | | | **skipped question** | **0** |

- Gadewch i'r preswylwyr wneud mwy o benderfyniadau am fywyd o ddydd i ddydd yno

# Ymgynghori Lleol ar Garreglwyd
# Cyfarfod ag anghenion llety pobl hŷn yn awr ac yn y dyfodol

*Trosolwg o'r broses ymgynghori a ddilynwyd a'r adborth a dderbyniwyd*

**7. If the Council were to decide to sell Garreglwyd, how would this personally affect you and either your immediate family or the community your services represent?**

| | Response Percent | Response Count |
|---|---|---|
| Considerably | 34.5% | 19 |
| Some | 12.7% | 7 |
| Not much | 21.8% | 12 |
| Not at all | 30.9% | 17 |
| If you can please describe how, or give your reasons: | | 30 |
| answered question | | 55 |
| skipped question | | 0 |

- Dim o gwbl. Byddwn yn drist iawn petai'n cau, wedi gofalu am gymaint o bobl, adegau trist ac adegau da.
- Pa fyddaf i angen lle, ni fydd unman ar gael.
- Angen cyfleuster fel hyn yn ein cymuned.
- Angen gofal ysbaid ar gyfer yr henoed.
- A fyddai gofal ysbaid ar gael? Os ddim, byddai hynny'n cael effaith andwyol ar ein cymuned.
- Rwyf wedi archebu fy ngwely'n barod.
- Byddai ansicrwydd ynghylch ble y byddwn yn mynd.
- Dim yn siŵr am y dyfodol – efallai y byddaf ei angen rhyw ddiwrnod.
- Dim wedi cael unrhyw ymwneud â Garreglwyd.
- Fel y dywedwyd uchod a byddai'n gas gennyf golli'r gwasanaeth.
- Byddai colli'r gwasanaeth hwn yn cael effaith andwyol ar y gymuned.
- Oherwydd efallai y byddaf eisiau mynd yno am ofal ysbaid neu i wneud fy nghartref yno.
- Nid yw perthynas fy man (cyfneither) erioed wedi bod mor hapus ag y mae yn Garreglwyd er gwaethaf y ffaith nad yw'n gallu symud.
- Mae ein hetholaethau o fewn 'dalgylch' Garreglwyd.
- Rwyf angen gwybod fod gennyf gartref i fynd iddo pryd a phan y byddaf angen gofal yn fy nhref fy hun.
- Dim yn effeithio arnaf ar y funud ond efallai y bydd angen cyfleuster o'r fath arnaf yn y dyfodol.
- Dim yn gwybod digon i ffurfio barn.
- Mae fy chwaer yn byw yn Garreglwyd.
- Dim ar hyn o bryd.
- Yn sylweddol, petai angen gofal preswyl arnaf, byddwn yn mynd i Garreglwyd.
- Hoffwn feddwl y byddai fy nheulu yn agos pe byddai yn dioddef or salwch

- Mae fy mab yng nghyfraith yn dioddef o Dementia yn 59, mae ei fam yn 86 ac yn teithio o Langefni i'w weld.
- Ffrindiau a chymdogion yn gorfod ail gartrefu eu perthynasau.
- Ar lefel bersonol, dim llawer, ond fel gweithiwr proffesiynol lleol byddwn yn cael fy siomi os bysai cyfleuster safon uchel yn cau neu newid pwrpas
- Mae gan Meddygfa Victoria nifer fawr o gleifion yn cartref preswyl Garreglwyd a nifer fawr o gleifion sydd angen gwasanaethau'r sefydliad hwn.

**8. Having read the Consultation Document and Background Information, to what extent do you support the proposals for Garreglwyd?**

| | Response Percent | Response Count |
|---|---|---|
| Strongly support | 32.7% | 18 |
| Support | 25.5% | 14 |
| Neither support nor don't support | 7.3% | 4 |
| Do not support | 21.8% | 12 |
| Strongly do not support | 12.7% | 7 |
| | answered question | 55 |
| | skipped question | 0 |

**9. Do you have any other comments in relation to this current Consultation?**

| | | Response Count |
|---|---|---|
| | | 55 |
| | answered question | 55 |
| | skipped question | 0 |

- Mae eu cynghorwyr lleol yn anobeithiol, nid ydynt yn cefnogi'r trigolion a'r staff, fel gweddill y Cyngor, nid ydynt yn malio, byddwch chi'n hen un diwrnod ac angen help, gobeithio na fyddwch yn edrych yn ôl ac yn difaru nad ydych wedi trio'n galetach.
- Gobeithio eich bod yn gwrando ac yn cefnogi ein tref yn gryf mew perthynas â gofal yn y dyfodol
- Dylid bod wedi ymgynghori'n gynt.
- Cymerwch sylw os gwelwch yn dda o'r hyn sy'n cael ei ddweud am Garreglwyd
- Dylai rhywun fod wedi bod yn gwrando ers talwm
- Gobeithio eich bod yn gwrando ar yr hyn sydd gennym i'w ddweud

# Ymgynghori Lleol ar Garreglwyd
# Cyfarfod ag anghenion llety pobl hŷn yn awr ac yn y dyfodol

*Trosolwg o'r broses ymgynghori a ddilynwyd a'r adborth a dderbyniwyd*

- Gobeithio eich bod am edrych ar ein hôl ni, yr henoed. Rydym wedi gweithio'n galed ar hyd ein hoes ac yn haeddu cael cartref addas i ymddeol iddo.
- Gofalu am yr henoed (y peth pwysicaf).
- Mae angen gwasanaeth preswyl/ysbaid yn y gymuned.
- Anghytuno gyda'r bwriad i gau Garreglwyd fel cartref preswyl.
- Angen cadw cartref ar gyfer yr henoed yng Nghaergybi.
- Rydym yn ofni nad oes neb yn gwrando arnom. Pa arbedion ydych chi'n eu gwneud ac a yw'r rhain ar draul yr henoed.
- Dim ond yn cefnogi'n gryf oes ceir sicrwydd y bydd yn cael ei ddatblygu'n uned dementia/nyrsio arbenigol. Rwy'n dell na fedrir gwneud ymrwymiad o ran comisiynu, fodd bynnag, rwy'n credu y bydd rhaid i ofal iechyd a chymdeithasol yn y pen draw gomisiynu o'r math yma o gartref. Nid yw Gofal Ychwanegol am fod yn addas i bobl sydd â dementia dwys. Rwy'n awgrymu fod pawn sydd ar y bwrdd rhaglen a'r bwrdd prosiect yn ymweld â'r uned dementia St Tysilio, yn arbennig yr ystafelloedd dydd fel y gallant ddeall anghenion y bobl sy'n derbyn gofal oherwydd rwy'n credu y byddai rhai'n cael dipyn o sioc.
- Mae'r Cyngor Cymuned hwn yn cefnogi'r cynnig i Garreglwyd fod yn gyfleuster dementia arbenigol ond nid yw'n cefnogi'r cynnig i werthu'r adeilad.
- Oherwydd mae gan y Cyngor ddyletswydd o ofal am yr henoed. Rydym yn bryderus fod hyn yn digwydd. Mae gan Garreglwyd enw da am ofalu am yr henoed.
- Yn bryderus iawn fod Cyngor Sir Ynys Môn yn ceisio gwerthu Garreglwyd
- Byddai'n well gennym ei weld fel cartref dementia
- Hoffi gweld Garreglwyd yn aros fel y mae
- Cefnogi iddo gael ei werthu fel cartref dementia
- Yn sylweddoli fod rhaid gwneud newidiadau ond byddai'n well petai Garreglwyd yn aros fel y mae
- Dim yn hapus i werthu Garreglwyd ond yn gweld bod angen gwasanaethau dementia a nyrsio yn yr ardal
- Dim yn cefnogi cau unrhyw wasanaethau Cyngor
- Peidio a gwerthu Garreglwyd
- Rwy'n credu y dylai yr ymgynghoriad wedi bod yn ehangach ar draws yr holl gymunedau lleol gydag ymgysylltiad gan gynnwys pobl ifanc, 6ed dosbarth a Ysgolion Uwchradd. James Lee MBE
- Mae angen safon uchel barhaus o ofal preswyl

SarahETillman@anglesey.gov.uk

# Ymgynghori Lleol ar Garreglwyd
# Cyfarfod ag anghenion llety pobl hŷn yn awr ac yn y dyfodol

*Trosolwg o'r broses ymgynghori a ddilynwyd a'r adborth a dderbyniwyd*

**Atodiad 2 Atborth o'r Cymorthfeydd**

| **Dyddiad** | **Atborth** |
|---|---|
| 19/06/14 | Adroddiad ar y sesiwn hon i ddilyn. |
| 05/06/14 | Cafwyd cais am un holiadur ychwanegol i aelod o deulu a nodwyd dau berthynas agos er mwyn eu hysbysu. |
| 22/05/14 | Cadarnhaodd staff nad oeddynt eisiau Rheolwr Uned Ddarparu Môn yn bresennol yn eu hymgynghoriadau un i un ac o'r herwydd byddai Mrs Gwen Bennett yn ymuno. Codwyd cwestiynau ynghylch diswyddo TUPE ac ail-leoli gyda staff. Roedd perthynas un person sy'n defnyddio gofal ysbaid o bryd i'w gilydd o Swydd Derby yn canmol staff a'r awyrgylch yn y cartref ac yn teimlo ei fod yn ofnadwy bod y Cyngor yn ystyried cau'r cartref a'r modd y mae hyn yn cael ei wneud. |
| 15/05/14 | Nodwyd gan staff bod y wybodaeth a argraffwyd yn y Daily Post yn anghywir. Cafwyd cyfarfod gyda'r Rheolwraig Gynorthwyol Enid Wyn Hughes i drefnu sesiynau un i un ar gyfer staff a thrigolion. Roedd Enid yn teimlo rhyddhad mawr y bydd penderfyniad yn cael ei wneud yn fuan. Cafwyd sicrwydd ynglŷn â'r broses a fydd yn cael ei dilyn yn awr yn arbennig o ran holiaduron y trigolion. Roedd dau berthynas yn deall y sefyllfa gyfredol ond un yn pryderu rhag ofn i Garreglwyd ddod yn Gartref Nyrsio; nid oeddynt yn teimlo fod Penucheldre yn enghraifft dda o Ofal Ychwanegol oherwydd nad oes Model Gofal. Gofynnodd perthynas arall am gyfarfodydd i'r teuluoedd i gyd ond dywedwyd y byddai gwybodaeth gyfrinachol a sensitif yn cael ei thrafod yn y sesiynau un i un ac na fyddai hynny o'r herwydd yn briodol. Awgrymodd un perthynas hefyd y byddid yn "taflu allan 11 o neiniau i'r stryd", cadarnhawyd nad oes penderfyniad wedi ei wneud hyd yma ac y bydd y Cyngor Sir yn sicrhau y bydd parhad o ran gofal. Roedd 3 o ofalwyr eraill eisiau gwybodaeth ar ddiswyddo, TUPE ac adleoli. |

*SarahETillman@anglesey.gov.uk*

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MON | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Sgriwtini Corfforaethol Ffurfiol- 1 Gorffennaf 2014**<br>**Pwyllgor Gwaith – Gorffennaf 14 2014** |
| **Dyddiad:** | **23 Mehefin 2014** |
| **Pwnc:** | **Cyfarfod ag Anghenion Oedolion Hŷn – Dewisiadau llety Amlwch a Llangefni** |
| **Deilydd Portffolio** | **Cyng. K Hughes** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Alwyn Jones, Pennaeth Gwasanaethau Oedolion** |
| **Awdur Adroddiad:**<br>**Tel:**<br>**E-bost:** | **James Dawson**<br>**01248 752732**<br>**JamesDawson@anglesey.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | Aelodau Lleol Twrcelyn, Lligwy a Chanolbarth Môn |

**A –Argymhelliad/ion a Rheswm/rhesymau**

*(A fyddech mor garedig â nodi bod y cefndir llawn a chyfiawnhad dros yr argymhellion canlynol i'w gweld yn yr atodiadau yn Adran F isod.)*

Argymhellir er mwyn diwallu anghenion pobl hŷn yn well:

Y dylid datblygu Gofal Ychwanegol yn Amlwch a Llangefni ac ynghlwm â hyn, a fel rhan o ddatblygu darpariaeth addas i'r dyfodol, y dadgomisiynir y cartrefi gofal presennol yn y lleoedd hynny (Brwynog a Phlas Penlan) a bod swyddogion yn ymgymryd â'r gwaith angenrheidiol i gyflawni hynny yn amodol ar y canlynol:

- Efallai y bydd angen buddsoddiad gan y Cyngor, ar sail buddsoddi i arbed, o hyd at £3.5m (yn dibynnu ar y partneriaid adeiladu terfynol, modelau cyllido a ddefnyddir a thir fydd ar gael) a phe bai angen yr arian bydd rhaid penderfynu ar opsiynau priodol (a gwerth gorau) ar gyfer cyllido hyn a gyda chymeradwyaeth y Swyddog Adran 151. Fe allai'r rhain gynnwys, ond heb fod wedi eu cyfyngu i: benthyca mewn achosion lle gellir dangos bod yr arbedion ar ffurf arian refeniw y gellir ei ddefnyddio mewn meysydd eraill yn fwy ba gwerth y buddsoddiad cyfalaf; rhyddhau asedau corfforaethol eraill; asedau presennol yn cael eu defnyddio mewn ffyrdd newydd a datblygedig.
- Adnabyddir partneriaid datblygu trwy broses caffael gofynnol a fydd yn datblygu'r model adeiladu terfynol gyda Swyddogion y Cyngor;
- Bydd cysylltu â chymunedau lleol yn parhau a'r ymgynghori angenrheidiol yn digwydd;
- Cadarnheir safleoedd tir yn Amlwch a Llangefni trwy gytundeb Ased Corfforaethol;
- Swyddog Adran 151 yn cytuno ar y model cyllido terfynol i'w defnyddio gyda datblygwr a gymeradwyir;

- Cytunir ar y model o fewn Gwasanaethau Oedolion, a sicrwydd yn cael ei gynnig y gellir diwallu anghenion gofal a cynnal parhad gofal i'r preswylwyr presennol.

Bydd swyddogion yn adrodd ar gynnydd ac yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer rhyddhau safleoedd tir terfynol. Pe na bai partneriaid datblygu ar gyfer Gofal Ychwanegol yn cael eu hadnabod na modelau cyllido yn cael eu cytuno (neu rwystrau eraill i'r cynnydd a nodwyd) datblygir dewisiadau pellach ar sut y gweithredir gwasanaethau gan y Bwrdd Trawsffurfio.

Gyda lefelau gofyn uwch ar wasanaethau i bobl hŷn (rhagwelir cynnydd o dros 150% o rai dros 85 erbyn 2033), yn cynnwys darparu llety, disgwyliadau newydd ymhlith y boblogaeth hŷn ynglŷn â sut y derbyniant ofal a ble y dymunant fyw a chyllidebau llawer is, mae angen datblygu dulliau newydd o ddarparu gofal a llety i'n pobl hŷn. Nid yw modelau cyfredol yn gynaliadwy na deniadol.

Daw'r achos busnes hwn â thystiolaeth ynghyd i ddangos bod:

- Digon o angen a gofyn am ECH yn Amlwch a Llangefni, yn nhermau tueddiadau demograffaidd ac anghenion gofal;
- Mae ECH yn hybu ansawdd bywyd a chanlyniadau cadarnhaol i bobl hŷn o safbwynt eu hiechyd a diogelwch corfforol, annibyniaeth a lles cymdeithasol;
- Mae pobl hŷn sy'n byw ar hyn o bryd yn eu cartrefi eu hunain yn Amlwch a Llangefni yn awyddus iawn i barhau i fyw'n annibynnol (hynny yw gyda'u drws blaen eu hunain a hawliau tai) pe bai angen iddynt symud allan o'u cartrefi presennol. Mae'r mwyafrif yn argyhoeddiedig nad ydynt am fyw dan ofal preswyl;
- Mae nifer o arbedion ariannol:
    - Mae'n fwy cost effeithiol i'r Cyngor ddarparu gofal mewn sefydliad Gofal Ychwanegol na mewn Gofal Preswyl Preifat. Rhagamcenir y bydd yr arbedion hyn rhwng £139k a £156k y flwyddyn yn Amlwch, a rhwng £153k a £170k y flwyddyn yn Llangefni (mae'r ffigyrau yn ddibynnol ar y model o ddarparu gofal).
    - Osgoi cost - ceir arbedion pellach o beidio gorfod ariannu'r gost o ddod â'r cartrefi i fyny i safon dderbyniol. *Dros dair blynedd,* amcangyfrifir y ffigyrau fel: Brwynog £258k a Plas Penlan £389k.
- Byddai rhagor o arian cyfalaf wrth i'r cartrefi/safleoedd gael eu gwerthu
- Mae ECH fel arfer yn ddewis mwy apelgar yn ariannol ar gyfer pobl hŷn o'i gymharu â gofal preswyl; mae uchfaswm y cyfaniad ariannol am ofal o fewn ECH yn is na'r hyn a geir mewn gofal preswyl ac, yn ogystal, mae unigolyn hŷn sy'n byw mewn ECH â hawl i gael budd-dalaidau lles gan felly ennill incwm net wythnosol uwch fel arfer.
- Mae datblygu ECH yn Amlwch a Llangefni yn ariannol gynaliadwy i'r Cyngor.
- Nid yw'n ariannol a strategol gynaliadwy i'r Cyngor gomisiynu ECH yn Amlwch a

Llangefni **a** bod yn ddarparwr gofal preswyl yn yr ardaloedd hynny;

- Cafodd partneriaid posibl ar gyfer datblygu ECH yn Llangefni eu hadnabod; a'r Cyngor yn gweithio i ganfod partner neu bartneriaid yn Amlwch. Bydd hyn yn cynnwys edrych ar sawl dull y gellir darparu ECH yn y ddwy ardal.

Felly argymhellir hyn fel Tai Gofal Ychwanegol:

- Yn darparu gwell canlyniadau gofal i breswylwyr na'r rheiny sy'n byw mewn cartrefi preswyl (maent yn byw yn hŷn ac yn mwynhau gwell ansawdd bywyd);

- Yn cyflawni swyddogaeth allweddol fel canolbwynt y Ganolfan Gymunedol fyddai'n egnïo a chydlynu'r gymuned wrth ddarparu cefnogaeth i bobl hŷn;

- Yn fwy cost effeithiol yn diwallu anghenion y rhai sy'n byw yno na gofal preswyl; byddai'n lleihau costau diwallu anghenion ac yn osgoi costau dros y tymor hir;

- Nid Gofal Preswyl yn Amlwch na Llangefni yw'r ateb gorau i ddiwallu anghenion tymor hir pobl hŷn ac mae'n fodel ddarpariaeth ddrud.

| **B – Pa ddewisiadau eraill a ystyriwyd gennych a pham y gwrthodwyd hwy a/neu gymryd y dewis hwn?** |
|---|
| Ystyriodd y Bwrdd Gofal Cymdeithasol Oedolion Hŷn nifer o ddewisiadau ar gyfer dyfodol llety yn yr ardaloedd hyn y cafwyd adroddiadau arnynt yn Rhagfyr 2013 a Ionawr 2014, ac ar sail gofal gwell a gwerth am arian cydnabuwyd mai gofal ychwanegol yw'r ffordd orau i symud ymlaen. Cefnogwyd hyn gan y Bwrdd Rhagoriaeth Gwasanaeth. |

| **C – Pam bod hyn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| O'r cychwyn mae hwn yn fater ag angen cefnogaeth weithredol gan fod a wnelo hyn â newidiadau posibl i asedau corfforaethol ac er mwyn cefnogi gweithredu cyson wrth ymwneud â phreswylwyr, eu teuluoedd ac yn wir darpar fuddsoddwyr mewn gofal cymdeithasol.<br><br>Hefyd mae'n nodi anghenraid posibl am fuddsoddiad "buddsoddi i arbed" tebygol<br><br>Mae'r penderfyniad yn bwysig o safbwynt ei effaith ar breswylwyr unigol a'u teuluoedd a chyfeiriad strategol gofal oedolion i'r dyfodol.<br><br>Bydd gweithrediadau'r awdurdod yn destun craffu gan reoleiddwyr a chyrff statudol ac, yn ychwanegol, mae'r mater yn debygol o ddenu sylw'r cyfryngau. |

| CH – Ydy’r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Mae’r awdurdod wedi nodi’i ymrwymiad i ddarparu’r gwasanaethau gorau posibl, yn unol ag angen a adnabuwyd, gyda’r adnoddau sydd ar gael. Mae’r cynnig hwn yn gyson â’r egwyddor hon. |

| D – Ydy’r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Efallai y bydd angen buddsoddiad gan y Cyngor, ar sail buddsoddi i arbed, o hyd at £3.5m (yn dibynnu ar y partneriaid adeiladu terfynol, modelau cyllido a ddefnyddir a thir fydd ar gael) a phe bai angen yr arian bydd rhaid penderfynu ar opsiynau priodol (a gwerth gorau) ar gyfer cyllido hyn a gyda chymeradwyaeth y Swyddog Adran 151. Fe allai'r rhain gynnwys, ond heb fod wedi eu cyfyngu i: benthyca mewn achosion lle gellir dangos bod yr arbedion ar ffurf arian refeniw y gellir ei ddefnyddio mewn meysydd eraill yn fwy ba gwerth y buddsoddiad cyfalaf; rhyddhau asedau corfforaethol eraill; asedau presennol yn cael eu defnyddio mewn ffyrdd newydd a datblygedig. |

| DD – Gyda pwy wnaethoch chi ymgynghori? Beth oedd eu hateb? | | |
|---|---|---|
| 1 | **Prif weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth Strategol (TAS)** (gorfodol) | Mae hyn ar agenda TAS ar 7 Gorffennaf. |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (gorfodol) | Wedi cadarnhau’r data ariannol perthnasol yn y ddogfen (heblaw am yr hyn a ddarperir gan eiddo mewn perthynas â gwerth safleoedd ac yn y blaen). Mae cyllid wedi bod ynghlwm â datblygu’r achos Busnes ac yn cytuno a’i gynigion. |
| 3 | **Swyddog Cyfreithiol / Monitro** (gorfodol) | Mae swyddogion wedi diweddaru gwybodaeth i’r Gwasanaethau Cyfreithiol ac yn ôl yr angen wedi ceisio cyngor cyfreithiol perthnasol, arbenigol. |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | Wedi ymgynghori ar effeithiau ar staff yn cynnwys unrhyw TUPE ac AD yn dal i wneud, ac AD ar hyn o bryd yn ystyried yr achos busnes a byddant yn gweithio gyda swyddogion ar faterion perthnasol. |
| 5 | **Eiddo** | Wedi bod yn asesu cost safle, clirio ac yn y blaen, ac wedi cadarnhau eu swyddogaeth arweiniol mewn gwerthu/ cael gwared ag unrhyw safle/eiddo. |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGC)** | Dim ymgynghoriad |
| 7 | **Craffu** | Mynd i Bwyllgor Craffu ar 1 Gorffennaf. |
| 8 | **Aelodau Lleol:** | Holl aelodau lleol o Twrcelyn, Lligwy a Canolbarth Mon wedi eu gwahodd i’r cyfarfodydd briffio. Ymateb cadarnhaol i |

| | | |
|---|---|---|
| | | ddatblygu Gofal Ychwanegol. |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol / eraill** | RSLau<br>Heneiddio'n dda<br>Cynghorau Cymuned a Thref<br><br>Cytundeb eang ar gyfeiriad teithio a newid i fodel gofal ychwanegol |

| **E – Risgiau ac unrhyw liniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrth-dlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cyfartaleddau** | Ymgymerir ag Asesiadau Effaith Cyfartaledd yn ôl y gofyn yn achos penderfyniadau i symud ymlaen. |
| 6 | **Cytundebau Canlyniad** | |
| 7 | **Arall** | |

| **F – Atodiadau:** |
|---|
| Achos Busnes<br>Model Ariannol |

**Basic Numbers**

| | | | |
|---|---|---|---|
| How many new units at the scheme? | | 48 | |
| How many will be used for IoACC clients? | | 36 | |
| Annual cost of core service (support) | £ | 35,992.32 | (£14.42 per unit per week) |
| Annual cost of core service (night care) Sleep-in | £ | 25,480.00 | |
| Percentage clients diverted or transferred from Residential Care | | 70.00% | 25 clients |
| Percentage clients diverted or transferred from Domiciliary Care | | 30.00% | 11 clients |
| | | 100.00% | 36 |
| Hourly rate for care in Extra Care Scheme(s) | | 13.05 | |

**Savings for Residential clients**

| | | £ | |
|---|---|---|---|
| Average OP Residential Rate (Net of client contribution of £120) | | 333.00 | per week |
| For Extra Care, assume 17.5 hours per week at | 13.05 = | 173.38 | per week |
| Saving per week per client | | 159.63 | |
| 25 clients weekly saving: | | 3,990.63 | |
| 25 clients annual saving: | | 207,512.50 | |

**Savings for Domiciliary clients**

| | £ | |
|---|---|---|
| Current average OP Domiciliary rate (per hour) | 14.50 | per week |

Projected Distribution of these clients across Extra Care Bands:

| | |
|---|---|
| Band 1 | 20.00% |
| Band 2 | 30.00% |
| Band 3 | 50.00% |
| | 100.00% |


**Like-for-like hours saving Domiciliary Care vs. Extra care**

| Band | Hours of Care per week | Average Hours per week | Number of Clients | Total Number of Weekly Dom Hours | Cost of hours at Av. Dom Rate (£) | Cost of hours at Ex. Care rate (£) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Band 1 | 0-7 | 3.5 | 2 | 7 | 101.50 | 91.35 |
| Band 2 | 7-14 | 10.5 | 3 | 31.5 | 456.75 | 411.08 |
| Band 3 | 15+ | 17 | 6 | 102 | 1,479.00 | 1,331.10 |
| | | | **11** | **140.5** | **2,037.25** | **1,833.53** |

| | |
|---|---|
| Weekly cost of Dom Care for these clients (£) | 2,037.25 |
| Weekly cost of Ex. Care for these clients (£) | 1,833.53 |
| Weekly saving (£) | **203.73** |
| Annual Saving for clients diverted or transferred from Domiciliary (£) | **10,593.70** |

**Total Saving Calculation**

| | £ |
|---|---|
| Annual Cost of Core Service (support) | -35,992.32 |
| Annual Cost of Core Service (night cover) | -25,480.00 |
| Annual saving from Residential Clients | 207,512.50 |
| Annual saving from Domiciliary Clients | 10,593.70 |
| **Total estimated annual saving** | **156,633.88** |


Waking Ni
Sleep-in


42751
25480

**Basic Numbers**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| How many new units at the scheme? | | | 48 | |
| How many will be used for IoACC clients? | | | 36 | |
| Annual cost of core service (support) | | £ | 35,992.32 | (£14.42 per unit per week) |
| Annual cost of core service (night care) | Waking Night | £ | 42,751.00 | |
| Percentage clients diverted or transferred from Residential Care | | | 70.00% | 25 clients |
| Percentage clients diverted or transferred from Domiciliary Care | | | 30.00% | 11 clients |
| | | | 100.00% | 36 |
| Hourly rate for care in Extra Care Scheme(s) | | | 13.05 | |

**Savings for Residential clients**

| | | | £ | |
|---|---|---|---|---|
| Average OP Residential Rate (Net of client contribution of £120) | | | 333.00 | per week |
| For Extra Care, assume | 17.5 hours per week at | 13.05 = | 173.38 | per week |
| Saving per week per client | | | 159.63 | |
| 25 clients weekly saving: | | | 3,990.63 | |
| 25 clients annual saving: | | | 207,512.50 | |

**Savings for Domiciliary clients**

| | £ | |
|---|---|---|
| Current average OP Domiciliary rate (per hour) | 14.50 | per week |

Projected Distribution of these clients across Extra Care Bands:

| | |
|---|---|
| Band 1 | 20.00% |
| Band 2 | 30.00% |
| Band 3 | 50.00% |
| | 100.00% |


**Like-for-like hours saving Domiciliary Care vs. Extra care**

| Band | Hours of Care per week | Average Hours per week | Number of Clients | Total Number of Weekly Dom Hours | Cost of hours at Av. Dom Rate (£) | Cost of hours at Ex. Care rate (£) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Band 1 | 0-7 | 3.5 | 2 | 7 | 101.50 | 91.35 |
| Band 2 | 7-14 | 10.5 | 3 | 31.5 | 456.75 | 411.08 |
| Band 3 | 15+ | 17 | 6 | 102 | 1,479.00 | 1,331.10 |
| | | | **11** | **140.5** | **2,037.25** | **1,833.53** |

| | |
|---|---|
| Weekly cost of Dom Care for these clients (£) | 2,037.25 |
| Weekly cost of Ex. Care for these clients (£) | 1,833.53 |
| Weekly saving (£) | **203.73** |
| Annual Saving for clients diverted or transferred from Domiciliary (£) | **10,593.70** |

**Total Saving Calculation**

| | £ |
|---|---|
| Annual Cost of Core Service (support) | -35,992.32 |
| Annual Cost of Core Service (night cover) | -42,751.00 |
| Annual saving from Residential Clients | 207,512.50 |
| Annual saving from Domiciliary Clients | 10,593.70 |
| **Total estimated annual saving** | **139,362.88** |


Waking
Sleep-in


42751
25480

**Basic Numbers**

| | | | |
|---|---|---|---|
| How many new units at the scheme? | | 60 | |
| How many will be used for IoACC clients? | | 45 | |
| Annual cost of core service (support) | | £ 44,990.40 | (£14.42 per unit per week) |
| Annual cost of core service (night care) | Sleep-in | £ 25,480.00 | |
| Percentage clients diverted or transferred from Residential Care | | 60.00% | 27 clients |
| Percentage clients diverted or transferred from Domiciliary Care | | 40.00% | 18 clients |
| | | 100.00% | 45 |
| Hourly rate for care in Extra Care Scheme(s) | | 13.05 | |

**Savings for Residential clients**

| | | | £ | |
|---|---|---|---|---|
| Average OP Residential Rate (Net of client contribution of £120) | | | 333.00 | per week |
| For Extra Care, assume | 17.5 hours per week at | 13.05 = | 173.38 | per week |
| Saving per week per client | | | 159.63 | |
| 27 clients weekly saving: | | | 4,309.88 | |
| 27 clients annual saving: | | | 224,113.50 | |

**Savings for Domiciliary clients**

| | £ | |
|---|---|---|
| Current average OP Domiciliary rate (per hour) | 14.50 | per week |

Projected Distribution of these clients across Extra Care Bands:

| | |
|---|---|
| Band 1 | 20.00% |
| Band 2 | 30.00% |
| Band 3 | 50.00% |
| | 100.00% |


**Like-for-like hours saving Domiciliary Care vs. Extra care**

| Band | Hours of Care per week | Average Hours per week | Number of Clients | Total Number of Weekly Dom Hours | Cost of hours at Av. Dom Rate (£) | Cost of hours at Ex. Care rate (£) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Band 1 | 0-7 | 3.5 | 4 | 14 | 203.00 | 182.70 |
| Band 2 | 7-14 | 10.5 | 5 | 52.5 | 761.25 | 685.13 |
| Band 3 | 15+ | 17 | 9 | 153 | 2,218.50 | 1,996.65 |
| | | | **18** | **219.5** | **3,182.75** | **2,864.48** |

| | |
|---|---|
| Weekly cost of Dom Care for these clients (£) | 3,182.75 |
| Weekly cost of Ex. Care for these clients (£) | 2,864.48 |
| Weekly saving (£) | **318.28** |
| Annual Saving for clients diverted or transferred from Domiciliary (£) | **16,550.30** |

**Total Saving Calculation**

| | £ |
|---|---|
| Annual Cost of Core Service (support) | -44,990.40 |
| Annual Cost of Core Service (night cover) | -25,480.00 |
| Annual saving from Residential Clients | 224,113.50 |
| Annual saving from Domiciliary Clients | 16,550.30 |
| **Total estimated annual saving** | **170,193.40** |


Waking Ni
Sleep-in


42751
25480

**Basic Numbers**

| | | | |
|---|---|---|---|
| How many new units at the scheme? | | 60 | |
| How many will be used for IoACC clients? | | 45 | |
| Annual cost of core service (support) | £ | 44,990.40 | (£14.42 per unit per week) |
| Annual cost of core service (night care) — Waking Night | £ | 42,751.00 | |
| Percentage clients diverted or transferred from Residential Care | | 60.00% | 27 clients |
| Percentage clients diverted or transferred from Domiciliary Care | | 40.00% | 18 clients |
| | | 100.00% | 45 |
| Hourly rate for care in Extra Care Scheme(s) | | 13.05 | |

**Savings for Residential clients**

| | £ | |
|---|---|---|
| Average OP Residential Rate (Net of client contribution of £120) | 333.00 | per week |
| For Extra Care, assume 17.5 hours per week at 13.05 = | 173.38 | per week |
| Saving per week per client | 159.63 | |
| 27 clients weekly saving: | 4,309.88 | |
| 27 clients annual saving: | 224,113.50 | |

**Savings for Domiciliary clients**

| | £ | |
|---|---|---|
| Current average OP Domiciliary rate (per hour) | 14.50 | per week |

Projected Distribution of these clients across Extra Care Bands:

| | |
|---|---|
| Band 1 | 20.00% |
| Band 2 | 30.00% |
| Band 3 | 50.00% |
| | 100.00% |


**Like-for-like hours saving Domiciliary Care vs. Extra care**

| Band | Hours of Care per week | Average Hours per week | Number of Clients | Total Number of Weekly Dom Hours | Cost of hours at Av. Dom Rate (£) | Cost of hours at Ex. Care rate (£) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Band 1 | 0-7 | 3.5 | 4 | 14 | 203.00 | 182.70 |
| Band 2 | 7-14 | 10.5 | 5 | 52.5 | 761.25 | 685.13 |
| Band 3 | 15+ | 17 | 9 | 153 | 2,218.50 | 1,996.65 |
| | | | **18** | **219.5** | **3,182.75** | **2,864.48** |

| | |
|---|---|
| Weekly cost of Dom Care for these clients (£) | 3,182.75 |
| Weekly cost of Ex. Care for these clients (£) | 2,864.48 |
| Weekly saving (£) | **318.28** |
| Annual Saving for clients diverted or transferred from Domiciliary (£) | **16,550.30** |

**Total Saving Calculation**

| | £ |
|---|---|
| Annual Cost of Core Service (support) | -44,990.40 |
| Annual Cost of Core Service (night cover) | -42,751.00 |
| Annual saving from Residential Clients | 224,113.50 |
| Annual saving from Domiciliary Clients | 16,550.30 |
| **Total estimated annual saving** | **152,922.40** |


Waking Ni
Sleep-in


42751
25480

This page is intentionally left blank

| | |
|---|---|
| **TEITL** | Achos Busnes Tai Gofal Ychwanegol (ECH). Cyngor Sir Ynys Môn (CSYM) |
| **ADRAN/NAU** | Cyflwyniad<br><br>Achos Strategol<br><br>Achos Economaidd<br><br>Achos Ariannol<br><br>Achos Masnachol<br><br>Achos Rheoli<br><br>Crynodeb |
| **FERSIWN** | Terfynol |
| **DYDDIAD** | 23ain Mehefin 2014 |

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| | Crynodeb Gweithredol | 3 |
| 1 | **Cyflwyniad** | 7 |
| 1.1 | Gweledigaeth ar gyfer Gofal Cymdeithasol i Oedolion | 7 |
| 1.2 | ECH: Diffiniad | 8 |
| 1.3 | Strwythur yr Achos Busnes | 9 |
| 2 | **Yr Achos Strategol** | 10 |
| 2.1 | Cyd-destun: Ynys Môn 2013-2033 | 12 |
| 2.2 | Alaw: Ardal Amlwch | 17 |
| 2.3 | Cefni: Ardal Llangefni | 23 |
| 2.4 | Persbectif Staff Gofal Cymdeithasol Gweithredol CSYM | 28 |
| 3 | **Yr Achos Economaidd** | 33 |
| 3.1 | ECH: Tystiolaeth o ganlyniadau gwell ar gyfer pobl hŷn | 34 |
| 3.2 | ECH: Tystiolaeth o fod yn gost effeithiol | 34 |
| 3.3 | ECH: Buddion Economaidd Ehangach | 35 |
| 3.4 | Crynodeb | 36 |
| 4 | **Achos Ariannol** | 37 |
| 4.1 | ECH Model Gwasanaeth a Chostau | 38 |
| 4.2 | ECH Model Ariannol ac Arbedion | 44 |
| 4.3 | Crynodeb a Goblygiadau | 48 |
| 4.4 | ECH: Cyllid Cyfalaf | 50 |
| 5 | **Yr Achos Masnachol** | 51 |
| 5.1 | Y Galw am ECH: Barnau Pobl Hŷn | 51 |
| 5.2 | Datblygu ECH: Llanlordiaid Cymeithasol Cofrestredig | 54 |
| 6 | **Yr Achos Rheoli** | 58 |
| 6.1 | Fframwaith Comisiynu: Tai, llety a chefnogaeth gysylltiedig ar gyfer pobl hŷn | 58 |
| 6.2 | Trefniadau comisiynu ar gyfer: ECH Dewisiadau o ran Comisiynu | 61 |
| 6.3 | ECH: Manyleb | 65 |
| 6.4 | Ystyriaethau o ran Caffael | 65 |
| 6.5 | Yr Ymagwedd Arfaethedig | 66 |
| 7 | **Crynodeb o Dystiolaeth** | 67 |
| | Atodiad 1 | 69 |
| | Atodiad 2 | 71 |
| | Cyfeiriadau | 71 |

# Crynodeb Gweithredol

## Cyflwyniad

Yn unol â'r dyheadau sy'n newid ar gyfer pobl hŷn, bydd y sylw o ran gofal a chefnogaeth ar Ynys Môn ar alluogi unigolion i aros yn eu cartrefi, gyda chymaint â phosibl o reolaeth ar bethau a chyfleoedd i chwarae rhan yn eu cymuned am gymaint â phosibl. Nid yw cynnal cartrefi preswyl traddodiadol yn gynaliadwy ac nid yw hyn yn diwallu anghenion ein dinasyddion hŷn.Pwrpas yr achos busnes hwn yw archwilio ac asesu'r angen am dai gofal ychwanegol (ECH) yn Amlwch a Llangefni ynghyd â hyfywedd ariannol hyn, gan gynnwys bod yn opsiwn arall yn lle defnyddio gofal preswyl, ac ochr yn ochr â datblygu asedau eraill fel Tai Gwarchod.Nid oes gan ECH ddiffiniad statudol ac fe geir sawl model gwahanol. Dyma'r prif nodweddion:

- Llety hunangynhwysol a hygyrch (mae gan breswylwyr hawliau tai fel tenantiaid a/neu lesddeiliaid);
- Gofal a chefnogaeth 24/7 ar gael gyda system larwm; darparir pecynnau gofal a chefnogaeth unigol yn ôl y gofyn; a
- Mynediad i gyfleusterau cymunol, prydau a gweithgareddau cymdeithasol

Mae'r achos busnes yn dilyn 'model pum achos' Llywodraeth Cymru, gan ystyried yr achosion strategol, economaidd, masnachol, ariannol a rheolaeth yn eu tro.

**Yr Achos Strategol**

Mae'r achos strategol yn archwilio'r dystiolaeth o'r angen posibl am ECH yn ardaloedd Amlwch a Llangefni, yn enwedig fel dewis arall yn lle defnyddio gofal preswyl.

*Mae rhagolygon ar gyfer dalgylchoedd Amlwch a Llangefni yn awgrymu:*

- Bydd cynnydd o 84% yn y boblogaeth dros 75 oed yn o 2013 i 2033;
- Yn Amlwch, mae angen am 34-41 o unedau o dai gofal ychwanegol (gan gynnwys 4-5 uned ar gyfer dementia) yn 2013, sy'n cynyddu i 62-75 uned (gan gynnwys 7-9 ar gyfer dementia) yn 2033;
- Yn Llangefni, mae angen 80 uned o dai gofal ychwanegol (gan gynnwys 9 uned ar gyfer dementia) yn 2013, sy'n cynyddu i 143 uned (gan gynnwys 17 ar gyfer dementia) yn 2033;
- Bydd nifer y cleientiaid gofal cartref yn dwblu (gan dybio meini prawf cymhwysedd presennol) o 2013 i 2033.

*Mae data darpariaeth gwasanaeth gofal cymdeithasol yn dangos:*

- Ym Mawrth 2014, roedd 42 o breswylwyr Alaw a 32 o breswylwyr Cefni, oedd yn 65 oed a throsodd, mewn gofal preswyl.
- Roedd tua thri chwarter y preswylwyr hyn yn cael eu hariannu gan CSYM; gyda'r gweddill yn ariannu eu hunain.
- Yn 2013/14, roedd 88 o breswylwyr Amlwch a 108 o breswylwyr Cefni yn derbyn gofal cartref.
- Roedd y mwyafrif helaeth (81% yn Amlwch a 87% yng Nghefni) naill ai'n berchen-feddiannwyr neu'n denantiaid preifat.

Mae nifer y lleoliadau gofal preswyl a'r pecynnau gofal cartref yn 2013/14 yn Amlwch a Llangefni tu hwnt i'r galw rhagamcanol am ECH yn y ddwy ardal hyn; sy'n awgrymu bod

digon o angen am ofal i gynnal datblygiad ECH yn y ddwy ohonynt. Byddai'r rhain yn cymryd lle cartrefi gofal preswyl a berchnogir gan y Cyngor ar hyn o bryd ac yn gweithio ochr yn ochr â datblygiad datblygiadau eraill o'r ddau ased presennol, fel Tai Gwarchod, a mentrau newydd fel Hybiau Cymunedol.

*Persbectifau Staff Gofal Cymdeithasol Gweithredol CSYM*

Er mwyn deall o dan ba amgylchiadau y gallai ECH ddarparu dewis hyfyw arall i ofal preswyl yn Amlwch a Llangefni, gofynnwyd i staff proffesiynol rheng flaen o fewn gofal cymdeithasol ac iechyd i nodi'r trothwyon allweddol ar gyfer rhoi rhywun hŷn mewn gofal preswyl ar hyn o bryd.

- Pobl sydd angen cymorth i fynd i'r toiled neu eu trosglwyddo ar adegau na ellir eu rhagweld/dros nos
- Methiant o ran rhywun i ofalu am unigolyn/pryder teuluoedd am y risgiau o ran eu perthynas yn byw ar eu pennau eu hunain
- Risgiau i'r unigolyn ei hun yn ogystal ag eraill o ganlyniad i ddementia

Mae'r dystiolaeth yn awgrymu y gall ECH gefnogi cyplau i barhau i fyw gyda'i gilydd ac i ofalu am ei gilydd yn ddiogel ac mewn modd cynaliadwy, ac y gall roi heddwch meddwl i berthnasau eraill tra'n eu galluogi i barhau i ddarparu rhywfaint o ofal a chefnogaeth yn barhaus.

Er mwyn iddo weithredu fel dewis hyfyw arall i'r rheiny a chanddynt ddementia a/neu anghenion na ellir eu rhagweld, rhaid i unrhyw gynllun ECH yn Amlwch neu Langefni gynnig gofal a chefnogaeth 24/7 ynghyd ag arbenigedd/dyluniad hygyrch i gefnogi pobl a chanddynt ddementia.

**Yr Achos Economaidd**

Mae'r Achos Economaidd yn ystyried p'un a all ECH ddarparu canlyniadau gwell i bobl hŷn ynghyd â gwell gwerth am arian o gymharu ag opsiynau gofal eraill.

Roedd gwerthusiad diweddar o ECH ar gyfer y Rhwydwaith Dysgu a Gwella Tai wedi canfod:

- Bod tai gofal ychwanegol yn fodel ataliol, sy'n cefnogi annibyniaeth ac yn fodd o osgoi derbyniadau i ofal preswyl;
- Mae tai gofal ychwanegol yn fodel mwy cost effeithiol o gyflenwi gofal na modelau eraill gan gynnwys gofal preswyl a gofal yn y gymuned. Roedd y gwerthusiad yn nodi, ar gyfartaledd, bod cost ECH yn hanner cost gros y lleoliadau eraill.

Mae'r dystiolaeth ar ECH yn awgrymu y gall pobl hŷn brofi canlyniadau cadarnhaol mewn perthynas â:

- Gallu gweithredol;
- Lles cymdeithasol;
- Amgylchedd ffisegol, gan gynnwys hygyrchedd, diogelwch; a
- Hyrwyddo annibyniaeth a theimlo eu bod mewn rheolaeth o'u sefyllfa.

Yn ogystal, gall ECH greu buddion economaidd ehangach, er enghraifft: drwy leihau'r defnydd o ysbytai; rhyddhau tai i deuluoedd; creu hyb ar gyfer y gymuned leol; a hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer cyflogaeth a mentrau lleol.

**Yr Achos Ariannol**

Mae'r Achos Ariannol yn egluro'r model gwasanaeth ECH a'r costau, ac yn cynnig model ariannol ac arbedion ar gyfer ECH.

Mae ECH yn cynnig y posibiliadau ar gyfer arbedion ac effeithlonrwydd ariannol:

- Mae'n fwy cost effeithiol i'r Cyngor ddarparu gofal mewn lleoliad ECH yn hytrach nag mewn Gofal Preswyl. Rhagamcanir y bydd yr arbedion ariannol yn rhwng £139,362 a £156,333 y flwyddyn yn Amlwch, a rhwng £152,922 a £170,193 y flwyddyn yn Llangefni (mae'r ffigyrau'n dibynnu ar y model cyflenwi gofal);
- Osgoi costau: gwneir arbedion pellach yn sgil peidio gorfod ariannu'r gost o ddod â chartrefi preswyl y Cyngor i fyny i safon dderbyniol. Dros dair blynedd, amcangyfrifir y ffigyrau hyn fel: Brwynog £257,946 a Phlas Penlan £388,983;
- Yn ogystal, byddai derbyniadau cyfalaf ychwanegol pe bai'r cartrefi/safleoedd yn cael eu gwerthu.

Mae datblygu ECH yn Amlwch a Llangefni yn gynaliadwy yn ariannol i'r Cyngor, nid yw'n gynaliadwy, yn ariannol ac yn strategol, i'r Cyngor gomisiynu ECH yn Amlwch a Llangefni **ac** i fod yn ddarparwr gofal preswyl yn yr ardaloedd hyn.

Mae ECH fel arfer yn opsiwn deniadol yn ariannol ar gyfer pobl hŷn o gymharu â gofal preswyl; mae'r cyfraniad ariannol uchaf ar gyfer gofal o fewn ECH yn is na hynny o fewn gofal preswyl ac, yn ogystal, mae gan rywun hŷn sy'n byw mewn ECH yr hawl i'r ystod lawn o fudd-daliadau lles felly bydd ganddynt fel arfer incwm wythnosol net uwch.

**Yr Achos Masnachol**

Mae'r achos Masnachol yn asesu hyfywedd ECH yn Amlwch a Llangefni yn seiliedig ar farnau pobl hŷn a darparwyr ECH posibl.

Buom yn siarad â 3 grŵp o bobl hŷn yn Amlwch a Llangefni a dadansoddwyd y 212 ymateb arolwg *Dweud eich Dweud'* CSYM o bobl sy'n byw yn nalgylch Amlwch:

- Nid oedd pobl hŷn oedd wedi rhoi eu barnau eisiau byw mewn cartref gofal preswyl.
- Mae pobl hŷn yn rhoi gwerth uchel iawn i gynnal eu hannibyniaeth.
- Gall yr opsiwn i symud i gartref llai, sy'n haws ei reoli, sy'n hygyrch ac wedi'i leoli'n gyfleus, fel ECH, brofi i fod yn ddeniadol i nifer sylweddol o bobl.

Cawsom gyfarfod gyda thair cymdeithas dai: mae pob un ohonynt yn ystyried bod Ynys Môn yn lleoliad addas ar gyfer datblygiad ECH, fodd bynnag, tra bod ganddynt ddiddordeb mewn datblygu ECH yn Llangefni, nid yw yr un ohonynt ar hyn o bryd wedi ymrwymo i ddatblygu ECH yn Amlwch.

**Yr Achos Rheoli**

Mae'r Achos Rheoli yn nodi'r ystyriaethau o ran comisiynu a chaffael ynghyd ag opsiynau ar gyfer datblygu ECH yn Amlwch a Llangefni.

Mae ystyriaethau allweddol mewn perthynas â chomisiynu ECH yn cynnwys:

- Yr angen i ECH ddarparu dewis hyfyw arall yn lle'r defnydd o ofal preswyl;
- Yr angen i gyflawni arbedion ac effeithiolrwydd ariannol ar gyfer y Cyngor;

- Yr angen i ddenu Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig neu gyrff sefydliadau eraill i ystyried datblygu ECH ym Môn;
- Yr angen i ystyried nid yn unig sut y gellir defnyddio asedau eraill y Cyngor (gan gynnwys Tai Gwarchod), ond hefyd i fod yn greadigol o ran sut y gellir datblygu'r holl asedau a gwasanaethau sydd ar gael mewn modd cydlynus a strategol i sicrhau y caiff anghenion eu diwallu;
- Pwysigrwydd osgoi'r 'model' comisiynu a fabwysiadwyd ym Mhenucheldre.

Dylai 'gwasanaeth craidd' integredig, sy'n cynnwys cefnogaeth 24/7 ar y safle ynghyd â staff i roi gofal dros nos, ynghyd â phecynnau ychwanegol personol o ofal cartref fel y bo angen alluogi cynllun ECH i weithredu fel dewis effeithiol (ac yn rhatach yn gyffredinol) yn lle gofal preswyl.

Bydd y Cyngor yn gweithio o fewn y canllawiau caffael priodol i sicrhau y cyflawnir gwerth gorau a bod y drefn briodol yn cael ei dilyn.

# 1. Cyflwyniad

## 1.1. Gweledigaeth ar gyfer Gofal Cymdeithasol i Oedolion

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer gofalu am bobl hŷn ar Ynys Môn yn newid a bydd hynny'n parhau am beth amser eto. Er bod ysgogiad economaidd yn hyn o beth, mae'n bwysig cydnabod mai un o'r pethau mwyaf arwyddocaol sy'n sbarduno newid yw'r hyn sy'n ddisgwyliedig gan bobl hŷn (gan gynnwys y rhai nad ydynt eto'n "hen") o ran gofal wrth iddynt fynd yn hŷn ac angen peth cymorth. Y neges glir i Ynys Môn, yng Nghymru, y DU, Ewrop a'r byd i gyd, yw bod pobl yn dymuno aros yn eu cartrefi, gan aros yn eu cymunedau a'u cefnogi ganddynt (a gall hyn gwmpasu ystod eang o ddiffiniadau cymdeithasol, economaidd, gwleidyddol a daearyddol) a chynnig cymaint o reolaeth a dewis ag sy'n bosib.

Mae'n amlwg hefyd bod modelau gofal sydd wedi bod ar waith ers peth amser ac sydd wedi rhoi gwasanaeth da i lawer, megis cartrefi preswyl, ac sydd bellach yn llai apelgar i ddefnyddwyr arfaethedig o'r gwasanaethau nac yn economaidd hyfyw. Ymhellach, maent wedi eu disodli gan fodelau amgenach sy'n cynnig gwell canlyniadau o safbwynt gofal a safon byw. Mewn Tai Gofal Ychwanegol er enghraifft, dengys tystiolaeth bod y bobl sydd yn byw yno yn byw bywydau hirach ac yn mwynhau gwell safon byw na'r rhai mewn gofal preswyl. Mae ymgynghori lleol yn cefnogi'r newid hwn at ddarpariaeth o Ofal Ychwanegol i ffwrdd o'r cartrefi gofal preswyl traddodiadol.

Mae Ynys Môn eisoes wedi gwneud rhai newidiadau. Mae wedi cyflwyno model o "Ail-alluogi" sy'n cynnig ymyrraeth ddwys mewn achosion o argyfwng mewn gofal sy'n galluogi defnyddiwr y gwasanaeth i barhau i fyw heb ddibynnu ar lefelau o ofal gan lwyddo i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain. Rydym yn datblygu modelau o gyd-gynhyrchu gyda chymunedau i weld beth ellir ei ddarparu y tu hwnt/law yn llaw â gwasanaethau sydd yn perthyn i'r Cyngor neu a redir ganddo, gan weithio i ddatblygu modelau o "Ganolbwynt Cymunedol" a gweithio gyda chwmnïau lleol preifat a'r trydydd sector a sefydliadau i hybu a chefnogi'r ddarpariaeth o wasanaethau fel gofal cartref neu brydau bwyd yn y cartref.

Mae'r angen am newidiadau o'r fath ynghyd â'r cadarnhad o ran strategaeth a pholisi ar gyfer y cyfeiriad hwn wedi'u cynnwys o fewn Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Yn hon, o ran Gwasanaethai i Oedolion mewn cynghorau, mae'r pwyslais yn y dyfodol yn cael ei roi'n glir ar ddatblygu eu rôl i fod y un o ddarparu gwybodaeth a chyfeirio ymlaen, grymuso cymunedau, datblygu rôl gryfach fel comisiynydd yn hytrach na darparwr gwasanaethau ac edrych i wneud ymyraethau'n rhai tymor byr ac yn rhai sy'n ail-alluogi.

Bydd pwyslais y gofal a'r gefnogaeth i'r dyfodol ar roi defnyddwyr unigol y gwasanaeth yng nghalon y gofal a'u galluogi i aros yn eu cartref am y cyfnod hiraf posib, gyda chymaint o gysylltiad â'u cymunedau â phosib. Nid yw cynnal cartrefi gofal traddodiadol yn gynaliadwy ac nid yw'n cwrdd â gofynion ein pobl hŷn. Serch hynny, cydnabyddir y bydd rhai pobl hŷn sydd â'r anghenion uchaf o ofal yn parhau i fod angen rhai gwasanaethau gofal nyrsio cofrestredig. Nod yr Achos Busnes yw datblygu darpariaeth o wasanaeth allweddol er mwyn sicrhau ei bod yn unol â gweledigaeth a model sydd ynghlwm â dyfodol y gwasanaeth.

Mae hwn yn achos busnes mewn perthynas â diwallu anghenion pobl hŷn drwy ddatblygu Tai Gofal Ychwanegol (ECH) ar Ynys Môn ac ailystyried y rôl a chwaraeir gan gartrefi preswyl o fan diwallu angen o'r fath. Yn ogystal, mae angen sicrhau bod strategaethau'n cyweddu o ran Gofal Tai Ychwanegol a'r defnydd o Dai Gwarchod y Cyngor i helpu i ddiwallu ystod o

anghenion tai, gofal a chefnogaeth (mae asesiad o rôl Tai Gwarchod y Cyngor y tu hwnt i gwmpas yr achos busnes hwn).

Diben yr achos busnes hwn yw archwilio ac asesu'r angen am ddatblygu ECH yn Amlwch a Llangefni, a'r hyfywedd ariannol ar gyfer gwneud hyn, fel opsiwn amgenach yn hytrach na gofal preswyl.

### 1.2. ECH: Diffiniad

Nid oes diffiniad statudol yn gysylltiedig â thai gofal ychwanegol. Yn wahanol i gartrefi gofal preswyl neu ofal nyrsio, nid oes unrhyw safonau neu reoliadau cenedlaethol cytunedig. Nid yw creu categorïau o ofal ychwanegol yn rhwydd nac yn bosibl mewn gwirionedd. Mae'n haws ystyried gofal ychwanegol, yn enwedig mewn perthynas â model ar gyfer Ynys Môn, o safbwynt nodweddion *allweddol* sy'n rhan o ddatblygiad ac yna'r rheolaeth weithredol a'r ddarpariaeth. Yn ymarferol mae cynlluniau a ddisgrifir fel rhai gofal ychwanegol yn amrywio'n sylweddol mewn maint, cyfleusterau, natur y llety, y gofal a ddarperir, trefniadau rheoli, arian a staffio, a'r berthynas â'r gymuned ehangach.

O fewn cyd-destun datblygiad tai gofal ychwanegol ar Ynys Môn i'r dyfodol, mae nodweddion tai gofal ychwanegol yn debygol o gynnwys:

- Llety annibynnol yn ymgorffori nodweddion dylunio i hybu annibyniaeth a diogelwch.
- Darparu gofal a chymorth yng nghartref yr unigolyn os bydd angen hynny.
- Gofal 24/7 ar gael ar system larwm.
- Cyfleusterau cymunol
- Prydau bwyd ar gael
- Cyfarpar arbenigol i roi cymorth i gwrdd ag anghenion preswylwyr mwy bregus neu anabl, megis ar gyfer ymolchi
- Gweithgareddau cymdeithasol ar y safle a/neu wedi eu trefnu

Y nodweddion allweddol sy'n gwahaniaethu tai gofal ychwanegol a chartrefi gofal preswyl yw:

- Llety anibynnol, nid ystafell yn unig (gan gynnwys ystafelloedd en-suite)
- Gall y ddarpariaeth o ofal fod ar wahân o'r ddarpariaeth o dai
- Gellir darparu gofal yn llawer iawn haws ar lefel unigol
- Gall y preswylwyr fod yn denantiaid sicr neu'n berchnogion gyda sicrwydd o denantiaeth nid trwyddedeion

Serch hynny, oherwydd amrywiaeth y boblogaeth a natur wledig y rhan fwyaf o Ynys Môn, bydd angen i 'fodelau' o dai gofal ychwanegol fod yn hyblyg ac â'r gallu i addasu ac efallai na fyddant yn cynnwys y nodweddion hyn i gyd, ond gallant barhau i fod yn effeithiol werth gwrdd ag anghenion tai a gofal pobl hŷn.

## 1.3. Strwythur yr Achos Busnes

Datblygwyd yr achos busnes yn unol â chanllawiau cyfredol Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chynnwys a strwythur yr adroddiadau achos busnes (y 'model pum achos'), ac mae'n cynnwys yr adrannau canlynol.

**Achos strategol**: yn archwilio'r dystiolaeth am yr angen posib yn ardaloedd Amlwch a Llangefni.

**Achos economaidd**: yn ystyried y dystiolaeth o safbwynt a all ECH gynnig canlyniadau gwell ar gyfer pobl hŷ a chynnig gwell gwerth am arian o'i gymharu ag opsiynau gofal eraill.

**Achos ariannol**: yn gosod y cyd-destun ariannol: arian gan CSYM ar gyfer gwasanaethau gofal, eglurhad ar fodel gwasanaeth a chostau tai gofal ychwanegol (ECH), ynghyd â model ariannol ac arbedion arfaethedig ar gyfer ECH.

**Achos masnachol**: yn asesu'r achos masnachol ar gyfer ECH yn Amlwch a Llangefni yn seiliedig ar farnau pobl hŷn a darparwyr ECH arfaethedig.

**Achos rheoli**: yn nodi'r ystyriaethau o ran comisiynu a chaffael ynghyd ag opsiynau ar gyfer datblygu ECH yn Amlwch a Llangefni.

## 2. Yr Achos Strategol

**Crynodeb**

Dros y cyfnod 2013 – 2033 bydd cyfanswm o boblogaeth sydd dros 65 oed yn cynyddu o 16994 i 23644, cynnydd o 39.13%. Fodd bynnag, yr hyn sydd fwyaf arwyddocaol yw, o ran y garfan o bobl dros 75 oed fel canran o'r boblogaeth sydd dros 65 oed, bydd yn cynyddu o 44.12% yn 2013 i 58.25% erbyn 2033.

Bydd cynnydd o 53.60% yn y boblogaeth 75-84 oed dros y cyfnod 2013 – 2033 gyda'r twf mwyaf sylweddol yn y cyfnod hyd at 2023. Bydd cynnydd o 152.68% yn y boblogaeth 85+ dros y cyfnod 2103 – 2033 gyda chynnydd yn y garfan hon o'r boblogaeth yn ystod bob cyfnod 5 mlynedd hyd at 2033.

Amcangyfrifir, o ran ECH yn Amlwch, bod angen tua 34-41 o unedau yn 2013 a fydd yn codi i 62-75 erbyn 2033.

Amcangyfrifir, o ran ECH yn Llangefni, bod angen 80 uned yn 2013 a fydd yn codi i 143 uned erbyn 2033.

Mae nifer y lleoliadau gofal preswyl a nifer y pecynnau gofal cartref yn 2013/14 yn mynd y tu hwnt i'r angen a ragamcanir am ECH sy'n dangos bod tystiolaeth sy'n cadarnhau bod angen digonol am ofal i gynnal datblygiad ECH yn Amlwch a Llangefni gan gynnwys y ffaith ei fod yn fodel gofal amgen i'r defnydd o ofal preswyl.

Mae'r Achos Strategol yn archwilio'r dystiolaeth am y galw posib o ECH yn ardal Amlwch a Llangefni, yn enwedig fel rhywbeth amgenach na'r defnydd o ofal preswyl.

Mae'n defnyddio'r wybodaeth a ddaw o adroddiad diweddar *Asesiad o Anghenion Pobl Hŷn ar Ynys Môn 2013-2033: Tai, Llety a Chymorth Cysylltiedig*, mewn perthynas â phroffil demograffig y boblogaeth sy'n 55 neu'n hŷn, rhagdybiaethau o angen tai a llety arbenigol pobl hŷn i'r dyfodol, tai gofal ychwanegol yn benodol, a rhagdybiaeth o'r angen am ofal a gwasanaethau cefnogol ar gyfer pobl hŷn.

Mae'r achos strategol yn asesu'r dystiolaeth hon yn erbyn y defnydd o wasanaethau gofal preswyl a gwasanaethau gofal cartref yn 2013/14 gan bobl hŷn sy'n 65 oed neu'n hŷn yn ardaloedd Amlwch a Llangefni.

Mae'r Achos Strategol yn cwmpasu:

- Cyd-destun: Ynys Môn. Proffil demograffig a'r angen a ragdybir ar gyfer tai arbenigol, yn cynnwys ECH, a gwasanaethau gofal/cefnogol.
- Alaw: Ardal Amlwch. Proffil demograffig a'r angen a ragdybir ar gyfer tai arbenigol, yn cynnwys ECH, a gwasanaethau gofal/cefnogol.
- Cefni: Ardal Llangefni. Proffil demograffig a'r angen a ragdybir ar gyfer tai arbenigol, yn cynnwys ECH, a gwasanaethau gofal/cefnogol.

- Persbectif Staff o Ofal Cymdeithasol Gweithredol yn CSYM. Data ansoddol mewn perthynas â'r angen posib am ECH law yn llaw â'r dystiolaeth o angen meintiol.

## 2.1. Cyd-destun: Ynys Môn 2013-2033

Er mwyn gosod yr angen am ECH yn Amlwch a Llangefni yn ei gyd-destun, mae'r adran hon yn crynhoi, ar gyfer Ynys Môn, y proffil demograffig a'r angen a ragdybir am dai arbenigol, yn cynnwys ECH, a gwasanaethau gofal/cefnogol.

### 2.1.1. Ynys Môn: Rhagdybiaethau poblogaeth oed 55 neu'n hŷn 2013 - 2033

Mae tabl 2.1 (isod) yn amlygu rhagdybiaethau poblogaeth ar gyfer y garfan dros 55 oed dros y cyfnod 2013-2033 gyda chategorïau oedran o fewn hynny.

Tabl 2.1. Rhagdybiaethau poblogaeth ar gyfer y garfan dros 55 oed dros y cyfnod 2013-2033

| | 2013 | 2018 | 2023 | 2028 | 2033 |
|---|---|---|---|---|---|
| 55 -64 | 9693 | 9722 | 9863 | 10006 | 10151 |
| 65-69 | 5413 | 5073 | 4807 | 4985 | 5109 |
| 70-74 | 4082 | 5462 | 4810 | 4579 | 4761 |
| 75-79 | 3083 | 3661 | 4626 | 4388 | 4202 |
| 80-84 | 2140 | 2573 | 3127 | 4000 | 3821 |
| 85-89 | 1426 | 1566 | 1969 | 2449 | 3177 |
| 90+ | 850 | 1132 | 1431 | 1928 | 2574 |
| Cyfanswm | 26687 | 29189 | 30633 | 32335 | 33795 |

Ffynhonnell StatsCymru (CSYM)

Mae tabl 2.2 (isod) yn crynhoi rhagdybiaethau poblogaeth y rhai 55-64 oed, cyfanswm y rhai 65 oed a hŷn a'r boblogaeth dros 75 oed ar gyfer y cyfnod 2013-2033.

Tabl 2.2. Crynodeb o ragdybiaethau poblogaeth: Carfan dros 55 oed ar gyfer y cyfnod 2013-2033

| | 2013 | 2018 | 2023 | 2028 | 2033 |
|---|---|---|---|---|---|
| 55 -64 | 9693 | 9722 | 9863 | 10006 | 10151 |
| 65+ | 16994 | 19467 | 19763 | 22329 | 23644 |
| 75+ | 7499 | 8932 | 11153 | 12765 | 13774 |

Ffynhonnell StatsCymru (CSYM)

**Dros y cyfnod 2013 0 2013 bydd cyfanswm poblogaeth dros 65 yn cynyddu o 16994 i 23644, sef cynnydd o 39.13%. Serch hynny, yr hyn sydd fwyaf arwyddocaol yw y bydd y bydd y garfan dros 75 oed fel canran o'r boblogaeth dros 65 oed yn cynyddu o 44.12% yn 2013 i 58.25% erbyn 2033.**

Mae tabl 2.3. yn dangos mewn mwy o fanylder y duedd o safbwynt cynnydd/gostyngiad canrannol ym mhoblogaeth y rhai dros 65 oed yn seiliedig ar y ffigurau yn nhabl 2.2.

Tabl 2.3. Tueddiadau: Poblogaeth dros 65 oed

| | % cynnydd 2013 – 2018 | % cynnydd 2018 - 2023 | % cynnydd 2023 - 2028 | % cynnydd 2028 - 2033 | % cynnydd 2013 - 2033 |
|---|---|---|---|---|---|
| 65+ cyffredinol | 14.55 | 1.52 | 12.98 | 5.88 | 39.13 |
| 65-74 | 10.95 | -8.71 | -0.55 | 3.19 | 3.94 |
| | | | | | |
| 75+ cyffredinol | 19.11 | 24.86 | 14.45 | 7.90 | 83.67 |
| 75-84 | 19.35 | 24.36 | 8.19 | -4.35 | 53.60 |
| | | | | | |
| 85+ cyffredinol | 18.54 | 26.01 | 28.73 | 31.39 | 152.68 |

Mae'r cynnydd cyffredinol o 39% yn y boblogaeth dros 65 oed dros y cyfnod 2013 – 2033 yn arwyddocaol, er, mae'n cuddio rhai newidiadau dramatig a welir yn y tabl uchod. Mae'r cynnydd yng ngharfan 65-74 oed yn fach, 3.94% dros y cyfnod 2013 – 2033. Mae'r cynnydd mwyaf dramatig i'w weld yng ngharfannau 75 – 84 oed ac 85 +. **Bydd poblogaeth 75-84 oed yn cynyddu 53.60% dros y cyfnod 2013 – 2033 gyda'r cyfnod o dwf mwyaf arwyddocaol hyd at 2023. Bydd poblogaeth 85+ yn cynyddu 152.68% rhwng y cyfnod 2013 – 2033 gyda chynnydd i'w weld yn y garfan boblogaeth hon bob 5 mlynedd hyd at 2033.**

Mae Ynys Môn yn wynebu cynnydd sylweddol yn y boblogaeth dros 75 oed dros yr 20 mlynedd nesaf. Mae hyn yn arwyddocaol oherwydd dyma'r oed lle disgwylir dechrau gweld pobl gydag anghenion gofal arbenigol mewn tai a llety, yn cynnwys tai gofal ychwanegol a gofal preswyl/nyrsio.

**2.1.2. Angen i'r dyfodol: ar gyfer tai a llety arbenigol a gofal/cymorth**

Bu i'r adroddiad diweddar *Asesiad o Anghenion Pobl Hŷn ar Ynys Môn 2013-2033: Tai, Llety a Chymorth Cysylltiedig,* amlygu:

- Yr angen a ragdybir am dai a llety arbenigol ar Ynys Môn hyd at 2033 (gweler tabl 2.4 isod);
- Yr angen a ragdybir am wasanaethau gofal a chymorth ar Ynys Môn hyd at 2033 (gweler tabl 2.5 isod)

Dylid ystyried y rhagdybiaethau ar gyfer yr angen am dai arbenigol, llety a chymorth ategol i'r dyfodol fel **canllaw am y galw i'r dyfodol yn hytrach na rhagdybiaeth ddiffiniol**. Y bylchau allweddol yn y farchnad bresennol am dai a llety arbenigol a awgrymir gan y rhagdybiaethau hyn sy'n berthnasol i ddatblygiad ECH yw:

- Bylchau sylweddol mewn argaeledd mathau arbenigol o dai sy'n cynnig gwahanol lefelau o ofal a chymorth yn cynnwys tai gofal ychwanegol; **283 o unedau tai gofal ychwanegol a chynyddu i 566 o unedau pellach erbyn 2033.**
- Mae bwlch ar gyfer pobl sy'n dioddef o ddementia sydd angen byw mewn tai a gefnogir gyda gofal nad ydynt angen nac yn dymuno byw mewn gofal preswyl; **45 o**

**unedau ychwanegol o ddarpariaeth dai ar gyfer dementia yn 2013 gan gynyddu i 83 o unedau ychwanegol erbyn 2033.**

Dylid ystyried y rhagdybiaethau ar gyfer yr angen am ofal a gwasanaethau cefnogol i'r dyfodol fel **canllaw am y galw i'r dyfodol yn hytrach na rhagdybiaeth ddiffiniol**. Y bylchau allweddol yn y farchnad bresennol am wasanaeth gofal a chefnogaeth i'r dyfodol sy'n berthnasol i ddatblygiad ECH yw:

- **Ni fydd y cyflenwad presennol a'r ystod o wasanaethau gofal a chefnogaeth yn medru cwrdd â'r twf a ragwelir i'r dyfodol yn y galw am ofal a chefnogaeth** oherwydd y twf ym mhoblogaeth y rhai 65 oed ac yn hŷn a'r cynnydd sylweddol yn y ffactorau sy'n effeithio ac yn dylanwadu ar yr angen i'r dyfodol.
- Rhagdybir **cynnydd dros 100% erbyn 2033** yn yr angen am wasanaethau gofal a chefnogaeth sy'n cynnwys gofal cartref, ailalluogi a gwasanaeth gofal seibiant, oherwydd y cyfuniad o dwf ym mhoblogaeth y rhai dros 65 oed a'r cynnydd a ragdybir mewn ffactorau eraill sy'n sbarduno'r galw am wasanaethau gwasanaethau cymdeithasol.
- Rhagdybir bron i **60% o gynnydd** yn yr angen am ofal a chefnogaeth o ganlyniad i dwf yn yr achosion o dementia ymhlith y rhai dros 65 oed erbyn 2030.

Tabl 2.4. Ynys Môn: Rhagdybiaeth o'r angen am dai a llety arbenigol hyd at 2033

| **Mathau o Dai / Llety** | **1. Darpariaeth bresennol (unedau)** | **2. Darpariaeth bresennol (cymhareb fesul 1000 pobl 75+)** | **3. Cymhareb o ddarpariaeth a awgrymwyd (fesul 1000 pobl 75+)** | **2013 Pobl 75+ 7,499** | | **2023 Pobl 75+ 11,153** | | **2033 Pobl. 75+ 13,774** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | **4. Rhagdybiaeth o'r nifer o unedau fydd eu hangen 2013** | **5. Cynnydd/ gostyngiad** | **6. Rhagdybiaeth o'r nifer o unedau fydd eu hangen 2023** | **7. Cynnydd/ gostyngiad** | **8. Rhagdybiaeth o'r nifer o unedau fydd eu hangen 2033** | **9. Cynnydd/ gostyngiad** |
| Tai lloches i'w rhentu | 556 | 74.14 | 60 | 449 | -107 | 669 | +113 | 826 | +270 |
| Tai ymddeol ar les | 31 | 4.13 | 75 | 562 | +531 | 836 | +805 | 1033 | +1002 |
| Tai gofal ychwanegol<br>♦ I'w rhentu<br>♦ Ar werth | 54<br>0 | 7.20<br>0 | 15<br>30 | 112<br>225 | +58<br>+225 | 167<br>334 | +113<br>+334 | 207<br>413 | +153<br>+413 |
| Darpariaeth dai ar gyfer dementia | 0 | 0 | 6 | 45 | +45 | 67 | +67 | 83 | +83 |
| Gofal cofrestredig: darpariaeth nyrsio/dementia | 258 | 23.60 | 40 | 300 | +42 | 446 | +188 | 551 | +293 |

Ffynhonnell: Asesiad o Anghenion Pobl Hŷn ar Ynys Môn 2013-2033: Tai, Llety a Chymorth Cysylltiedig

Noder: 'Darpariaeth yn y cartref ar gyfer dementia' yw tai gofal ychwanegol sy'n addas ar gyfer pobl sy'n dioddef o dementia

Tabl 2.5. Ynys Môn: Poblogaeth dros 65: Rhagdybiaeth o'r angen am ofal a gwasanaethau cefnogol hyd at 2033

| Math o wasanaeth | 2013<br>65+ pobl. | 2013<br>Rhagdybiaeth o'r angen: Nifer o gleientiaid | Cymhareb: darpariaeth fesul 1000 65+ pobl. | 2023<br>Angen a ragdybir (pobl 65+: 19763) | 2033<br>Angen a ragdybir (pobl 65+: 23644) |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gofal cartref** | 16994 | 582 | 34.24 | 835 | 1190 |
| **Ailalluogi** | 16994 | 355 | 20.89 | 510 | 726 |
| **Gofal seibiant** | 16994 | 326 | 19.18 | 472 | 676 |
| **Teleofal/Larymau cymunedol** | 16994 | 2639 | 155.29 | 3790 | 5397 |

Ffynhonnell : Asesiad o Anghenion Pobl Hŷn ar Ynys Môn 2013-2033: Tai, Llety a Chymorth Cysylltiedig

## 2.2. Alaw: Ardal Amlwch

### 2.2.1. Poblogaeth dros 65 Oed

Mae tabl 2.6. yn dangos y boblogaeth dros 65 oed dros y cyfnod 2013 – 2033. Rhagdybir y bydd poblogaeth dros 65 oed yn cynyddu 39% dros y cyfnod hwn.

Tabl 2.6. Poblogaeth dros 65 oed 2013 – 2033

| Alaw | | Gwaelodlin (2010) | | | Amcangyfrif poblogaeth dros 65 oed | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Cyfanswm pobl | 65+ pobl | 65+ fel % o gyfanswm pobl. | 2013 | 2018 | 2023 | 2028 | 2033 |
| | | 11328 | 2749 | 24.26 | 3041 | 3483 | 3536 | 3995 | 4230 |

Ffynhonnell: CSYM/StatsCymru

Mae tabl 2.7. yn dangos y boblogaeth dros 75 oed dros y cyfnod 2013 – 2033. Rhagdybir y bydd poblogaeth dros 75 oed yn cynyddu 84% dros y cyfnod hwn.

Tabl 2.7. Poblogaeth dros 75 oed 2013 – 2033

| Alaw | Gwaelodlin (2010) | | | Amcangyfrif poblogaeth dros 75 oed | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyfanswm pobl | 75+ pobl | 75+ fel % o gyfasnswm pobl. | 2013 | 2018 | 2023 | 2028 | 2033 |
| | 11328 | 1222 | 10.78 | 1341 | 1597 | 1994 | 2282 | 2462 |

Ffynhonnell: CSYM/StatsCymru

### 2.2.2. Rhagdybiaeth o'r Angen am Dai a Gofal/Cefnogaeth Arbenigol

Amlygodd yr adroddiad diweddar, *Asesiad o Anghenion Pobl Hŷn ar Ynys Môn 2013-2033: Tai, Llety a Chymorth Cysylltiedig* y:

- Rhagdybiaeth o'r angen am dai a llety arbenigol yn Alaw hyd at 2033 (tabl 2.8 isod). Mae hyn yn cynnwys yr angen a ragdybir am ECH a 'darpariaeth dai ar gyfer dementia' (a all fod yn rhan o'r cynllun ECH);
- Rhagdybiaeth o'r angen am wasanaethau gofal a chefnogaeth yn Alaw hyd at 2033 (gweler tabl 2.9 isod)

Mae'r ffigurau a ragdybir ar gyfer Alaw wedi eu haddasu ar gyfer Amlwch i adlewyrchu 'dalgylch' poblogaeth Amlwch o fewn ardal ehangach Alaw. Defnyddiwyd amcangyfrif o 50-60% o boblogaeth Alaw (ar gyfer 65 oed a hŷn a 75 oed a hŷn) fel gwaelodlin ar gyfer Amlwch ar gyfer rhagdybio'r angen am wasanaethau tai a gofal/cefnogaeth arbenigol i'r dyfodol.

Table 2.8. Alaw: Rhagdybiaeth o’r angen am dai/llety arbenigol hyd at 2033

| **Mathau o Dai/Llety Housing/** | **1. Darpariaeth bresennol (unedau)** | **2. Darpariaeth bresennol (cymhareb fesul 1000 pobl 75+)** | **3. Cymhareb o ddarpariaeth a awgrymwyd (fesul 1000 pobl 75+)** | **2013 Pobl. 75+ 1,341** | | **2023 Pobl. 75+ 1,994** | | **2033 Pobl. 75+ 2,462** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | **4. Rhagdybiaeth o’r nifer o unedau fydd eu hangen 2013** | **5. Cynnydd/ gostyngiad** | **6. Rhagdybiaeth o’r nifer o unedau fydd eu hangen 2023** | **7. Cynnydd/ gostyngiad** | **8. Rhagdybiaeth o’r nifer o unedau fydd eu hangen 2033** | **9. Cynnydd/ gostyngiad** |
| Tai gofal ychwanegol | 0 | 0 | 15 | 20 | +20 | 30 | +30 | 37 | +37 |
| ♦ I’w rhentu | 0 | 0 | 30 | 40 | +40 | 60 | +60 | 74 | +74 |
| ♦ Ar werth | | | | | | | | | |
| | | | | 60 | | 90 | | 111 | |
| **Is-gyfanswm** | | | | | | | | | |
| Darpariaeth dai ar gyfer dementia | 0 | 0 | 6 | 8 | +8 | 12 | +12 | 15 | +15 |

Ffynhonnell: Asesiad o Anghenion Pobl Hŷn ar Ynys Môn 2013-2033: Tai, Llety a Chymorth Cysylltiedig

Noder: ‘Darpariaeth yn y cartref ar gyfer dementia’ yw tai gofal ychwanegol sy’n addas ar gyfer pobl sy’n dioddef o dementia

Amlwch: Rhagdybiaeth o’r angen am dai/llety arbenigol hyd at 2033

| **Mathau o Dai/Llety** | | | | **2013 Rhagdybiaeth o’r nifer o unedau fydd eu hangen** | | **2023 Rhagdybiaeth o’r nifer o unedau fydd eu hangen** | | **2033 Rhagdybiaeth o’r nifer o unedau fydd eu hangen** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tai gofal ychwanegol | | | | 30-36 uned | | 45-54 uned | | 55-66 uned | |
| Darpariaeth yn y cartref ar gyfer dementia | | | | 4-5 uned | | 6-7 uned | | 7-9 uned | |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tai gofal ychwanegol : Cyfanswm | | | | 34-41 uned | | 51-61 uned | | 62-75 uned | |

Yn seiliedig ar 50-60% o'r rhagdybiaethau ar gyfer Alaw o'r unedau ECH a darpariaeth yn y cartref ar gyfer dementia

Tabl 2.9. Alaw: Amcangyfrif o'r angen am wasanaethau gofal a chefnogaeth hyd at 2033

| Math o wasanaeth | 2013<br>65+ pobl. | 2013<br>Rhagdybiaeth o'r angen: Nifer o gleientiaid | Cymhareb: darpariaeth fesul 1000 65+ pobl. | 2023<br>Rhagdybiaeth o'r angen:<br>(pobl 65+: 3536) | 2033<br>Rhagdybiaeth o'r angen: (pobl 65+: 4230) |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gofal cartref** | 3041 | 97 | 31.89 | 139 | 198 |
| **Ailalluogi** | 3041 | 46 | 15.12 | 66 | 94 |
| **Gofal seibiant** | 3041 | 49 | 16.11 | 71 | 102 |
| **Teleofal/Larymau cymunedol** | 3041 | 407 | 133.83 | 584 | 832 |

Ffynhonnell: Asesiad o Anghenion Pobl Hŷn ar Ynys Môn 2013-2033: Tai, Llety a Chymorth Cysylltiedig



Amlwch: Rhagdybiaeth o'r angen am wasanaethau gofal a chefnogaeth hyd at 2033

| Math o wasanaeth | | 2013<br>Nifer o gleientiaid | | 2023<br>Rhagdybiaeth o'r angen | 2033<br>Rhagdybiaeth o'r angen |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gofal cartref** | | 48-58 | | 70-83 | 99-119 |
| **Ailalluogi** | | 23-28 | | 33-40 | 47-56 |
| **Gofal seibiant** | | 25-29 | | 36-43 | 51-61 |
| **Teleofal/Larymau cymunedol** | | 204-244 | | 292-350 | 416-499 |

Yn seiliedig ar 50-60% o'r rhagdybiaethau o'r angen ar gyfer gwasanaethau gofal a chefnogaeth ar gyfer Alaw

**2.2.3. Darparu Gwasanaeth**

Mae tabl 2.10 yn dangos y ddarpariaeth o wasanaethau gofal preswyl i gleientiaid o Alaw hyd at 31 Mawrth 2014

Tabl 2.10: Alaw: Gosodiadau o wasanaethau gofal preswyl hyd at 31/03/2014

| Cyfanswm o osodiadau gofal cofrestredig | Cleientiaid 65+ Ariannwyd gan CSYM | Clients 65+ Ariannwyd eu hunain |
|---|---|---|
| 42 | 34 | 8 |

Ffynhonnell: CSYM, 2014

O'r 42 o gleientiaid a osodwyd o Alaw, rhoddir 31 o gleientiaid mewn cartrefi yn Amlwch (Brwynog a Bryn y Môr).

O ddadansoddiad diweddar o benderfyniadau panel yn Alaw dros y deunaw mis diwethaf, mae'r nifer o osodiadau i mewn i ofal preswyl wedi gostwng o ganlyniad i Bolisi'r Cyngor i geisio rhoi cymorth i ragor o unigolion yn eu cartrefi eu hunain gyda phecyn o ofal cartref. Dros y cyfnod o 18 mis o fis Mawrth, aeth 10 o unigolion o gyfanswm o 18 o ymgeiswyr i ofal preswyl tymor hir, i gartrefi yn y sector annibynnol a'r Cyngor.

Mae tabl 2.11 yn dangos y nifer o gleintiaid sy'n derbyn gofal cartref yn ystod 2013/14 yn ardal Amlwch yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2013 hyd at 31 Mawrth 2014, yn ôl y math o ddeiliadaeth.

Tabl 2.11. Amlwch: Cleientiaid gofal cartref 2013/14 fesul deiliadaeth

| | Math o Lety | | | |
|---|---|---|---|---|
| Categori Oriau Wythnosol | Perchnogaeth breifat neu rentu'n breifat | Tenant Tŷ Cyngor | Tenant Tŷ Lloches | Cyfans wm |
| 1. <5 oriau cleient yr wythnos | 13 | 3 | 1 | 17 |
| 2. 5-9 oriau cleient yr wythnos | 25 | 4 | 1 | 30 |
| 3. 10-19 oriau cleient yr wythnos | 10 | 3 | | 13 |
| 4. >=20 oriau cleient yr wythnos | 23 | 3 | 2 | 28 |
| Cyfanswm | 71 | 13 | 4 | 88 |

Ffynhonnell: CSYM, 2014

Dengys hyn fod y rhan fwyaf o gleintiaid gofal cartref yn berchnogion tai (gydag ychydig rai mewn tai rhent preifat). Mae'r bobl hŷn hyn felly yn fwy tebygol o gynrychioli'r 'garfan' allweddol o bobl sy'n derbyn pecynnau cartref yn y gymuned i'w symud at ECH.

**2.2.4. Crynodeb**

Dengys tabl 2.12 yr angen a ragdybir am dai arbenigol, yn benodol ECH a darpariaeth dementia yn seiliedig yn y cartref.

Tabl 2.12. Amlwch: Rhagdybiaeth o’r angen am ECH

| | 2013 | 2023 | 2033 |
|---|---|---|---|
| ECH | 30-36 uned | 45-54 uned | 55-66 uned |
| Darpariaeth yn y cartref ar gyfer dementia | 4-5 uned | 6-7 uned | 7-9 uned |
| Cyfanswm: Tai Gofal Ychwanegol | 34-41 uned | 51-61 uned | 62-75 uned |

2013/14 – defnydd o osodiadau gofal preswyl a gofal cartref yn y gymuned:

- Nifer o osodiadau mewn cartrefi preswyl yn Amlwch ar 31 Mawrth : 321 o gleintiaid
- Nifer o gleintiaid gofal cartref yn Amlwch 2013/14 : 88 o gleientiaid

Mae’r nifer o osodiadau gofal preswyl a’r nifer o becynnau gofal cartref yn 2013/14 yn uwch na’r rhagdybiaeth o’r angen ar gyfer ECH sydd yn dangos bod tystiolaeth ategol o angen digonol am ofal i fedru cynnal datblygiad ECH yn Amlwch, gan gynnwys bod yn fodel gofal amgen i’r defnydd o ofal preswyl.

## 2. 3. Cefni: Ardal Llangefni

### 2.3.1. Poblogaeth 65 Oed ac yn hŷn

Mae tabl 2.13. yn dangos y boblogaeth dros 65 oed dros y cyfnod 2013 – 2033. Rhagdybir y bydd poblogaeth dros 65 oed yn cynyddu 39% dros y cyfnod hwn.

Tabl 2.13. Poblogaeth dros 65 oed 2013 – 2033

| | Gwaelodlin (2010) | | | Amcangyfrif poblogaeth dros 65 oed | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyfanswm pobl | 65+ pobl | 65+ fel % o gyfanswm pobl. | 2013 | 2018 | 2023 | 2028 | 2033 |
| Cefni | 13068 | 3125 | 23.91 | 3456 | 3959 | 4019 | 4541 | 4808 |

Ffynhonnell: CSYM/StatsCymru

Mae tabl 2.14. yn dangos y boblogaeth dros 75 oed dros y cyfnod 2013 – 2033. Rhagdybir y bydd poblogaeth dros 75 oed yn cynyddu 84% dros y cyfnod hwn.

Tabl 2.14. Poblogaeth dros 75 oed 2013 – 2033

| | Gwaelodlin (2010) | | | Amcangyfrif poblogaeth dros 75 oed | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyfanswm pobl | 75+ pobl | 75+ fel % o gyfanswm pobl. | 2013 | 2018 | 2023 | 2028 | 2033 |
| Cefni | 13068 | 1390 | 10.63 | 1525 | 1816 | 2268 | 2596 | 2801 |

Ffynhonnell: CSYM/StatsCymru

### 2.3.2. Rhagdybiaeth o'r Angen am Dai a Gofal/Cefnogaeth Arbenigol

The recent report, *Anglesey Older People Needs Assessment 2013-2033. Housing, Accommodation and Related Support; 2013*, identified the:

- Rhagdybiaeth o'r angen am dai a llety arbenigol yng Nghefni hyd at 2033 (tabl 2.15 isod). Mae hyn yn cynnwys yr angen a ragdybir am ECH a 'darpariaeth dai ar gyfer dementia' (a all fod yn rhan o'r cynllun ECH);
- Rhagdybiaeth o'r angen am wasanaethau gofal a chefnogaeth yng Nghefni hyd at 2033 (gweler tabl 2.16 isod)

Yn seiliedig ar drafodaeth gyda staff CSYM, ystyrir y ffigurau a ragdybir ar gyfer Cefni fel rhai sy'n berthnasol i 'ddalgylch' poblogaeth Llangefni.

Tabl 2.15. Cefni/Llangefni: Rhagdybiaeth o’r angen am dai/llety arbenigol hyd at 2033

| **Mathau o Dai/Llety Housing/** | **1. Darpariaeth bresennol (unedau)** | **2. Darpariaeth bresennol (cymhareb fesul 1000 pobl 75+)** | **3. Cymhareb o ddarpariaeth a awgrymwyd (fesul 1000 pobl 75+)** | **2013 Pobl. 75+ 1,525** | | **2023 Pobl. 75+ 2,268** | | **2033 Pobl. 75+ 2,801** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | **4. Rhagdybiaeth o’r nifer o unedau fydd eu hangen 2013** | **5. Cynnydd/ gostyngiad** | **6. Rhagdybiaeth o’r nifer o unedau fydd eu hangen 2023** | **7. Cynnydd/ gostyngiad** | **8. Rhagdybiaeth o’r nifer o unedau fydd eu hangen 2033** | **9. Cynnydd/ gostyngiad** |
| Tai gofal ychwanegol | | | | | | | | | |
| ♦ I’w rhentu | 0 | 0 | 15 | 24 | +24 | 34 | +34 | 42 | +42 |
| ♦ Ar werth | 0 | 0 | 30 | 47 | +47 | 68 | +68 | 84 | +84 |
| **Is-gyfanswm** | | | | 71 | | 102 | | 126 | |
| Darpariaeth dai ar gyfer dementia | 0 | 0 | 6 | 9 | +9 | 13 | +13 | 17 | +17 |
| Tai gofal ychwanegol | | | | 80 units | | 115 units | | 143 units | |

Ffynhonnell: Asesiad o Anghenion Pobl Hŷn ar Ynys Môn 2013-2033: Tai, Llety a Chymorth Cysylltiedig

Noder: ‘Darpariaeth yn y cartref ar gyfer dementia’ yw tai gofal ychwanegol sy’n addas ar gyfer pobl sy’n dioddef o dementia

Table 2.16. Cefni/Llangefni: Estimated need for care and support services to 2033

| Math o wasanaeth | 2013<br>65+ pobl. | 2013<br>Nifer o gleintiaid | Cymhareb: darpariaeth fesul 1000 65+ pobl. | 2023<br>Rhagdybiaeth o'r angen:<br>(pobl 65+: 4019) | 2033<br>Rhagdybiaeth o'r angen: (pop 65+: 4808) |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gofal cartref** | 3456 | 114 | 32.11 | 159 | 227 |
| **Ailalluogi** | 3456 | 76 | 21.99 | 109 | 155 |
| **Gofal seibiant** | 3456 | 55 | 15.91 | 79 | 114 |
| **Teleofal/Larymau cymunedol** | 3456 | 508 | 146.99 | 729 | 1038 |

Ffynhonnell: Asesiad o Anghenion Pobl Hŷn ar Ynys Môn 2013-2033: Tai, Llety a Chymorth Cysylltiedig

**2.3.3. Darparu Gwasanaeth**

Mae tabl 2.17 yn dangos y ddarpariaeth o wasanaethau gofal preswyl i gleientiaid o Gefni hyd at 31 Mawrth 2014

Tabl 2.17: Cefni: Gosodiadau o wasanaethau gofal preswyl hyd at 31/03/2014

| Cyfanswm o osodiadau gofal cofrestredig | Cleientiaid 65+ Ariannwyd gan CSYM | Cleientiaid 65+ Ariannwyd eu hunain |
|---|---|---|
| 32 | 24 | 8 |

Ffynhonnell: CSYM, 2014

Mae tabl 2.18 yn dangos y nifer o gleintiaid sy'n derbyn gofal cartref yn ystod 2013/14 yn ardal Llangefni yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2013 hyd at 31 Mawrth 2014, yn ôl y math o ddeiliadaeth.

Tabl 2.18. Ardal Llangefni area: Cleintiaid gofal cartref 2013/14 fesul deiliadaeth

| | Math o Lety | | | |
|---|---|---|---|---|
| Categori Oriau Wythnosol | Perchnogaeth breifat neu rentu'n breifat | Tenant Tŷ Cyngor | Tenant Tŷ Lloches | Cyfanswm |
| 1. <5 oriau cleient yr wythnos | 23 | 1 | 1 | 25 |
| 2. 5-9 oriau cleient yr wythnos | 29 | 5 | 1 | 35 |
| 3. 10-19 oriau cleient yr wythnos | 22 | 2 | 2 | 26 |
| 4. >=20 oriau cleient yr wythnos | 20 | 1 | 2 | 23 |
| Cyfanswm | 94 | 9 | 6 | 109 |

Ffynhonnell: CSYM, 2014

Dengys hyn fod y rhan fwyaf o gleintiaid gofal cartref yn berchnogion tai (gydag ychydig rai mewn tai rhent preifat). Mae'r bobl hŷn hyn felly yn fwy tebygol o gynrychioli'r 'garfan' allweddol o bobl sy'n derbyn pecynnau cartref yn y gymuned i'w symud at ECH.

Ystyrir y bydd y nifer o gleintiaid ar gyfer Cefni a roddir mewn gofal preswyl ac yn defnyddio gwasanaethau gofal cartref, yn gleientiaid posib ar gyfer ECH yn Llangefni wrth ragdybio yr ystyrir ardal Llangefni yn berthnasol i 'ddalgylch' poblogaeth Llangefni.

**2.3.4. Crynodeb**

Dengys tabl 2.19. yr angen a ragdybir am dai arbenigol, yn benodol ECH a darpariaeth dementia yn seiliedig yn y cartref.

Tabl 2.19. Llangefni: Rhagdybiaeth o'r angen am ECH

| | 2013 | 2023 | 2033 |
|---|---|---|---|
| ECH | 71 uned | 102 uned | 126 uned |
| Darpariaeth yn y cartref ar gyfer dementia | 9 uned | 13 uned | 17 uned |
| Cyfanswm: Tai Gofal Ychwanegol | 80 uned | 115 uned | 143 uned |

2013/14 – defnydd o osodiadau gofal preswyl a gofal cartref yn y gymuned:

- Nifer o osodiadau mewn cartrefi preswyl yng Nghefni ar 31 Mawrth : 32 o gleintiaid
- Nifer o gleintiaid gofal cartref yn Llangefni 2013/14 : 109 o gleitntiaid

Mae'r nifer o osodiadau gofal preswyl a'r nifer o becynnau gofal cartref yn 2013/14 yn uwch na'r rhagdybiaeth o'r angen ar gyfer ECH sydd yn dangos bod tystiolaeth ategol o angen digonol am ofal i fedru cynnal datblygiad ECH yn Llangefni, gan gynnwys bod yn fodel gofal amgen i'r defnydd o ofal preswyl.

## 2. 4. Persbectif Staff Gofal Cymdeithasol Gweithredol

Ar gychwyn yr Achos Busnes hwn, bu i ni osod y gofyniad strategol i ECH fedru cynnig dewis amgen hyfyw i ofal preswyl o fewn gweledigaeth ehangach gofal cymdeithasol ar yr ynys. I wireddu hyn, mae angen deall nid yn unig sut y mae pobl ar hyn o bryd yn cael eu rhoi mewn gofal preswyl ond hefyd sut a pham y gwneir y penderfyniadau hyn.

Mae dadansoddiad o benderfyniadau panel CSYM ynghylch gosod pobl mewn gofal preswyl yn ardal Amlwch dros y 18 mis diwethaf yn awgrymu bod dros hanner y rhai a osodwyd yn ystod y cyfnod hwn wedi profi problemau cof. Er mwyn medru casglu data ansoddol mwy manwl, bu i ni gwrdd â rhyw 20 o weithwyr proffesiynol o faes gofal cymdeithasol ac iechyd i ddeall yr elfennau nodweddiadol sydd yn sbarduno penderfyniad i geisio gofal preswyl. Y rhain, mewn gwirionedd, yw'r ffactorau sy'n perswadio'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ar y panel na all unigolyn neilltuol gael eu cefnogi'n ddiogel ac yn ymarferol o fewn ei gartref ei hun.

Cyflwynwn yr elfennau trothwy allweddol a adnabuwyd gan y drafodaeth grŵp hon yn nhabl 2.20. Yn erbyn pob un o'r trothwyon hyn, eglurwn pam, sut ac o dan ba amodau os o gwbl y gallai cynllun ECH gynnig dewis amgen hyfyw i rai – os nad pob un – o'r rhai sydd â'r anghenion hyn, gan ddibynnu ar ein profiad a'n gwybodaeth o'r sector.

Bu i bobl broffesiynol blaenllaw hefyd amlygu nifer o risgiau a chyfleoedd eraill o fewn systemau gofal cymdeithasol, iechyd a thai presennol sydd un ai'n cryfhau'r achos dros ECH neu sydd yn awgrymu ystyriaethau pwysig ar gyfer ei ddatblygiad a'i weithrediad. Cyflynir y rhain yn nhabl 2.21.

**Trothwyon allweddol presennol ar gyfer gofal preswyl a goblygiadau model ECH a fydd yn cynnig dewis amgen hyfyw**

| Trothwyon allweddol presennol ar gyfer gofal preswyl | Goblygiadau model ECH os yw am lwyddo i gynnig dewis amgen hyfyw |
|---|---|
| Pobl angen cymorth wrth fynd i'r toiled neu drosglwyddo ar adegau na ellir eu rhagweld, yn enwedig dros nos | Bydd staff ar-safle 24/7 yn allweddol wrth sicrhau y gall ECH gynnal pobl yn ddiogel ac yn gynaliadwy gyda'u hanghenion dros nos / anodd eu rhagweld (bydd angen i staff dros nos fedru rhoi cymorth gyda throsglwyddo/ mynd i'r toiled ac ati, o ran niferoedd, sgiliau, cofrestru, ac ati.). Bydd angen i'r cynllun fod yn barod o ran bod yn Dechnegol Gynorthwyol, gyda systemau da mewn grym er mwyn medru cwblhau a newid asesiadau Therapi Galwedigaethol personol. |
| Anawsterau'n gysylltiedig â'r gofalwr | Dengys y dystiolaeth y gall ECH fod yn fodel dda ar gyfer cefnogi cyplau i barhau i gydfyw a gofalu am ei gilydd yn ddiogel ac yn gynaliadwy, gyda chymorth wrth gefn gan staff a/neu aelodau eraill o'r teulu, gan barhau i gefnogi ond 'o bell'. |
| Teuluoedd yn pryderu am y risg o fyw ar ben ei hun. | Dengys y dystiolaeth y gall ECH gefnogi perthynas teuluol, mae teuluoedd yn mwynhau ymweld ag ECH a gallant barhau i gynnig peth gofal a chymorth ond gyda thawelwch meddwl hefyd. |
| Cymedrol - Dementia datblygedig | Bydd angen i unrhyw gynllun ECH sy'n mynd i gynnig dewis amgen hyfyw i ofal preswyl fod yn arbenigol o ran dementia: nid yw hyn o anghenraid yn golygu bod yn rhaid i ran o'r cynllun neu'r cyfan ohono fod yn ddynodedig yn neilltuol i bobl sydd â dementia, ond mae'n golygu y bydd angen hyfforddiant ar dementia, ethos, dyluniad sy'n hygyrch ar gyfer dioddefwyr dementia a phartneriaethau cryf gyda thimau cof, y sector wirfoddol ac ati – y cyfan yn barod o'r cychwyn cyntaf. Rhaid i'r cynllun fod yn barod hefyd o ran Technoleg Gynorthwyol gyda thîm gofal ar safle 24/7. |
| Risg personol neu i eraill, drwy grwydro, ymddygiad ymosodol, ac ati | Pwysigrwydd elfennau arbenigwr dementia (gweler uchod), dylunio, Technoleg Gynorthwyol a staffio 24/7 |

| | |
|---|---|
| Gadael ysbyty – llai o dderbyniadau'n uniongyrchol o ysbytai ond gall ymadawiad o'r ysbyty sydd heb ei drefnu'n dda olygu na all pobl ymdopi yn y cartref | Pwysigrwydd addysgu gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ynglŷn ag ECH a dewisiadau cymunedol: herio'r syniad mai gofal preswyl yw'r dewis rhagosodedig, sicrhau bod gwell llwybrau o'r ysbyty, yn cynnwys gwelyau camu i lawr o fewn ECH neu yn rhywle arall. |
| Unigedd a phrofedigaeth (nid yn achos uniongyrchol ond gall fod yn drothwy i ddirywiad o ran unigedd, iselder, hunan-ofal) | Dengys tystiolaeth y gall ECH hybu rhyngweithio cymdeithasol y rhai sy'n byw ynddo. Mae profedigaeth yn drothwy allweddol i nifer sy'n dewis symud ymlaen llaw neu'n ataliol i ECH. |

**Ystyriaethau system iechyd a gofal cymdeithasol eraill a adroddir gan bobl broffesiynol a goblygiadau'r rhain ar gyfer y model ECH**

| Ystyriaethau system iechyd a gofal cymdeithasol eraill | Goblygiadau ar gyfer y model ECH |
|---|---|
| Toriadau i ddarpariaeth canolfan ddydd a bylchau mewn gwasanaethau cymunedol (gan gynnwys seibiant dros nos) risg o anawsterau'n digwydd gyda'r gofalwr yn gynt na'r disgwyl. | Gallai ECH weithredu fel canolbwynt, yn darparu cyfleoedd dydd ac allgymorth gan dimau gofal cartref i gefnogi pobl hŷn a'u gofalwyr yn eu cartrefi.<br>Mae ECH yn cynnig y gallu i symud drwy gynllunio i mewn i gyd-destun annibynnol cyn i ofalwyr gyrraedd sefyllfa o anobaith<br>Dylid rhoi ystyriaeth i ddarparu un neu ragor o fflatiau seibiant/ camu i fyny / camu i lawr mewn datblygiadau ECH. |
| Nid oes gan oedolion ifanc sydd ag anableddau dysgu ac/neu arwyddion cynnar o dementia lety addas ar yr ynys – mae lleoliadau oddi ar yr ynys yn gwanhau rhwydweithiau teuluol ac yn ddrud iawn. | Archwilio'r posibiliadau o ymgorffori a chyd-leoli llety ar gyfer pobl ifanc gydag anableddau dysgu / arwyddion cynnar o dementia mewn cynllun(iau) ECH. |
| Bydd rhai pobl hŷn sydd ag anghenion isel-canolig yn dewis symud i ECH ond ni fydd hyn yn apelgar i bawb ac mae angen i hyn fod yn un ymysg nifer o ddewisiadau tai/gofal. | Mae gwybodaeth a chyngor da yn hanfodol os yw pobl am ystyried a gwneud dewisiadau. Cymorth ymarferol i'w rhai sydd angen cymorth i symud, ac i'r rhai sydd angen setlo i mewn/dod i arfer â'r lleoliad ac ati.<br><br>ECH fel rhan o fwydlen o ddewisiadau yn seiliedig ar y gymuned, drwy fodel canolbwynt, yn ffordd o gryfhau (nid disodli) cefnogaeth i'r rhai sy'n parhau i fyw yn eu cartrefi eu hunain. |
| Nid yw pob gweithiwr proffesiynol ym maes cymdeithasol/gofal iechyd ar hyn o bryd yn deall y gwahaniaeth rhwng gofal preswyl a byw'n annibynnol | Mae angen i weithwyr cymdeithasol a gweithwyr proffesiynol eraill o'r gymuned fod yn rhan o ddatblygiad ECH a dysgu amdano o'r cychwyn cyntaf er mwyn iddynt fod yn hyderus ynghylch pwy i'w argymell ar gyfer ECH os yw ECH am lwyddo fel model amgen i ofal preswyl. |

| | |
|---|---|
| mewn model dai fel ECH a beth mae hyn yn ei olygu'n ymarferol i'w cleientiaid. | |
| Disgrifiodd gweithwyr proffesiynol y rheng flaen y teimlad lleol, y naws am le a'r rhwydweithiau sydd ar yr ynys a sut y bydd hyn yn dylanwadu ar y lleoliadau y bydd pobl yn ystyried symud iddynt. | Rhaid ystyried diwylliant, iaith a naws am le yn ofalus ar gyfer lleoliad, polisïau dyrannu, marchnata ac ati o gynllun(iau) ECH |

## 3. Yr Achos Economaidd

**Crynodeb**

Roedd gwerthusiad diweddar o gost-effeithiolrwydd ECH ar gyfer y Rhwydwaith Dysgu a Gwella Tai wedi darganfod

- Bod tai gofal ychwanegol yn fodel ataliol, sy'n cefnogi annibyniaeth ac yn osgoi derbyniadau i ofal preswyl;
- Mae tai gofal cymdeithasol yn fodel mwy cost effeithiol ar gyfer cyflenwi gofal na modelau eraill, gan gynnwys gofal preswyl a gofal yn y gymuned. Roedd y gwerthusiad yn dangos, ar gyfartaledd, bod cost ECH yn hanner cost gros y lleoliadau eraill.

Mae'r dystiolaeth ar ECH yn awgrymu y gall pobl hŷn brofi canlyniadau cadarnhaol mewn perthynas â:

- Gallu gweithredol;
- Lles cymdeithasol;
- Amgylchedd ffisegol, gan gynnwys hygyrchedd, diogelwch; a
- Hyrwyddo annibyniaeth a theimlo eu bod mewn rheolaeth o'u sefyllfa.

Yn ogystal, gall ECH greu buddion economaidd ehangach, er enghraifft: drwy leihau'r defnydd o ysbytai; rhyddhau tai i deuluoedd; creu hyb ar gyfer y gymuned leol; a hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer cyflogaeth a mentrau lleol.

Ystyriodd yr adran flaenorol y galw posibl am ECH, yn nhermau demograffeg ac yn nhermau ei swyddogaeth strategol o fewn gweledigaeth gofal cymdeithasol ym Môn.

Mae'r Achos Economaidd yn ystyried a fedr ECH ddarparu gwell canlyniadau i bobl hŷn a chynnig gwell gwerth am arian o gymharu â dewisiadau gofal eraill . Os yw ECH yn debygol o fwyafu ansawdd bywyd pobl hŷn (yn enwedig y rheiny ag angen llawer o ofal a/neu gefnogaeth) a bod modd gwneud hynny mewn ffordd gost effeithiol, mae achos cryf dros ei ddatblygu.

Mae'n tynnu ar dystiolaeth o ymchwil, tystiolaeth o Rwydwaith Dysgu a Gwella Tai (Housing LIN) prif ffynhonnell gwybodaeth a dyfeisgarwch ECH (a sefydlwyd yn wreiddiol ar gyfer Lloegr, ond a lansiwyd yn awr yng Nghymru gyda chyllid gan Lywodraeth Cymru ym Mai 2014[1]), a gwaith ymgynghorol a ymgymerwyd gan IBA/HSP.

Maes yr Achos Economaidd yw:

---

1 – www.housinglin.org.uk/Wales

- Tystiolaeth o ganlyniadau gwell ar gyfer pobl hŷn
- Tystiolaeth o gost effeithiolrwydd
- Buddion economaidd ehangach ECH

## 3. 1. ECH: Tystiolaeth canlyniadau gwell ar gyfer pobl hŷn

Canfu PSSRU (Baumker et al, 2011) ar gyfartaledd, bod trigolion ECH yn cael canlyniadau gwell na phreswylwyr cartrefi gofal dros gyfnod o chwe mis yn dilyn symud i mewn. Cafwyd gwelliant bach ym medrau ffwythiannol trigolion ECH, tra bod y rheiny mewn cartrefi gofal preswyl fel grŵp wedi profi dirywiad.

Mae tystiolaeth ymchwil (er enghraifft. Pannell, Blood & Copeman, 2012) hefyd yn cadarnhau gallu posibl ECH I wella rhyngweithredu cymdeithasol ei thrigolion, yn enwedig y rheiny ag anghenion gofal neu gefnogaeth uchel (a ddisgrifiai'n aml eu bod yn teimlo'n ynysig iawn cyn symud i mewn).
Dywedodd 82% o'r 600 o breswylwyr a astudiwyd gan Callaghan et al (2009) bod eu bywydau cymdeithasol yn 'dda' neu 'cystal ag y gallai fod' ar ôl 12 mis yn ECH. Fodd bynnag, mae rhai cynlluniau'n fwy llwyddiannus wrth hybu ymdeimlad cryf o gymuned nac eraill. Ymddengys bod ffactorau llwyddiant yn cynnwys: staff y cynllun yn cael amser a sgiliau i feithrin perthnasau rhwng unigolion, trefnu gweithgareddau, cefnogi cyfranogiad preswylwyr, a meithrin cysylltiadau gyda'r gymuned ehangach (Croucher & Bevan 2012).

Mae canlyniadau cadarnhaol eraill a adroddwyd gan drigolion ECH yn Pannell et al (2012) yn cynnwys: byw mewn amgylchedd dymunol a hygyrch, gan deimlo'n **ddiogel a sicr** a theimlo'n **annibynnol ac yn rheoli** eu bywydau eu hunain. Gall ECH fod yn arbennig o werthfawr o safbwynt galluogi cyplau i gydfyw, er gwaethaf anghenion gofal un neu'r ddau a allai fel arall fod wedi gorfod symud i gartref gofal.

## 3.2. TCE: Tystiolaeth cost effeithiolrwydd

Mae PSSRU (Baumker et al, 2011) wedi ymgymryd â rhai cymariaethau manwl o gost a chanlyniadau o ECH, o gymharu â gofal preswyl ar gyfer 480 o unigolion (hynny yw 240 o barau wedi'u cydweddu'n ofalus, un mewn gofal preswyl ac un mewn ECH). Gan fod costau gofal wedi'u cynnwys yng nghostau craidd gofal preswyl ond wedi'u hychwanegu yn achos ECH, mae rhychwant ehangach yng nghost rhywun ag anghenion gofal dwys sy'n byw mewn ECH. Fodd bynnag, ar gyfer y sampl hwn, roedd cost ar gyfartaledd (cymedrig) yn is (£374 ar brisiau 2008) mewn ECH nac mewn gofal preswyl (£409 ar brisiau 2008). Mae'r sawl sy'n byw mewn ECH hefyd yn fwy tebygol o gael budd o ofal a chefnogaeth ddi-dâl gan bartneriaid, aelodau teulu a chymdogion na'r rhai mewn gofal preswyl, a chadarnhawyd hyn yn ein canfyddiadau ar gyfer JRF (Pannell, Blood & Copeman 2012).

Yn gyffredinol, daw PSSRU (Netten 2011) i'r casgliad bod:

"...cartrefi gofal ychwanegol yn ymddangos yn ateb cost effeithiol ar gyfer tua thraean y bobl sy'n symud i mewn i gartrefi gofal" (t.18).

Fodd bynnag, nid yw hynny'n golygu o reidrwydd y bydd ECH yn gyffredinol rhatach na gofal preswyl i bob unigolyn ag anghenion cefnogaeth dwys, er y bydd cwestiwn allweddol am bwy sy'n talu am beth fel y dengys Baumker et al,

"mae cymhlethdodau trefniadau cyllido mewn gofal ychwanegol yn gyfryw fel na fydd unrhyw un sector yn cymryd baich y costau ac yn elwa hefyd" (p.535)

Er enghraifft, gallai budd-dâl tai gyfarfod ag elfen gartref ECH, gan adael Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion yn gyfrifol am yr elfen ofal yn unig (llai – o dan bolisi cyfredol Llywodraeth Cymru – cyfraniad o hyd at £55 yr wythnos gan y person hŷn). Mewn cartrefi gofal, lle nad oes modd hawlio Budd-dâl Tai,  byddai Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion yn talu cost gyfan y lleoliad (llai cyfraniad gan y cleient hyd at tua £120 yr wythnos gan y person hŷn).

Canfu gwerthusiad diweddar o gost effeithiolrwydd ECH ar gyfer Cartrefu LIN yn Nwyrain Sussex bod

- Tai gofal ychwanegol yn fodel ataliol, yn cefnogi annibyniaeth ac yn osgoi symudiadau i ofal preswyl;
- Mae tai gofal ychwanegol yn fodel mwy cost effeithiol o ofalu na modelau eraill, gan gynnwys gofal preswyl a gofal yn y gymuned. Dangosodd y gwerthusiad bod cost ECH ar gyfartaledd hanner cost gros y lleoliadau eraill.

Roedd canfyddiadau arwyddocaol eraill yn cynnwys:

- Wrth asesu ble byddai preswylwyr yn y cynlluniau ECH yn byw pe na fyddent yn byw mewn  ECH, barnwyd bod 63% ag angen gofal preswyl/EMI/nyrsio;
- Cefnogi dyluniad galluogi ac amgylchedd hygyrch tai gofal ychwanegol hunan ofal a gofal teuluol anffurfiol, ac felly'n cynyddu annibyniaeth;
- Pwysleisiwyd pwysigrwydd y tŷ bwyta ar y safle, nid yn unig am ei fuddion maethol ac iechyd, ond hefyd fel canolfan gymdeithasol a sbardun i weithgareddau cymdeithasol.

Er mai cyfyngedig yw'r dystiolaeth ymchwil yn cymharu cost effeithiolrwydd ECH â derbyn gofal cartref yn y gymuned ehangach ar gyfer pobl hŷn gyda lefelau anghenion dwysach, mae HSP/IBA yn gweithio gydag awdurdodau lleol yn Lloegr i ddatblygu ECH fel 'llwybr' mwy cost effeithiol i bobl hŷn o gymharu â phobl yn derbyn gofal yn y cartref yn y gymuned ehangach.

Ar gyfer y grŵp hwn, gall ECH gynnig dewis ataliol, er enghraifft,  symud i amgylchedd mwy cefnogol a hygyrch a lleihau perygl symud mewn argyfwng i ofal preswyl. Mae tystiolaeth anecdotaidd sylweddol gan ddarparwyr ECH o becynnau gofal unigolion yn lleihau ar ôl symud i ECH. Mae'r esboniadau am hyn yn cynnwys: hygyrchedd y llety; argaeledd prydau bwyd; cefnogaeth lefel isel a chyfleoedd am ryngweithio cymdeithasol gyda staff a thrigolion eraill, a mynediad ar unwaith i gymorth mewn argyfyngau.

## 3.3. ECH: Buddion Economaidd Ehangach

Dylai'r buddion economaidd ehangach posibl canlynol hefyd gynyddu hyfywedd a chynaladwyedd  ECH yn y tymor hirach:

**Defnydd ysbyty**: canfu dadansoddiad Kneale (2011) bod person cyffredin 80 oed a thros hynny sy’n derbyn gofal yn y cartref yn y gymuned yn treulio 6 noson mewn blwyddyn mewn ysbyty, byddai preswylydd ECH gyda nodweddion demograffig tebyg yn treulio, ar gyfartaledd, 5 noson mewn ysbyty.

**Rhyddhau cartrefi teuluol**: Dadleua Kneale (2011) hefyd y gallai:

“Ehangu’r sector ECH yn rhan o ymdrech i dyfu a hybu amrywiaeth ym marchnad dai pobl hŷn, helpu lleihau’r prinder tai’n wynebu pobl ifanc a theuluoedd trwy ryddhau cartrefi o faint teuluol” (p.5)

**Creu canolfan**: Pan mae’n gweithio’n dda fel canolfan i’r gymuned (a Hazel Court Family Ha yn Abertawe yn enghraifft ardderchog o hyn), gall ECH ddarparu adnodd i’r gymuned leol. Gallai hyn gynnwys:

- Cyfleoedd yn ystod y dydd i bobl hŷn (preswyl a dibreswyl) – mae’n bosibl i hyn gynnig dewis cyfun cydwedd i ganolfan ddydd;
- man gwaith i staff gofal, cefnogi ac iechyd estyn allan ohono i’r gymuned i gefnogi pobl hŷn yn byw yn eu cartrefi eu hunain; a
- chyfleusterau fel caffi, campfa, ystafelloedd cyfarfod, golchfa, siop trin gwallt, ystafell westai fforddiadwy fyddai’n hygyrch i bobl a grwpiau lleol.

**Cyfleoedd cyflogaeth/ menter gymdeithasol a lleol:** mae cynlluniau ECH yn creu cyfleoedd gwaith i staff gofal, cartrefi a glanhau, a hefyd yn creu cyfleoedd i fentrau cymdeithasol lleol neu i fusnesau bach ( er enghraifft, person yn cynnig amrywiol wasanaethau, trin gwallt, darpariaeth caffi/siop, yn dibynnu ar y modelau a ddefnyddir).

## 3.4 Crynodeb

- 
- Awgryma'r dystiolaeth ar ganlyniadau ar gyfer pobl hŷn o ECH bod buddion mewn perthynas â:
    - Medrau ffwythiannol;
    - Lles cymdeithasol;
    - Amgylchedd corfforol, gan gynnwys hygyrchedd diogelwch a sicrwydd; a
    - Hybu annibyniaeth a theimlo mewn rheolaeth.
- Awgryma'r dystiolaeth y gall ECH fod yn ddull mwy cost effeithiol o gyflawni'r canlyniadau hyn ar gyfer llawer o bobl hŷn gydag anghenion gofal, o'u cymharu â gofal preswyl.
- Gall ECH hefyd greu buddion economaidd ehangach, er enghraifft: trwy leihau defnydd ysbyty; rhyddhau tai teuluol; creu canolbwynt i'r gymuned leol; a hybu cyfleoedd ar gyfer cyflogi a menter leol.

# 4. Yr Achos Ariannol

**Crynodeb**

Mae ECH yn cynnig posibiliadau ar gyfer arbedion ac effeithiolrwydd ariannol:

- Mae'n fwy cost effeithiol i'r Cyngor ddarparu gofal mewn lleoliad ECH yn hytrach nag mewn Gofal Preswyl. Rhagamcanir y bydd yr arbedion ariannol yn rhwng £139,362 a £156,333 y flwyddyn yn Amlwch, a rhwng £152,922 a £170,193 y flwyddyn yn Llangefni (mae'r ffigyrau'n dibynnu ar y model cyflenwi gofal);
- Osgoi costau: gwneir arbedion pellach yn sgil peidio gorfod ariannu'r gost o ddod â chartrefi preswyl y Cyngor i fyny i safon dderbyniol. Dros dair blynedd, amcangyfrifir y ffigyrau hyn fel: Brwynog £257,946 a Phlas Penlan £388,983;
- Yn ogystal, byddai derbyniadau cyfalaf ychwanegol pe bai'r cartrefi/safleoedd yn cael eu gwerthu.

Mae datblygu ECH yn Amlwch a Llangefni yn gynaliadwy yn ariannol i'r Cyngor, nid yw'n gynaliadwy, yn ariannol ac yn strategol, i'r Cyngor gomisiynu ECH yn Amlwch a Llangefni ac i fod yn ddarparwr gofal preswyl yn yr ardaloedd hyn.

Mae ECH fel arfer yn opsiwn deniadol yn ariannol ar gyfer pobl hŷn o gymharu â gofal preswyl; mae'r cyfraniad ariannol uchaf ar gyfer gofal o fewn ECH yn is na hynny o fewn gofal preswyl ac, yn ogystal, mae gan rywun hŷn sy'n byw mewn ECH yr hawl i'r ystod lawn o fudd-daliadau lles felly bydd ganddynt fel arfer incwm wythnosol net uwch.

Mae'r achos ariannol yn gosod:

- Esboniad o fodel gwasanaeth a chostau tai gofal ychwanegol (ECH)
- Model arfaethedig ariannol ac arbedion ECH
- Crynodeb a goblygiadau
- ECH: ystyriaethau o ran cyllid cyfalaf

## 4.1. ECH Model Gwasanaeth a Chostau

### 4.1.1. ECH Gwasanaeth Model

Dylid nodi nad yw'r model gwasanaeth a'r model ariannol a ddefnyddiwyd yn wreiddiol yng nghynllun ECH yng Nghaergybi, yn dilyn adolygiadau o'r gwasanaeth hwnnw, yn cael ei ystyried yn fodel addas ar gyfer datblygu ECH i'r dyfodol.

Er mwyn  ystyried model ariannol ar gyfer ECH mae angen ystyried y model gwasanaeth gan fod hynny'n gyrru'r costau o fewn ECH yn uniongyrchol. Mae amrywiaeth eang o fodelau ECH ar draws y DG; amrywia'r modelau hyn ar draws y sectorau cymdeithasol a phreifat a newidiant wrth I 'gynnyrch' ECH  aeddfedu (o'i ddatblygiad gwreiddiol yng nghanol y 1990au) ac o ganlyniad i'r dirwasgiad a llymder sector cyhoeddus amhenodol.

Fel yr amlinellwyd yn y cyflwyniad, nid oes gan ECH ddiffiniad statudol. Gall fod yn fwy defnyddiol i feddwl am ECH, yn enwedig o ran model ar gyfer Ynys Môn, yn nhermau'r *nodweddion* allweddol sy'n ffurfio datblygiad ac yna'r rheoli gweithredol a chyflenwi.

Prif ffynhonnell gwybodaeth a dyfeisgarwch am sector ECH yw Rhwydwaith Dysgu a Gwella Tai. Wedi'i sefydlu'n wreiddiol ar gyfer Lloegr, fe'i lansiwyd bellach yng Nghymru gyda chyllid gan Lywodraeth Cymru ym Mai 2014[2].

Mae'r Cyfarwyddyd Technegol diweddaraf ar ECH gan LIN Tai yn tynnu ar yr ymarfer gorau cyfredol datblygiadol mewn perthynas â'r modelau gwasanaeth o fewn gwasanaethau ECH. Mae'r modelau hyn yn adlewyrchu'r newid yn nulliau comisiynu a phrynu awdurdodau lleol yn ogystal â dull cymdeithasau tai sydd wedi ac yn parhau i brofi cymhorthdal sector cyhoeddus sylweddol is ar gyfer costau adeiladu, yn ogystal â disgwyliadau cynyddol pobl hŷn a'u teuluoedd.

Cyfeiria Cyfarwyddyd Technegol LIN at ECH at ddatblygiad cynyddol model o ECH a ddiffinir fel ‘craidd ac ychwanegu’. Yn ymarferol elfen 'graidd' y model gwasanaeth yw'r nodwedd hanfodol sy'n peri i bob ECH weithio (hynny yw, fel arall dim ond bloc o fflatiau ydyw ar gyfer pobl hŷn gyda rhai o'r unigolion hynny'n derbyn gofal yn y cartref). Bydd y gwasanaeth craidd nodweddiadol yn cynnwys darparu:

- gwasanaethau rheoli tai;
- cefnogaeth (y cyfeiriwyd ato'n flaenorol yn aml fel ' cefnogaeth berthynol i dai')
- gweithgareddau ac adloniant;
- ymateb argyfwng 24/7 gan gynnwys staff ar y safle dros nos;
- mynediad at ddarparwr gofal ar y safle
- gwasanaeth prydau bwyd/arlwyo.

Yr elfennau 'ychwanegol' yn bennaf yw'r pecynnau gofal ar gyfer unigolion sy'n byw mewn cynllun  ECH yn ogystal ag elfennau 'dewisol' gwasanaeth ECH: mewn cynlluniau mwy gallai'r

---

2

- www.housinglin.org.uk/Wales

rhain gynnwys cyfleusterau ychwanegol fel campfa/cyfleusterau hamdden, trinwyr gwallt, siopau, yn ogystal â gwasanaethau cefnogi 'ymestyn' i'r gymuned leol ehangach.

Ystyrir y model gwasanaeth ECH mwyaf priodol ar gyfer Ynys Môn o safbwynt comisiynu a phrynu yn yr Achos Rheolaeth adran 6.

Fodd bynnag mae cysyniad ‘gwasanaeth craidd’ o fewn ECH yn gymwys i Ynys Môn ac fe'i defnyddir fel sail ar gyfer y model ariannol ac arbedion (adran 3). Yn arbennig, o ystyried yr angen i ECH fod yn ddewis amgen i ddefnydd gofal preswyl, mae'n hanfodol bod model gwasanaeth ECH Ynys Môn yn cynnwys:

- Darparu gofal ar y safle, i ddiwallu anghenion gofal personol, yn ogystal â chefnogaeth.
- Staffio 24/7 gan gynnwys gofal staff dros nos.

Mae ECH yn gynhenid wahanol i ofal preswyl yn yr ystyr ei fod yn darparu hawliau tai a diogelwch; mae'r staffio 24/7 yn wahaniaeth allweddol o gymharu â gofal yn y cartref a ddarperir i berson hŷn yn byw yn ei gartref ei hun.

Mae'r graddau y gall ECH fod yn ddewis arall i berson hŷn neu berson anabl o gymharu â lleoliad mewn gofal preswyl a/neu ar becyn gofal 'uwch' yn y cartref (er enghraifft 15 awr yr wythnos neu fwy) yn dibynnu ar ba mor dda mae'r 'gwasanaeth craidd' yn gweithredu ac yn enwedig ar ddarpariaeth staff gofal 24/7 ar y safle.

Mewn model nodweddiadol o gynllun ECH lleolir staff gofal ar y safle wrth ochr rheolwr y cynllun ac unrhyw staff cefnogol gan osgoi costau trafnidiaeth ac amser segur cynyddol ynghlwm â model gofal yn y cartref cymunedol. Fel mater o arfer darperir gofal dros nos gan staff gofal ar y safle naill ai'n 'effro trwy'r nos' neu'n 'cysgu i mewn', o 10pm tan 7am (er y gall hyn amrywio o gynllun i gynllun), yn dibynnu ar lefelau'r anghenion a fesurwyd a'r risgiau a gyflwynwyd gan drigolion o ran y tebygolrwydd o fod angen cefnogaeth yn ystod y nos. Gall cynlluniau mwy gael mwy nag un aelod staff ar ddyletswydd dros nos, ond nid yw hynny'n digwydd o reidrwydd ym mhob achos; er enghraifft mae gan gynllun ECH mwyaf Cymru ( 120 uned  ECH cymdeithas dai yn Abertawe)  1 aelod staff yn cysgu i mewn dros nos.

Darperir ymateb y tu allan i oriau gan y staff ar y safle dros nos; yn ymarferol golyga hyn os oes angen cymorth ar un o'r trigolion yn ystod y nos, pan ganant y larwm mae'r rhybudd yn mynd at yr aelod ar y safle ar gyfer ymateb.

Amrywia modelau o fewn ECH ond yn nodweddiadol gallai hyd at 30% o'r trigolion fod yn unigolion â lefelau o anghenion gofal yn draddodiadol a ddarperid o fewn cartrefi gofal preswyl. O ystyried bod cynlluniau ECH ar Ynys Môn yn debygol o fod ar raddfa lai, mae'n debygol y bydd angen i dros 30% o'r trigolion gael y lefel hon o ofal i ddarparu'r economïau graddfa angenrheidiol i gyfiawnhau gofal  24/7 ar y safle.

Yn ogystal, gall cynlluniau ECH fod yn fodd effeithiol o gefnogi rhai oedolion ag anableddau dysgu. Gall hyn fod drwy’r polisi dyrannu ar gyfer cynllun ECH sy’n cynnwys mynediad i’r cynllun ar gyfer oedolion ag anableddau dysgu, neu drwy ddyluniad gan gynnwys unedau penodol neu elfennau o’r adeilad yn benodol ar gyfer oedolion ag anableddau dysgu. Yn aml, gall hyn fod yn fodel tai a gofal mwy cost effeithiol na rhai modelau tai a rennir ar gyfer byw â chymorth ar gyfer oedolion ag anableddau dysgu oherwydd y cyfle am fwy o arbedion maint o ran costau gofal.

### 4.1.2. Costau a Chyllido Refeniw yn ECH

Costau yn ECH a sut y cânt eu cyllido

Y dasg gyllidol gyda ECH yw cyfuno ffynonellau gwahanol a mathau o ffrydiau refeniw i ddarparu gwasanaeth a gydlynwyd yn dda fel bod y cwsmer yn profii gwasanaeth integredig a llyfn. Yn y bôn mae a wnelo hyn â *chydbwysedd* costau y bydd preswylydd mewn ECH yn ysgwyddo a'r costau a ysgwyddir gan ffrydiau refeniw eraill fel arfer o'r awdurdod lleol neu wedi'u cynhyrchu gan y gymdeithas dai. Mae Tabl 4.1 isod yn dangos y prif elfennau cost mewn ECH, sut y cyllidir y costau hyn fel arfer a'r goblygiadau cyllido i'r awdurdod lleol.

Tabl 4.1 costau ECH: sut y cânt eu cyllido a goblygiadau i awdurdod lleol

| Elfen gost | Sut y cyllidir y costau | Goblygiadau i awdurdod lleol |
|---|---|---|
| Costau tai | Trwy rent neu bryniant prydles | I denantiaid (a pherchnogion tai cydecwiti) costau rhent yn dod o fudd-dâl tai i'r rhai cymwys. Dim effaith net ar yr ALl. |
| Costau rheoli a chynnal a chadw | Trwy wasanaeth neu gostau rheoli a godir ar breswylwyr | I denantiaid (a pherchnogion tai cydecwiti) costau rhent yn dod o fudd-dâl tai i'r rhai cymwys. Dim effaith net ar yr ALl |
| Costau cefnogi, yn cynnwys larwm cymunedol | Trwy dâl cefnogi a godir ar breswylwyr a/neu refeniw o'r awdurdod lleol; | Fel arfer yn cael ei gyllido gan awdurdod lleol i'r preswylwyr hynny sy'n derbyn budd-dâl tai. |
| Costau gofal | Trwy gyllid gofal gan yr awdurdod lleol net unrhyw gyfraniadau gan breswylwyr unigol; | Cyllidir gan yr awdurdod lleol i'r preswylwyr hynny ag anghenion gofal dilys wedi'u hasesu , net cyfraniadau unigol. |
| Cost darparu gwasanaeth prydau bwyd | Trwy daliadau gwasanaeth a godir ar breswylwyr neu daliadau defnydd uniongyrchol (Mae rhai cymdeithasau tai yn allanoli'r gwasanaeth arlwyo); | Telir yn uniongyrchol gan breswylwyr ac unrhyw gymhorthdal gan y gymdeithas dai (yn amrywio'n ymarferol). Dim effaith net i'r All. |
| Cost gweithgareddau hamdden, cymdeithasol ac iechyd | Trwy daliadau gwasanaeth a godir ar breswylwyr neu daliadau defnydd uniongyrchol (mae rhai cymdeithasau tai yn allanoli'r gwasanaethau hamdden a pherthynol i iechyd). | Telir yn uniongyrchol gan breswylwyr. Dim effaith net ar ALl. |

Mae Tabl 4.1. yn dangos mai elfennau cyllido allweddol yn ECH i'r awdurdod lleol yw'r costau gofal a chefnogi, neu o leiaf gyfran o'r costau hyn, gan ddibynnu ar gyfraniadau'r preswylwyr at gost gofal a chost cefnogaeth.

Fodd bynnag mae'n gynyddol bwysig i awdurdodau lleol a chymdeithasau tai i ystyried cydbwysedd y costau sy'n syrthio ar breswylwyr i'w cyllido'n uniongyrchol. Ffactorau sy'n gyrru hyn yw:

- Wrth i gyllid grant Llywodraeth Cymru ar gyfer tai cymdeithasol ostwng disgwylir y bydd angen cynnig mwy o unedau cynllun ECH i'w gwerthu'n glir ac ar gyfer gwerthiant cydecwiti, er mwyn helpu talu am gostau datblygu ac adeiladu.

- Yr angen i ddenu'r amrywiaeth mwyaf o bobl hŷn i ECH gan gynnwys y rhai sy'n berchnogion cartrefi ar hyn o bryd ac yn annhebygol o fod yn gymwys ar gyfer budd-dâl tai os symudir i gynllun ECH ac yn gyfrifol am y costau gwasanaeth a chefnogaeth lawn.

Mae hyn yn ystyriaeth bwysig gan fod fforddiadwyedd ECH ar gyfer preswylwyr cyfredol a rhai posibl eraill yn ffactor pwysig wrth sicrhau hyfywedd tymor hir cynllun ECH.

I egluro'r safbwynt mae tabl 4.2 yn gosod rhychwant y costau a'r cymorth ariannol perthynol ar gael, ac i wahaniaethu rhwng tenantiaid a pherchnogion-breswylwyr mewn ECH.

Tabl 4.2 Yr elfennau cost mewn tai gofal ychwanegol i denantiaid a pherchnogion.

| **Costau** | **Tenantiaid** | **Perchnogion breswylwyr** |
|---|---|---|
| Costau tai a chostau cynnal a chadw/rheoli tai | Taliadau rhent a gwasanaeth yn cael eu talu gan yr unigolyn ond yn cael ei dalu'n gyfan gwbl neu'n rhannol (trwy brawf modd) gan fudd-dâl tai | I'w dalu o bensiwn/adnoddau personol eraill. Gall cydberchennog cymwys ar gyfer budd-dâl tai gael costau rheoli tŷ a chynnal a chadw trwy Fudd-dâl Tai ar yr amod bod y lês wedi'i llunio'n gywir |
| Taliadau gwres, golau, ynni a dŵr unigol | I'w talu o bensiwn/adnoddau personol eraill | |
| Treth gyngor | I'w thalu o bensiwn/ adnoddau personol eraill –gall cynllun prawf modd treth cyngor fod yn gymwys. Gall ad-daliad person sengl a gostyngiad anabledd fod yn gymwys fel y bo'n briodol | |
| Cefnogaeth | O bosibl gan yr awdurdod lleol (yn hanesyddol trwy grant Cefnogi Pobl). Fel arall o bensiwn/adnoddau personol | Yn hanesyddol costau cefnogi'n cael eu talu gan berchnogion o'u hadnoddau eu hunain |
| Gofal personol a chefnogaeth | Yn dibynnu ar gymhwyster ar gyfer cyllid gofal awdurdod lleol fel arall i'w dalu o bensiwn/adnoddau personol eraill ac unrhyw lwfans gofal/taliadau anabledd. | |
| Help gyda gwaith yn y cartref, er enghraifft, glanhau (gofal heb fod yn bersonol) | Telir fel arfer o bensiwn/ adnoddau personol eraill a allai gynnwys Lwfans Gofal. | |

<u>Costau mewn ECH</u>

Mae'r costau gwirioneddol o fewn cynlluniau ECH yn amrywio'n sylweddol gan ddibynnu fel arfer ar faint y cynllun a rhychwant y cyfleusterau a gynigir. I osod costau mewn cyd-destun, mae tabl 4.3 yn dangos costau o fewn cynlluniau ECH am rent, taliadau gwasanaeth a thaliadau cefnogaeth. Tynnir hyn o Continuous Recording (CORE) gosodiadau a gwerthiannau tai cymdeithasol yn Lloegr, fodd bynnag mae costau cymharol ar gyfer cynlluniau ECH yng Nghymru yn debygol o fod yn debyg.

Tabl 4.3. Costau ar gyfer tai gofal ychwanegol o ddata CORE ar draws Lloegr (fesul wythnos)

| **ECH RHENT CYMDEITHASOL** | **Rhent** | **Taliadau Gwasanaeth** | **Taliadau Cefnogaeth** | **Costau cyfan (ac eithrio Gofal/cefnogaeth ychwanegol)** |
|---|---|---|---|---|

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Chwartel is | £65 | £20 | £10 | £95 |
| Cyfartaledd | £78 | £35 | £17 | £130 |
| Chwartel uwch | £90 | £50 | £30 | £170 |

Ffynhonnell: Pannell, J. & Blood, I. (2012) *Supported housing for older people in the UK: an evidence review*

Costau cymharol y cynllun ECH a ddatblygwyd yn ddiweddar yng Nghaergybi yw:

- Rhent yr wythnos: £89/1 gwely neu £95/2 wely
- Tâl gwasanaeth yr wythnos: £58.62
- Tâl cefnogaeth yr wythnos: £32.24

Fel y nodwyd yn adran 4.1.1. mae gan y cynllun ECH hwn fodel gwasanaeth a chyllid, hynny yw, lefel o gyllid o GSYM, nad yw'n gyson â sut mae CSYM yn dymuno datblygu cynlluniau ECH yn y dyfodol. Fe'i datblygwyd heb dîm gofal ar y safle a chyda cyllid o GSYM wedi'i 'wyro' at gostau cefnogaeth. Fodd bynnag mae cymharu â'r tabl uchod (o 2012)yn dangos er bod rhent, taliadau gwasanaeth a thaliadau cefnogaeth o fewn y chwartel uchaf, maent yn gyson â chynlluniau rhent cymdeithasol (cymdeithasau tai) ECH eraill.

Yn yr un modd mae gwaith diweddarach gan HSP a IBA i'r Joseph Rowntree Foundation ac ymgynghoriaeth fasnachol ar gyfer awdurdodau lleol yn adlewyrchu bod cynlluniau ECH cymdeithasau tai cyfredol (y tu allan i Lundain) yn codi taliadau rhent, gwasanaeth a chefnogaeth sy'n gyson â'r rhai yn nhabl 4.3 uchod. Fel arfer mae'r eithriadau mewn perthynas â datblygiadau pentref ymddeol mwy lle mae taliadau gwasanaeth wythnosol yn uwch (hyd at £100 yr wythnos mewn rhai achosion) gan adlewyrchu safon uchel iawn y cyfleusterau cymdeithasol, cymunedol a hamdden a gynhwyswyd yn y fath gynlluniau. Mae cynlluniau ECH ar Ynys Môn yn debygol o fod ar raddfa lai gyda llai o'r mathau hyn o gyfleusterau.

Mae'r costau gofal a ddarperir o fewn ECH wedi'u talu gan awdurdodau lleol mewn amryfal ffyrdd, fodd bynnag yn draddodiadol mae hyn wedi bod trwy ryw fath o drefniant 'cytundeb bloc' gyda swm o oriau gofal wedi'i bennu o fewn pris y cytunwyd arno. Fodd bynnag mae'r math o fodel gwasanaeth a amlinellir yn adran 4.2.1. (uchod), 'gwasanaeth craidd' gyda gofal yn 'ychwanegol',yn arwain awdurdodau lleol yn gynyddol, yn enwedig yng nghyd-destun cymorth wedi'i gyfeirio at y dinesydd a gwneud Taliadau Uniongyrchol, i sicrhau bod gofal ar gael ar raddfa glir a thryloyw fesul awr, i'r awdurdod lleol brynu neu i'r bobl hŷn brynu, nail ai trwy Daliad Uniongyrchol neu fel hunan gyllidwyr llawn. Mae adran 3 (isod) yn datblygu hyn ymhellach fel rhan o'r model ariannol ac arbedion.

O ystyried bod angen i ECH ar Ynys Môn fod yn ddewis arall i ddefnydd gofal preswyl, mae'n angenrheidiol i ddeall costau gofal preswyl a hefyd, yn bwysig, y berthynas rhwng cost gofal preswyl a gofal yn y cartref i GSYM.

Tabl 4.4. Costau gofal preswyl ac yn y cartref ar gyfartaledd i GSYM:

| **Costau gofal preswyl ar gyfartaledd** | **Costau gofal yn y cartref ar gyfartaledd** |
|---|---|
| 1. Cost yr wythnos £453.00<br>2. Cyfraniad cleient £120.00<br>3. Cost net yr wythnos i GSYM £333.00 | 4. Cyfradd fesul awr £14.50 (darparwr allanol)<br>5. Cyfraniad y cleient: hyd at £55 yr wythnos (cyfraniad wythnosol mwyaf yn seiliedig ar bolisi Llywodraeth Cymru). |

Mae Tabl 4.5 (isod) yn dangos y 'pwynt dymchwel' lle daw'n fwy cost effeithiol i GSYM gyllido person hŷn mewn gofal preswyl o gymharu â chyllido gofal yn y cartref i gadw person i fyw yn y gymuned.

Tabl 4.5. Cymhariaeth o gostau gofal yn y cartref a gofal preswyl i GSYM

| Gofal yn y cartref Oriau yr wythnos | Gofal yn y cartref: cost net i GSYM | Gofal preswyl: cost i GSYM |
|---|---|---|
| 10 | (10 x £14.50 - £55) = £90.00 | |
| 15 | (15 x £14.50 - £55) = £162.50 | |
| 20 | (20 x £14.50 - £55) = £235.00 | |
| 25 | (25 x £14.50 - £55) = £307.50 | |
| 27 | (27 x £14.50 - £55) = £336.50 | £333.00 |
| 30 | (30 x £14.50 - £55) = £380.00 | |

Mae tabl 4.5 yn dangos unwaith y bydd person hŷn yn derbyn dros 27 awr yr wythnos o ofal yn y cartref daw'n fwy cost effeithiol i GSYM i gyllido lleoliad gofal preswyl i'r unigolyn hwnnw. Yng nghyd-destun cynllun ECH, bydd yr un egwyddor yn gymwys (er y dibynna hynny ar y gyfradd yr awr a gyllidir o fewn cynllun ECH) a'r graddau y gall yr 'amgylchedd' gefnogol o fewn cynllun ECH leihau, neu arafu twf faint o ofal yn y cartref y bydd ei angen ar berson, yn enwedig o gymharu â derbyn gofal yn y cartref ond heb fod yn byw mewn ECH.

## 4.2. ECH Model Ariannol a Arbedion

### 4.2.1. Model Ariannol ECH

Seilir model ariannol hyfyw ar gyfer ECH ar Ynys Môn ar yr amgylchiadau lle gall ECH fod yn ddewis cost is o gymharu â modelau gofal eraill, yn benodol gofal preswyl ac, o bosibl, gofal yn y cartref yn y gymuned.

Mae'r amgylchiadau lle gall ECH fod yn ddewis cost is na gofal preswyl yn digwydd lle mae'r gymysgedd o amgylchedd cefnogol gyda darpariaeth 24/7 ar y safle yn golygu bod maint y gofal angenrheidiol ar gyfer person hŷn yn bosibl ar gost is na lleoliad mewn gofal preswyl (yn wahanol i ofal nyrsio).

Mae'r amgylchiadau lle gall ECH fod yn ddewis rhatach na gofal yn y cartref yn y gymuned yn seiliedig ar y pwynt lle mae gofal yn y cartref yn y gymuned yn agosau at neu wedi cyrraedd y 'pwynt trothwy' lle daw lleoliad gofal preswyl yn fwy cost effeithiol; a lle telir am ofal cartref o fewn ECH ar gyfradd is na gofal yn y cartref yn y gymuned (y rhesymeg y tu ôl i hynny yw nad oes costau teithio wrth ddarparu gofal cartref o fewn cynllun ECH ac mae gan y darparwr gyfle hefyd i dyfu a datblygu 'más critigol' o oriau gofal mewn cynllun ECH (sy'n anoddach i'w wneud i boblogaeth wasgaredig yn y gymuned ehangach).

Gosodir model ariannol ar gyfer ECH yn y taenlenni atodol, un ar gyfer Amlwch ac un ar gyfer Llangefni. Fe'i seilir ar:

- Ddarparu 'gwasanaeth craidd' sy'n cael cyllid o gefnogaeth wrth gefn CSYM (y cyfeiriwyd ato'n aml cyn hynny fel 'cefnogaeth berthynol i dai') a staff gofal ar y safle dros nos (yn darparu ymateb 24/7 effeithiol);
- Staff gofal ar y safle yn cael eu cyllido ar raddfa gytunedig fesul awr gan GSYM i gleientiaid cymwys.

Y bwriad yw cael model ariannol fel sail i GSYM i bennu'i fuddsoddiad mewn cynllun ECH mewn modd sy'n gyson ar draws pob cynllun gofal ychwanegol y gellid eu datblygu ar Ynys Môn, ac sy'n adlewyrchu cyfraniad rhesymol tuag at gostau darparu'r 'gwasanaeth craidd' gan y Darparwr ECH ac yn cynnig gwerth am arian i'r Cyngor.

Amlinellir y set lawn o ragdybiaethau sy'n sail i'r model ariannol ac arbedion yn Atodiad 1 isod.

### 4.2.2. ECH Model Ariannol: Cynilion amcangyfrifol

Amlinellir y model ariannol ar gyfer ECH yn y taenlenni atodedig, un ar gyfer Amlwch ac un ar gyfer Llangefni. Seilir y rhain ar:

- Y model gwasanaeth ECH a amlinellir yn adran 4.1.1. (uchod)
- Y rhagdybiaethau yn Atodiad 1.

Yn ychwanegol at y rhagdybiaethau uchod, cymerir hefyd y bydd cynllun ECH yn Amlwch yn darparu dewis arall ar wahân i gartref preswyl Brwynog ac y bydd cynllun ECH yn Llangefni yn darparu dewis arall yn Llangefni ar wahân i gartref preswyl Plas Penlan.

Mae gan Brwynog 29 lle a Phlas Penlan 27 lle. Cymerir y bydd cyfradd uchel o'r lleoedd hyn yn cael eu darparu mewn cynllun ECH fel dewis arall.

Ar gyfer cynllun ECH yn Amlwch a Llangefni mae'r model ariannol yn rhagdybio y gall model darparu staff dros nos fod naill ai'n 'gysgu i mewn' neu'n 'Effro dros nos' yn dibynnu ar y lefel a fesurwyd o anghenion y trigolion.

Mae tabl 4.6 yn crynhoi'r cynilion amcangyfrifedig posibl o ddatblygu cynllun ECH yn Amlwch a Llangefni fel dewis arall yn hytrach na gofal preswyl a phecynnau gofal yn y cartref yn y gymuned ar gyfer rhai cleientiaid.

Tabl 4.6. Arbedion posibl amcangyfrifedig

| **Model staff dros nos** | **Amlwch (ar sail cynllun ECH o 48 uned)** | **Llangefni (ar sail cynllun ECH o 60 uned)** |
|---|---|---|
| | Arbedion amcangyfrifedig y flwyddyn | Arbedion amcangyfrifedig y flwyddyn |
| Cysgu i mewn (1 staff) | £156,633 | £170,193 |
| Effro Nos (1 staff) | £139,362 | £152,922 |

Ffynhonnell: Taenlen/atodiadau ar gyfer Amlwch a Llangefni
Noder:

- Ar gyfer Amlwch mae'r rhaniad rhwng cleientiaid CSYM a gyfeirir o ofal preswyl a phecynnau gofal yn y gymuned yn 70%/30%
- Ar gyfer Llangefni mae'r rhaniad rhwng cleientiaid a gyfeirir o ofal preswyl a phecynnau gofal yn y gymuned yn 60%/40%

Mae'r grynodeb yn nhabl 4.6 yn dangos bod arbedion posibl amcangyfrifedig o ddatblygu ECH yn:

- Amlwch. Seiliedig ar gynllun 48 uned, rhwng £139,362 a £156,633 y flwyddyn
- Llangefni. Seiliedig ar gynllun 60 uned, rhwng £152,922 a £170,193 y flwyddyn

Effeithir yr arbedion amcangyfrifedig posibl yn bennaf gan:

- Faint y cynllun (nifer yr unedau);
- Cyfran yr holl unedau a lenwir gan gleientiaid CSYM sy'n gymwys ar gyfer cyllid gofal;
- Cydbwysedd cleientiaid CSYM rhwng y rheiny a 'arallgyfeirir' o ofal preswyl a'r rhai sy'n cael pecynnau gofal cartref yn y gymuned;
- Model staffio dros nos.

### 4.2.3. Cartrefi Gofal Preswyl CSYM: ECH fel Model Gwasanaeth amgen

Mae CSYM yn bwriadu rhesymoli'r chwe chartref gofal y mae'n eu rhedeg. Mae Tabl 4.7 yn crynhoi goblygiadau ariannol datgomisiynu, h.y. gwerthu neu drosglwyddo i ddarparwr arall, cartref Brwynog yn Amlwch a chartref Plas Penlan yn Llangefni.

Dangosir isod yr asesiadau ariannol blaenorol gan y Prisiwr Dosbarth ar gyfer y ddau gartref naill ai fel busnesau gweithredol neu yn nhermau gwerthu safleoedd wedi'u clirio ar gyfer eu hailddatblygu.

Tabl 4.7. Goblygiadau ariannol gwerthu'r cartrefi

| | **Brwynog** | **Plas Penlan** |
|---|---:|---:|
| Ar werth fel busnes gweithredol | £675,000 | £591,000 |
| Gwerthu safle wedi'i glirio ar gyfer ei ailddatblygu | £30,000 | £230,000 |

Ffynhonnell: Trawsnewid Gwasanaethau Gofal Preswyl ym Môn – Achos Busnes, 2012

Mae Tabl 4.8 (isod) yn crynhoi'r goblygiadau posibl o ran osgoi costau datgomisiynu Brwynog a Phlas Penlan (mewn perthynas â chostau nad ydynt yn rhai gofal).

Tabl 4.8. Osgoi costau: goblygiadau o ran datgomisiynu cartrefi preswyl y Cyngor

| | **Brwynog** | **Plas Penlan** |
|---|---:|---:|
| **Osgoi costau** | | |
| Lleiafswm cost brys ar gyfer dod â'r eiddo i fyny i safon dderbyniol (blwyddyn 1)<br>Y buddsoddiad sydd ei angen i gynnal safonau (Blwyddyn 2 a Blwyddyn 3) | £117,946<br><br>£140,000 | £208,983<br><br>£180,000 |
| Osgoi costau: cyfanswm | £257,946 | £388,983 |
| | | |
| **Costau datgomisiynu untro** | | |
| Costau Diswyddo Amcangyfrifiedig (untro) | £110,764 | £144,029 |
| Costau pensiwn ychwanegol amcangyfrifiedig ar gyfer staff>55 (untro) | £40,000 | £120,000 |
| Costau diogelu lleoedd ychwanegol mewn cartrefi gofal yn y sector preifat o ganlyniad i ddatgomisiynu (untro am hyd at 1 flwyddyn) | £77,342 | £75,164 |
| Is-gyfanswm | £228,106 | £339,193 |
| | | |

Ffynhonnell: Trawsnewid Gwasanaethau Gofal Preswyl ym Môn – Achos Busnes, 2012
Rhagdybiaethau:
Darperir y rhan fwyaf o'r capasiti a gollir, os bydd y ddau gartref yn cau, yn y cynlluniau ECH newydd.
Costau diogelu cartrefi gofal sector preifat ychwanegol o ganlyniad i ddatgomisiynu: tybiwyd efallai bod angen lleoli 25% o gleientiaid mewn cartrefi gofal sector preifat
Ni thybir unrhyw oblygiadau o ran TUPE

Mae'r holl ffigyrau ar gyfer 2012/13

Y prif enillion ariannol yw:

- Y derbyniadau cyfalaf posibl o ganlyniad i werthu neu drosglwyddo;
- Osgoi costau nad ydynt yn rhai gofal o ganlyniad i ddatgomisiynu'r ddau gartref.

## 4.3. Crynodeb a Goblygiadau

Crynodeb Amlwch: Datblygu cynllun ECH a chau/trosglwyddo Brwynog

- Datblygu ECH: Arbedion amcangyfrifedig o ran arian parod o £139,362 - £156,633 y flwyddyn
- Osgoi costau (dros 3 blynedd) o ganlyniad i ddatgomisiynu Brwynog: £257,946
- Gwerthu'r safle: Derbyniad cyfalaf amcangyfrifedig o £30,000
- Gwerthu fel busnes gweithredol: derbyniad cyfalaf amcangyfrifedig o £675,000

Crynodeb Llangefni: Datblygu cynllun ECH a chau/trosglwyddo Plas Penlan

- Datblygu ECH: Arbedion amcangyfrifedig o £152,922 - £170,193 y flwyddyn
- Osgoi costau (dros 3 blynedd) o ganlyniad i ddatgomisiynu Plas Penlan: £388,983
- Gwerthu'r safle: Derbyniad cyfalaf amcangyfrifedig o £230,000
- Gwerthu fel busnes gweithredol: derbyniad cyfalaf amcangyfrifedig o £591,000

Seilir y gwasanaeth ECH a gynigir a'i fodel cyllido ar gyfran uwch nac arferol o gleientiaid ag anghenion gofal uchel (y rheiny a 'arallgyfeiriwyd' o ofal preswyl).

Nid yw ECH yn ddewis 'hawdd' i gyflawni arbedion; mae angen rheolaeth ofalus ar y broses cyflawni arbedion o symud oddi wrth ddibyniaeth ar ofal preswyl i ddefnydd ECH, yn strategol ac yn weithredol. Gall ECH ddarparu arbedion fel dull amgen i ddefnyddio gofal preswyl ar gyfer rhai pobl os:

- Yw'r model arbedion yn glir ac yn bosibl;
- Uchafir ffrydiau cyllid ar gael mewn ECH heb fod o GSYM, hynny yw taliadau a godir gan y darparwr ECH, yn uchafu'r buddion i breswylwyr a darparwr yr ECH yn gwneud y mwyaf o incwm a enillir o ddefnydd y cyfleusterau;
- Gellir darparu'r model cyllido a gynigir yn ymarferol gan ddarparwr ECH;
- Mae CSYM yn sicrhau bod model gwasanaeth ' a gomisiynwyd ar y cyd' yn nhermau gofal a chefnogaeth.

Mae ansawdd y gwasanaeth gweithredol o fewn ECH a'r graddau y mae'r gefnogaeth waelodlin yn 'galluogi' yn allweddol i greu'r amgylchedd lle gwneir y mwyaf o annibyniaeth preswylwyr a dibyniaeth ar ofal personol uniongyrchol yn cael ei leihau. Mae hyn yn cynnwys y graddau y gall y gefnogaeth dros nos sydd ar gael o fewn cynllun ECH reoli anghenion gofal sy'n digwydd yn ystod y nos (fel arfer bydd hyn yn pennu a yw'n cysgu i mewn neu'n effro nos).

Mae gan ymarfer gweithiwr cymdeithasol/rheolwr gofal ddylanwad allweddol ar y graddau y gellir defnyddio ECH fel dewis amgen hyfyw i leoliadau preswyl a phecynnau gofal cartref uchel; yn rhannol fel arfer cymysgedd yw hyn o'r ymwybyddiaeth o faes cyfrifoldeb ECH, y

lefelau uwch o ddibyniaeth y gellir eu cyflawni a pharhau i ddarparu cymorth wed i berson hŷn symud i ECH i fonitro effeithiolrwydd y pecyn cefnogaeth a gofal (yn ogystal â chefnogaeth anffurfiol arall sy'n digwydd yn aml o fewn cynlluniau ECH, er enghraifft gan deuluoedd a chymdogion).

Mae gofyn i ECH fod yn ddewis arall digon deniadol (i berson hŷn) o gymharu â lleoliad mewn cartref gofal preswyl a phecyn uchel o ofal yn y cartref yng nghartref cyfredol y person.

### 4.4. ECH: Cyllid Cyfalaf

Mae cyllid cyhoeddus i sybsideiddio costau cyfalaf datblygu tai gofal ychwanegol ar ffurf Grant Tai Cymdeithasol ar gael i RSLau yn debygol o gael ei ostwng yn yr amgylchedd cyfredol o gyllid cyhoeddus cyfyngedig iawn.

Mae'r twf a ragwelir yn y boblogaeth hŷn gyda salwch ac anabledd cynyddol, ynghyd â lefelau cymharol uchel o berchnogaeth cartrefi, yn golygu bydd mwy o bobl yn medru a mwy na thebyg y disgwylir iddynt dalu am neu tuag at gartref o fewn datblygiad gofal ychwanegol yn ogystal â thuag at rai o'r gwasanaethau gofal, cefnogaeth ac eraill.

Y cyd-destun cyllido ar gyfer datblygiad pellach tai gofal ychwanegol yw:

- Er mwyn i'r datblygiad gofal ychwanegol fod yn hyfyw bydd angen i bartner datblygu ystyried darparu cyfran fwy o'r unedau a ddatblygir ar gyfer gwerthiant prydles, un ai yn llwyr neu trwy ryw ffurf o gydberchnogaeth.
- Er mwyn i hyn ddigwydd, bydd angen i bobl hŷn sy'n berchnogion drigolion yn eu cartrefi presennol ganfod datblygiadau gofal ychwanegol digon deniadol i fod eisiau prynu fflat.
- Fodd bynnag mae RSLau yng Nghymru wedi cael trafferth i werthu unedau mewn cynlluniau gofal ychwanegol. Bydd gweithio gyda RSLau lleol a mudiadau eraill a lwyddodd i werthu tai gofal ychwanegol mewn mannau eraill yn hanfodol i gyflawni cynlluniau yn y dyfodol.
- Mae'n bosibl y bydd angen cyllido unedau rhent fforddiadwy mewn datblygiad gofal ychwanegol, yng nghyd-destun y lleihad yn y Grant Tai Cymdeithasol fydd ar gael, yn rhannol trwy sybsidi o unedau ar werth a/ neu gyfraniadau o dir am bris is na'r farchnad.

Lluniwyd adroddiadau dewis safleoedd gan y Cyngor mewn perthynas â datblygu ECH yn Amlwch a Llangefni. Mae safle a ffefrir wedi'i ganfod yn Amlwch, sef tir ym mherchnogaeth y Cyngor ym Maes Mona. Nid yw safle a ffefrir wedi'i ganfod yn Llangefni eto.

Er mwyn i ddatblygiad ECH fod yn ddigon deniadol yn ariannol i bartner datblygu, mae'n debygol y bydd angen i safleoedd a ffefrir sydd ym mherchnogaeth y Cyngor fod ar gael i bartner datblygu am bris is na'r farchnad. O ran unrhyw gyfraniad ariannol o'r fath, bydd angen asesiad o'r cyfnod ad-dalu ariannol ar gyfer y Cyngor yn seiliedig ar asesiad o'r arbedion ariannol rhagamcanol ynghyd â'r costau rhagamcanol sy'n cael eu hosgoi sy'n gysylltiedig â datblygu a defnyddio ECH yn lle defnyddio gofal preswyl.

## 5. Yr Achos Masnachol

**Crynodeb**

Nid oedd pobl hŷn oedd wedi rhoi eu barnau eisiau byw mewn cartref gofal preswyl.

Mae pobl hŷn yn rhoi gwerth uchel iawn i gynnal eu hannibyniaeth.

Gall yr opsiwn i symud i gartref llai, sy'n haws ei reoli, sy'n hygyrch ac wedi'i leoli'n gyfleus, fel ECH, brofi i fod yn ddeniadol i nifer sylweddol o bobl.

Mae'r bob un o'r Cymdeithasau Tai yr ymgynghorwyd â hwy yn ystyried bod Ynys Môn yn lleoliad addas ar gyfer datblygiad ECH, fodd bynnag, tra bod ganddynt ddiddordeb mewn datblygu ECH yn Llangefni, nid yw yr un ohonynt ar hyn o bryd wedi ymrwymo i ddatblygu ECH yn Amlwch.

Mae'r adran hon o'r achos busnes yn asesu'r achos masnachol ar gyfer ECH yn Amlwch a Llangefni. Gwnaed hyn drwy 'brofi realiti' y rhagdybiaethau a'r model ECH arfaethedig drwy:

- Hwyluso trafodaethau ynghylch tai gofal ychwanegol gyda dau grŵp o bobl hŷn yn y ganolfan Heneiddio'n Dda yn Amlwch ac un grŵp yn Llangefni (yn cynnwys aelodau o bwyllgor llywio'r Grŵp Dros 50 Oed). Cafwyd rhwng 6 a 12 o gyfranogwyr ym mhob un o'r tri grŵp;
- Dadansoddi'r 212 o ymatebion i holiadur 'Dweud eich dweud' y Cyngor a ddosbarthwyd i bobl yn nalgylch Amlwch. Roedd y sampl yn cynrychioli cyfuniad da yn nhermau grwpiau oedran, rhyw, deiliadaeth a'r rheiny fu'n byw ym Môn ar hyd eu hoes neu am y rhan fwyaf ohoni, o gymharu â'r rheiny oedd wedi symud i mewn i'r ardal i ymddeol. Mae holiadur profi'r farchnad 'Dweud eich dweud' ar y gweill ar gyfer Llangefni.
- Cynnal trafodaethau â phartneriaid RSL lleol y Cyngor mewn perthynas â'r model/au ECH arfaethedig ynghyd â phrofi dichonoldeb datblygu yn Amlwch a Llangefni.

### 5.1. Y Galw am ECH: Barnau Pobl Hŷn

Teimlai 94% o ymatebwyr yr arolwg bod eu cartref presennol yn addas ar eu cyfer ar hyn o bryd ond nid oedd ond hanner ohonynt yn hyderus y byddai pethau yr un fath yn y dyfodol. Maint yr ardd a'r tŷ oedd yr eglurhad mwyaf cyffredin am hyn (gyda 42 a 34 o bobl, yn y drefn honno, yn cyfeirio at y rhain); y gost o gynnal/gwresogi'r eiddo a ddaeth nesaf (gyda 21 o bobl yn cyfeirio at y ddau); cyfeiriwyd at anhygyrchedd yr eiddo neu ei leoliad ynysig gan grŵp llai o bobl ond a oedd yn dal i fod yn sylweddol (18 a 11 yn y drefn honno). Mae hyn yn awgrymu y dylai opsiynau i symud i eiddo llai, y gellir ei reoli'n haws, sy'n fwy hygyrch ac mewn lleoliadau hwylus fod yn ddeniadol i niferoedd sylweddol o bobl. Yn ogystal, gall dangos neu warantu y byddai costau gwresogi a chynnal yn is mewn tai gofal ychwanegol nag mewn cartref 3 llofft nodweddiadol fod yn ffactor i berswadio rhai.

### 5.1.1. Agweddau tuag at ofal preswyl a ECH fel dewis amgen

Roedd yr holl bobl y cawsom siarad â hwy yn glir iawn - nid oeddynt eisiau byw mewn cartref gofal preswyl. Roedd y mwyafrif o bobl yn deall y gwahaniaeth rhwng gofal preswyl, lle “nid oes gan rywun ond eu hystafell gyda llawer o bobl yn eistedd mewn cadeiriau mewn ystafell gymunol fawr”, yn erbyn ECH lle cewch eich lle eich hun a phreifatrwydd. Roedd y mwyafrif o bobl y cawsom siarad â hwy yn rhoi gwerth mawr i gynnal eu hannibyniaeth, er enghraifft drwy allu coginio, glanhau a gofalu am eu hunain, a gallu mynd a dod yn ôl eu dymuniad, gyda lle i groesawu ymwelwyr ac i ddilyn eu hobïau. Roedd gan lawer o’r bobl hŷn y buom yn siarad â hwy lefel dda o wybodaeth a dealltwriaeth am ECH a sut y mae’n gweithio. Serch hynny, roedd rhai’n teimlo y byddai angen bob amser am leoliadau gofal dwysach ar gyfer y rheiny oedd yn dioddef dementia datblygedig ac/neu a oedd angen gofal nyrsio.

Dywedodd 5% o ymatebwyr yr arolwg eu bod eisoes yn byw mewn cartref gofal a chafwyd pedwar sylw cadarnhaol yn benodol ynghylch y gwasanaeth a dderbyniwyd ym Mrwynog. Dywedodd y mwyafrif o bob y byddai’n well ganddynt aros yn eu cartref eu hunain (neu symud i dŷ llai/mwy hygyrch) a derbyn cefnogaeth adref pe baent yn datblygu anghenion gofal. O ran yr opsiynau eraill, roedd symud i dai gwarchod ychydig yn fwy poblogaidd na thai gofal ychwanegol yn Amlwch ynghyd â symud i mewn gydag aelodau teulu. Symud i ofal preswyl, ac wedyn symud i dai gofal ychwanegol mewn ardal arall oedd y dewisiadau lleiaf poblogaidd.  Serch hynny, fel y nodwyd gan aelodau grŵp ffocws Llangefni, “mae ar bobl angen gwybod beth ydy tai gofal ychwanegol gyn talu mynegi barn yn ei gylch”.

Yn ddiddorol iawn, pan ofynnwyd i bobl pa mor bwysig y byddai rhai o nodweddion unigol tai gofal ychwanegol iddynt pe baent yn ystyried symud, roedd y canlyniadau’n glir. Dywedodd 93% y byddai ‘byw yn annibynnol (h.y. cael eich drws ffrynt eich hun, a chegin, ystafell fyw ac ati), hyd yn oed pe bai arnoch angen cefnogaeth gan eraill’ yn ‘bwysig iawn’; dywedodd y 7% oedd yn weddill y byddai’n ‘eithaf pwysig’. Mae’n debygol mai’r ffactor hwn, yn ogystal â’r trydydd mwyaf poblogaidd (‘gallu byw efo partner ac/neu gael ffrindiau neu aelodau o’r teulu i aros dros nos’) yw’r ddau brif wahaniaeth rhwng modelau tai a gofal cymdeithasol. Y ffactor pwysicaf ond un fyddai ‘gwybod bod darpariaeth gofal a chymorth ar y safle ac y gellir cael help yn gyflym yn ystod y dydd neu’r nos’ – dyma’r gwahaniaeth allweddol rhwng modelau gwarchod a gofal ychwanegol.

Serch hynny, roedd rhai o’r rheiny y buom yn siarad â hwy wedi codi cwestiynau a phryderon ynghylch sut y byddai ECH yn cydweddu â gweddill y system gofal cymdeithasol ac yn effeithio arni. A fyddai hyn yn gwyrdroi polisi presennol y Cyngor o geisio eich cefnogi yn eich cartref eich hun mor bell â phosib? A oedd hyn yn rhan o gynlluniau’r Cyngor neu’n wahanol iddynt o ran ‘hybiau cymunedol’ a beth fyddai goblygiadau hyn ar gyfer y gwasanaethau Heneiddio’n Dda poblogaidd a hanfodol? A fyddai ECH ddim ond ar gyfer pobl â dementia? Cafwyd rhai pobl nad oedd ganddynt ffydd yn y Cyngor: bydd eglurder a thryloywder yn hanfodol wrth fynd ymlaen a hwyrach y bydd rhai pobl yn fwy parod i weithio â chymdeithas dai.

### 5.1.2. Fforddiadwyedd

Roedd y rheiny y buom yn siarad â hwy yn pryderu ynghylch p’un a allent fforddio’r holl daliadau gwasanaeth  ychwanegol ynghyd â chostau gofal posibl ar ben y rhent sylfaenol/cost gychwynnol prynu uned ar les. Teimlent fod llawer o ansicrwydd mewn perthynas â fforddiadwyedd hirdymor ECH, er y cytunodd y mwyafrif y byddai gwybodaeth

wirioneddol glir am beth yn union y byddai ECH yn ei gostio yn eu helpu i wneud penderfyniad am hyn.

Yn yr arolwg, roedd mwy o bobl wedi dweud eu bod yn pryderu ynghylch fforddiadwyedd *gofal* yn y dyfodol yn hytrach na fforddiadwyedd tanwydd/gwresogi neu gostau byw cyffredinol. Roedd 57% yn disgwyl gorfod talu tuag at gostau gofal ac nid oeddynt yn hyderus y gallent fforddio hyn yn gyfforddus.

**5.1.3. Deiliadaeth**

Roedd ymatebion yr arolwg mewn perthynas â deiliadaeth yn ddiddorol. Dywedodd 70% o'r holl ymatebwyr eu bod yn berchen-feddianwyr ac roedd y mwyafrif helaeth ohonynt eisiau'r opsiwn i symud i rywle fyddai'n eiddo iddynt yn gyfan gwbl neu'n rhannol pe bai arnynt angen symud. Dywedodd 66% o berchen-feddianwyr bod hyn yn 'bwysig iawn' a dywedodd 21% ei fod yn 'eithaf pwysig'. NId yw hyn o reidrwydd yn golygu y byddai bob un o'r bobl hyn yn ystyried prynu uned mewn cynllun gofal ychwanegol one mae'n pwysleisio pwysigrwydd cynnig yr opsiwn hwn er mwyn atal tua hanner y bobl hŷn rhag troi yn erbyn y syniad yn syth oherwydd y ffaith nad yw'r opsiwn hwn ar gael o ran deiliadaeth.

Yn ein sgyrsiau â phobl hŷn lleol, dywedodd rhai pobl hwyrach y byddent yn ystyried prynu eiddo ar les mewn datblygiad ECH os oedd yn ddigon deniadol a fforddiadwy; fodd bynnag, roeddynt yn ymwybodol hefyd o rai o'r materion mewn perthynas â chronfeydd ad-dalu, ffioedd ymadael, a thaliadau cynnal unwaith ac am byth a dywedwyd y byddai arnynt angen gwybodaeth glir gan ddarparwr y teimlent y gellid ymddiried ynddo.

Mae natur y farchnad dai yn fater i'w ystyried hefyd - dywedwyd fod prisiau tai, yn enwedig yn Amlwch, yn gymharol isel a gall gymryd amser hir i werthu eiddo, yn yr ardal honno ac weithiau yn Llangefni. Teimlodd rhai y gall hyn fod yn rhwystr rhag prynu fflat mewn ECH. Byddai gan rai pobl ddiddordeb mewn unrhyw 'gynllun' y gallai cymdeithas dai neu'r Cyngor ei ddatblygu i helpu pobl i werthu. Roedd y mwyafrif o bobl yn cytuno gyda'r syniad o fodel ddeiliadaeth gymysg h.y. un sy'n cynnwys opsiynau i bobl mewn gwahanol amgylchiadau ariannol ac sy'n ffafrio gwahanol fathau o ddeiliadaeth.

**5.1.4. Elfennau cynllun ECH da**

Pan ofynnwyd i ymatebwyr yr arolwg raddio pwysigrwydd 8 agwedd wahanol ar leoliad y byddent efallai'n ystyried symud iddo yn y dyfodol, graddiwyd ystyriaethau o ran lleoliad daearyddol yn bedwerydd ac yn bumed, gyda mynediad i siopau, iechyd, cyfleusterau hamdden ac ati, ac wedyn mynediad i gludiant cyhoeddus. Yn ein sgyrsiau â phobl hŷn yn Amlwch a Llangefni, teimlai pobl y byddai lleoliad da (eithaf gwastad yn ddelfrydol) a difyr, sy'n agos i amwynderau a chludiant cyhoeddus yn bwysig iawn er mwyn i gynllun ECH fod yn ddeniadol. Roedd pobl yn deall bod cyfleusterau ychwanegol a rennir yn cynyddu costau a hwyrach na fyddent yn ymarferol mewn cynllun llai; roeddynt yn cydnabod yr angen i gael cydbwysedd rhwng fforddiadwyedd, maint y cynllun a chreu rhywbeth moethus.

Os oedd pob un neu'r mwyafrif o'r nodweddion oedd yn fwyaf pwysig i bobl ar gael, yna byddai 65% yn ystyried byw yn Amlwch, 9% yn Llangefni, dywedodd 18% 'yn unrhyw le ym Môn' a chyfeiriodd 17% tuag at leoliadau eraill ar yr ynys (nid oedd patrwm clir yma). Roedd rhai wedi ticio mwy nag un o'r opsiynau hyn; serch hynny, dywedodd 19% na fyddent yn ystyried symud.

Yn ein sgyrsiau, pwysleisiodd pobl bwysigrwydd trefniadau rheoli ardderchog ynghyd â dyrannu gofalus er mwyn cyflawni cymuned gytbwys a chytûn o bobl ar draws ystod o grwpiau oedran, gydag ystod o anghenion gofal (gan gynnwys dementia) ac efallai cynnwys tenantiaid cymdeithasol a lesddeiliaid. Mynegodd rhai pryderon ynghylch pwy allai symud i'r lle drws nesaf a ph'un a fyddai'r meini prawf ar gyfer derbyniadau yn cael llacio mewn amser (fel yn achos rhai cynlluniau tai gwarchod) pe bai problemau o ran y galw am lefydd yn y dyfodol. Bydd eglurder o ran cymhwysedd (yn nhermau oedran, cysylltiadau â'r ardal leol, ac anghenion gofal) a ph'un a fydd caniatâd i gael anifeiliaid anwes yn bwysig.

**5.1.5. Y Camau Nesaf**

Cafwyd synnwyr cyffredinol bod angen i'r Cyngor wneud 'llawer o ymchwil' er mwyn cael y cwbl o hyn yn iawn. Yn benodol, teimlai pobl bod angen am ragor o 'ymchwil marchnad' gyda phobl leol ac y dylid ymrwymo grwpiau o bobl hŷn sy'n bodoli eisoes yn y cynlluniau sy'n datblygu. Roedd pobl yn awyddus i glywed rhagor am y gwahanol fathau o fodelau ac i gael y cyfle i'w deall ac i fwydo eu barnau yn ôl.

**5.2. Datblygu ECH: Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig**

Cynhaliwyd cyfarfodydd unigol gyda thair cymdeithas dai sy'n bartneriaid (RSL):

- Cymdeithas Tai Pennaf;
- Cymdeithas Tai Gogledd Cymru;
- Grŵp Cynefin.

Cynhaliwyd trafodaethau mewn perthynas â:

- Tystiolaeth o'r angen am ECH yn Amlwch, Llangefni a lleoliadau eraill ym Môn;
- Modelau o ECH;
- Ystyriaethau ariannol gan gynnwys y cyfuniad o ddeiliadaethau;
- Ystyriaethau o ran comisiynu;
- Safleoedd a lleoliadau.

Crynhoir canlyniadau'r cyfarfodydd hyn yn nhabl 5.1 (isod).

Tabl 5.1 Crynodeb o ganlyniadau cyfarfodydd ag RSLau

| | **Tai Pennaf** | **Cymdeithas Tai Gogledd Cymru** | **Grŵp Cynefin** |
|---|---|---|---|
| Tystiolaeth o'r angen am ECH yn Amlwch, Llangefni a lleoliadau eraill ym Môn | Yn derbyn yr angen am ECH ym Môn mewn lleoliad 'yn ne'r ynys' ac yn Llangefni.<br><br>Ddim yn derbyn y dystiolaeth o'r angen am ECH y Amlwch | Yn derbyn yr angen am ECH ym Môn mewn lleoliad 'yn ne'r ynys' ac yn Llangefni.<br><br>Ddim yn derbyn y dystiolaeth o'r angen am ECH y Amlwch | Yn derbyn yr angen am ECH ym Môn mewn lleoliad 'yn ne'r ynys' ac yn Llangefni.<br><br>Ddim yn derbyn y dystiolaeth o'r angen am ECH y Amlwch |
| Modelau ECH | Mewn cynlluniau presennol y nhw yw'r landlord a'r darparwr cymorth mewn rhai cynlluniau (yn dibynnu ar drefniadau comisiynu'r awdurdod lleol).<br>Y darparwyr gofal yw naill ai'r awdurdod lleol neu ddarparwr a benodwyd gan yr awdurdod lleol | Mewn cynlluniau presennol y nhw yw'r landlord a'r darparwr cymorth mewn rhai cynlluniau (yn dibynnu ar drefniadau comisiynu'r awdurdod lleol).<br>Y darparwyr gofal yw naill ai'r awdurdod lleol neu ddarparwr a benodwyd gan yr awdurdod lleol | Mewn cynlluniau presennol y nhw yw'r landlord a'r darparwr cymorth mewn rhai cynlluniau (yn dibynnu ar drefniadau comisiynu'r awdurdod lleol).<br>Y darparwyr gofal yw naill ai'r awdurdod lleol neu ddarparwr a benodwyd gan yr awdurdod lleol |
| Ystyriaethau ariannol gan gynnwys y cyfuniad o ddeiliadaethau | Mae pob cynllun presennol i'w rhentu. Nid oes hanes o werthiannau o fewn cynlluniau ECH. | Mae pob cynllun presennol i'w rhentu. I raddau bach, ceisiwyd annog gwerthiannau a gwerthiannau ecwiti a rennir ond ddim yn llwyddiannus hyd yma. | Mae pob cynllun presennol i'w rhentu. Nid oes hanes o werthiannau o fewn cynlluniau ECH. |
| Ystyriaethau o ran comisiynu | Diddordeb naill ai mewn bod yn landlord ac yn ddarparwr cefnogaeth neu ddim ond yn landlordiaid.<br>Ddim diddordeb mewn bod yn | Diddordeb naill ai mewn bod yn landlord ac yn ddarparwr cefnogaeth neu ddim ond yn landlordiaid.<br>Efallai yn ystyried bod yn ddarparwr | Diddordeb naill ai mewn bod yn landlord ac yn ddarparwr cefnogaeth neu ddim ond yn landlordiaid.<br>Yn mynd ati'n weithredol i ystyried |

| | **Tai Pennaf** | **Cymdeithas Tai Gogledd Cymru** | **Grŵp Cynefin** |
|---|---|---|---|
| | ddarparwr gofal cartref.<br><br>Yn barod i ystyried model ECH sy'n cynnwys 'hyb cymunedol'. Mae Pennaf wrthi ar hyn o bryd yn datblygu cynllun yn Wrecsam a fydd yn cynnwys 'hyb iechyd' er bod angen cadarnhau'r manylion terfynol. | gofal cartref yn y dyfodol.<br><br>Yn barod i ystyried model comisiynu lle mae landlord hefyd yn darparu cefnogaeth/ cefnogaeth dros nos gyda gofal cartref ar gael i gleientiaid drwy daliadau uniongyrchol.<br><br>Yn barod i ystyried model ECH sy'n cynnwys 'hyb cymunedol'. | bod yn ddarparwr gofal cartref yn y dyfodol gan gynnwys o fewn ECH.<br>Yn barod i ystyried model comisiynu lle mae landlord hefyd yn darparu cefnogaeth/ cefnogaeth dros nos gyda gofal cartref ar gael i gleientiaid drwy daliadau uniongyrchol.<br><br>Yn awyddus i gynnwys 'hyb cymunedol' fel rhan o fodel ECH. |
| Safleoedd a lleoliadau | Mynegwyd diddordeb mewn datblygu ECH mewn lleoliad 'yn ne'r ynys' ond nid yn Llangefni neu Amlwch | Mynegwyd diddordeb mewn datblygu ECH mewn lleoliad 'yn ne'r ynys' ac yn Llangefni ond nid yn Amlwch.<br>Yn ymwybodol o safleoedd posibl yn Llangefni ond roedd asesiad wedi'u canfod yn anaddas. | Mynegwyd diddordeb mewn datblygu ECH mewn lleoliad 'yn ne'r ynys' ac yn Llangefni ond nid yn Amlwch (serch hynny, gweler isod ynghylch Partneriaeth Cyd-Fenter bosibl). |

I grynhoi, roedd diddordebau yr RSLau o ran datblygu ECH ym Môn fel a ganlyn:

- Pennaf – ‘yn ne’r ynys’ (lleoliad i’w benderfynu);
- CTGC – Llangefni ac ‘yn ne’r ynys’ (lleoliad i’w benderfynu);
- Grŵp Cynefin - Llangefni ac ‘yn ne’r ynys’ (lleoliad i’w benderfynu).

Roedd yr holl drafodaethau â’r RSLau yn adeiladol iawn ac yn ystyried bod Ynys Môn yn lleoliad addas ar gyfer datblygu ECH, serch hynny nid yw unrhyw un ohonynt ar hyn o bryd wedi ymrwymo i ddatblygu ECH yn Amlwch.

Efallai y gall Grŵp Cynefin ystyried Amlwch ( o bosibl) pe bai’n rhan o’r hyn a elwir ganddynt yn ‘bartneriaeth cyd-fenter’ gyda’r Cyngor. Gwelant hyn fel model ariannu a busnes amgen (rhyngddynt hwy a’r Cyngor) lle bydd y naill a’r llall yn sefydlu ‘partneriaeth cyd-fenter’, gan ymrwymo arian gan y ddwy ochr, ac yna geisio buddsoddiad gan y sector preifat mewn nifer o gynlluniau ECH posibl.

Gallai opsiynau amgen i’w hystyried ar gyfer cyflawni rhyw fath o ECH yn Amlwch gynnwys; i grynhoi:

- Datblygu ECH yn Llangefni ac mewn lleoliad ‘yn ne’r ynys’ yn gyntaf ac yna benderfynu p’un a ellir perswadio partner i ddatblygu yn Amlwch;
- Ystyried defnyddio’r model ‘partneriaeth cyd-fenter’ a awgrymwyd gan Grŵp Cynefin;
- Asesu a phrisio’r posibiliadau o ran defnyddio’r cynllun tai gwarchod presennol yn Amlwch fel ECH (ond ar raddfa lai nag adeiladu ECH newydd). Byddai hyn yn gofyn am asesiad o’r cynllun/asedau (fel y gwnaed mewn cynllun tai gwarchod yn Llangefni) i asesu dichonoldeb, costau ac addasrwydd y safle ar gyfer adeilad newydd cyfyngedig o ran maint ochr yn ochr â’r unedau tai presennol.
- Canfod a chael trafodaethau â datblygwyr eraill yn y sector preifat i brofi eu parodrwydd i ystyried datblygu ECH yn Amlwch.
- Profi dichonoldeb cynnig cartref preswyl Brwynog i bartneriaid ECH posibl fel rhan o gyfle datblygu mwy yn Amlwch.

Tra hwyrach bod pob un o’r rhain yn bosibl, nid ydynt ar hyn o bryd yn darparu partner cyflenwi y gellir ei adnabod ar gyfer  Amlwch.

Mae CTGC a Grŵp Cynefin yn bartneriaid cyflenwi posibl ar gyfer ECH yn Llangefni.

Yn ogystal, mae CTGC, Pennaf a Grŵp Cynefin yn ystyried  bod ‘de’r ynys’ yn lleoliad posibl ar gyfer cynllun ECH.

# 6. Yr Achos Rheoli

**Crynodeb**

Mae ystyriaethau allweddol mewn perthynas â chomisiynu ECH yn cynnwys:

- Yr angen i ECH ddarparu dewis hyfyw arall yn lle'r defnydd o ofal preswyl;
- Yr angen i gyflawni arbedion ac effeithiolrwydd ariannol ar gyfer y Cyngor;
- Yr angen i ddenu Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig neu gyrff sefydliadau eraill i ystyried datblygu ECH ym Môn;
- Osgoi'r 'model' comisiynu a fabwysiadwyd ym Mhenucheldre.

Dylai 'gwasanaeth craidd' integredig, sy'n cynnwys cefnogaeth 24/7 ar y safle ynghyd â staff i roi gofal dros nos, ynghyd â phecynnau ychwanegol personol o ofal cartref fel y bo angen alluogi cynllun ECH i weithredu fel dewis effeithiol (ac yn rhatach yn gyffredinol) yn lle gofal preswyl.

Bydd y Cyngor yn gweithio o fewn y canllawiau caffael priodol i sicrhau y cyflawnir gwerth gorau a bod y drefn briodol yn cael ei dilyn.

Mae'r adran hon yn nodi'r ystyriaethau comisiynu a chaffael ynghyd ag opsiynau o ran datblygu ECH yn Amlwch a Llangefni.

### 6.1. Fframwaith Comisiynu: Tai, llety a chefnogaeth gysylltiedig ar gyfer pobl hŷn

Mae adroddiad CSYM *Asesiad Anghenion Pobl Hŷn 2013-2033. Tai, Llety a Chefnogaeth Gysylltiedig,* yn nodi fframwaith comisiynu fel 'model' ar gyfer sut y bydd y Cyngor yn comisiynu, yn darparu ac yn dylanwadu ar wasanaethau er mwyn cyflawni ei flaenoriaethau ac yn diwallu'r anghenion a nodwyd ganddo ymhlith y boblogaeth o bobl hŷn. O'r asesiad o angen ynghyd â'r disgwyliadau ymhlith pobl hŷn a'r rheiny a fydd yn bobl hŷn erbyn 2033, (fel y nodir yn *Asesiad Anghenion Pobl Hŷn 2013-2033. Tai, Llety a Chefnogaeth Gysylltiedig)* mae'n glir bod angen ystod ehangach a mwy deniadol o dai, gofal a dewisiadau cefnogaeth na'r rheiny sy'n bodoli ar hyn o bryd.

Mae angen i ECH fod yn rhan o system gyfan o ddarpariaeth gofal a gwasanaethau tai. Mae datblygu tai a chefnogaeth briodol a gwasanaethau gofal yn gyd-ddibynnol: mae rhaid i opsiynau amgen o ran tai yn lle gofal cofrestredig gefnogi poblogaeth sy'n heneiddio ac sy'n mynd yn fwy a mwy bregus ynghyd â hyrwyddo diwylliant o fyw'n annibynnol.

Yn ogystal, mae angen sicrhau bod datblygiadau mewn perthynas â Thai Gofal Cymdeithasol yn cydweddu'n strategol a'r defnydd o Dai Gwarchod y Cyngor o ran helpu i ddiwallu ystod o anghenion tai, gofal a chefnogaeth (mae asesiad o rôl Tai Gwarchod y Cyngor y tu hwnt i gwmpas yr achos busnes hwn).

Mae tabl 6.1 (isod) yn nodi fframwaith a awgrymir ar gyfer deall y 'ddewislen' o wahanol opsiynau o ran tai, llety a chefnogaeth gysylltiedig.

Cynigir y dylid defnyddio'r 'ddewislen' hon fel fframwaith ar gyfer comisiynu tai, llety a gwasanaethau cefnogaeth cysylltiedig ar gyfer bobl hŷn yn y dyfodol. Ni fwriedir i'r ddewislen hon fod yn gyflawn: mae'n ymwneud â sicrhau bod *ystod* o opsiynau tai a llety ar gael.

Mae'r fframwaith hwn yn ymateb i'r tueddiadau a'r disgwyliadau a ganlyn

- Bydd y mwyafrif o bobl hŷn yn byw yn eu cartrefi eu hunain yn y gymuned efo pecynnau gofal cartref fel y bo angen;
- Bydd rhai pobl hŷn yn byw mewn ECH gan gynnwys y rheiny a chanddynt ofalwyr y byddai angen iddynt fel arall fod wedi symud i ofal preswyl cofrestredig;
- Mae'r defnydd o ofal preswyl cofrestredig yn lleihau fel y cefnogir pobl hŷn yn eu cartrefi eu hunain. Bydd y duedd hon yn cynyddu fel y datblygir ECH;
- Bydd gofal nyrsio cofrestredig a chartrefi gofal dementia yn darparu opsiwn ar gyfer y bobl hŷn hynny a chanddynt lefelau o anghenion gofal a nyrsio na ellir eu diwallu yn eu cartrefi eu hunain nac mewn ECH.

Tabl 6.1 Fframwaith Comisiynu: Tai, llety a gwasanaethau cefnogaeth cysylltiedig ar gyfer pobl hŷn

| **Mathau o ofal/cefnogaeth** | **Mathau o dai/llety** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Tai Prif Ffrwd** | **Tai dynodedig ar gyfer pobl hŷn**<br><br>**Tai Gwarchod (i'w rhentu)**<br><br>**Tai ymddeol (i'w gwerthu)** | **Tai gofal ychwanegol (gan gynnwys tai gwarchod wedi'u huwchraddio)**<br>**Byw â Chymorth (gofal ychwanegol sector preifat)** | **Darpariaeth tai ar gyfer dementia (rhan o dai gofal ychwanegol)** | **Gofal nyrsio cofrestredig ac anghenion cymhleth / gofal dementia** |
| **Teleofal** | Pecynnau Teleofal haenog ar gael | | Teleofal ac ymateb ar y safle | Teleofal ac ymateb ar y safle | Amherthnasol |
| **Gofal Cartref (gan gynnwys gofal 24/7)** | Gofal yng nghartref yr unigolyn ei hun yn seiliedig ar angen | | Gofal 24/7 ar y safle | Gofal 24/7 ar y safle | Gofal 24/7 ar y safle |
| **Cefnogaeth/ Cefnogaeth yn gysylltiedig â thai** | Cefnogaeth yng nghartref yr unigolyn ei hun yn seiliedig ar angen | | Cefnogaeth ar y safle | Cefnogaeth ar y safle | Cefnogaeth ar y safle |
| **Darpariaeth seibiant** | Yn y gymuned neu ar gael mewn cynlluniau tai gofal ychwanegol/gofal cofrestredig | | Posibilrwydd o fod wedi'i leoli ar y safle | Posibilrwydd o fod wedi'i leoli ar y safle | Posibilrwydd o fod wedi'i leoli ar y safle |
| **Model hyb cymunedol** | | | Lleoliad posibl ar gyfer hyb cymunedol | | |

Yn seiliedig ar Asesiad Anghenion Pobl Hŷn Ynys Môn 2013-2033. Tai, Llety a Chefnogaeth Gysylltiedig

**6.2. Trefniadau comisiynu ar gyfer ECH: Dewisiadau o ran Comisiynu**

Mae awdurdodau lleol wedi mabwysiadu amryw ymagweddau comisiynu ynghyd â ‘modelau’ ar gyfer comisiynu ECH. Tueddwyd i’r rhain gael eu harwain dan y ‘ffrydiau’ ariannu sy’n talu am yr elfennau o ECH (e.e. arian Cefnogi Pobl ar gyfer ‘cefnogaeth sy’n gysylltiedig â thai’ ynghyd â’r Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion ar gyfer arian gofal) yn hytrach na bod yn seiliedig ar fframwaith comisiynu penodol a’r dymuniad i gomisiynu gwasanaeth sy’n ‘ddi-dor’ o bersbectif preswylwyr.

Mae table 6.2 isod yn crynhoi’r prif ddewisiadau o ran comisiynu.

Tabl 6.2. Opsiynau Comisiynu ECH

| Opsiwn | 'Model' Comisiynu | Sylwadau |
|---|---|---|
| 1 | ♦ Darpariaeth tai – RSL<br>♦ Darpariaeth 'Cymorth sy'n Gysylltiedig â Thai' – RSL neu ddarparwr arall<br>♦ Darpariaeth gofal, gan gynnwys staff gofal dros nos – darparwr gofal ar wahân (y sector annibynnol neu'r awdurdod lleol) Ar y safle ac oddi ar y safle | ♦ Darparwyr gwahanol ac ar wahân ar gyfer gwahanol elfennau o'r gwasanaeth<br>♦ Gwahanu tai o gefnogaeth a gofal<br>♦ Bu tueddiad i gaffael gofal ar wahân yn defnyddio cytundebau 'bloc'<br>♦ Yn llai hyblyg i breswylwyr yn nhermau defnyddio Taliadau Uniongyrchol i brynu gofal<br>♦ Mae tueddiad i'r awdurdod lleol fod wedi'i 'gloi' mewn model costau llai hyblyg sy'n gysylltiedig â chytundebau 'bloc'<br>♦ Mae cytundebau bloc yn cynnig sicrwydd a diogelwch ariannol i ddarparwyr gofal<br>♦ Nid oes gan y darparwr tai reolaeth dros y darparwr gofal yn eu cynllun ECH (er y gallant fod wedi chwarae rôl yn ei benodi gyda'r ALl)<br>♦ Posibiliadau o gael gwasanaeth nad ydyw mor 'ddi-dor' ar gyfer preswylwyr<br>♦ Mae gan yr awdurdod gytundebau ar wahân ar gyfer cefnogaeth a gofal |
| 2 | ♦ Darpariaeth tai – RSL<br>♦ Darpariaeth 'Cymorth sy'n Gysylltiedig â Thai' – RSL<br>♦ Darpariaeth gofal, gan gynnwys staff gofal dros nos – darparwr gofal ar wahân (y sector annibynnol neu'r awdurdod lleol) Ar y safle | ♦ Gwahanu tai o gefnogaeth a darpariaeth gofal<br>♦ Bu tueddiad i gaffael gofal ar wahân yn defnyddio cytundebau 'bloc'<br>♦ Yn llai hyblyg i breswylwyr yn nhermau defnyddio Taliadau Uniongyrchol i brynu gofal<br>♦ Mae tueddiad i'r awdurdod lleol fod wedi'i 'gloi' mewn model costau llai hyblyg sy'n gysylltiedig â chytundebau 'bloc'<br>♦ Mae cytundebau bloc yn cynnig sicrwydd a diogelwch ariannol i ddarparwyr gofal<br>♦ Nid oes gan y darparwr tai reolaeth dros y darparwr gofal yn eu cynllun ECH (er y gallant fod wedi chwarae rôl yn ei benodi gyda'r ALl)<br>♦ Posibiliadau o gael gwasanaeth mwy di-dor ar gyfer preswylwyr<br>♦ Mae gan yr awdurod gytundebau ar wahân ar gyfer cefnogaeth a gofal |
| 3 | ♦ Darpariaeth tai – RSL<br>♦ 'Gwasanaeth' craidd sy'n cynnwys cefnogaeth (diffiniad | ♦ Y darparwr tai yw'r landlord ac mae'n gyfrifol am sicrhau'r ddarpariaeth o'r 'gwasanaeth craidd' 24/7 mewn cynllun ECH – cefnogaeth a darpariaeth staff dros nos.<br>♦ Mae'r gefnogaeth yn fwy hyblyg na diffiniadau sy'n seiliedig ar 'gymorth sy'n gysylltiedig â thai' |

| Opsiwn | 'Model' Comisiynu | Sylwadau |
|---|---|---|
| | ehangach na 'cymorth sy'n gysylltiedig â thai') ynghyd â darpariaeth staff gofal dros nos – RSL neu bartner gofal<br>♦ Darpariaeth gofal – Darparwr gofal naill ai yn y sector annibynnol neu'n cael ei rheoli gan RSL. Ar y safle. | ♦ Mae'r ffiniau rhwng staff cefnogi a staff sy'n darparu'r gwasanaeth dros nos yn cael eu dileu<br>♦ Gall preswylwyr sydd angen gofal ddewis i dderbyn Taliad Uniongyrchol i brynu eu gofal gan ddarparwr gofal ar y safle (neu ddarparwr gofal arall) neu gyfarwyddo'r Cyngor i'w brynu ar eu rhan<br>♦ Mae'r model gofal cartref o fewn ECH yn adlewyrchu'r model ar gyfer gofal cartref yn y gymuned<br>♦ Gall y darparwr gofal ar y safle fod yr RSL neu ddarparwr gofal arall<br>♦ Mae gan yr awdurdod lleol gytundeb â'r RSL ar gyfer cyflenwi'r gwasanaeth ECH a gellir cyflawni'r deilliannau<br>♦ Nid oes gan yr awdurdod lleol gytundebau bloc ar gyfer darpariaeth gofal<br>♦ Mae gan yr awdurdod lleol sicrwydd o ran ei lefel ariannu ar gyfer 'gwasanaeth craidd' ond nid yw ond yn ariannu gofal y mae ei angen (yn hytrach na thrwy 'gytundeb bloc')<br>♦ Mae gan y RSL y cyfrifoldeb am sicrhau y darperir gwasanaeth 'di-dor' i breswylwyr |

Ni fwriedir hon fod yn rhestr gyflawn: mae'n bosibl amrywio'r opsiynau hyn ar gyfer tai, gofal a chefnogaeth.

Mae ystyriaethau allweddol mewn perthynas â chomisiynu ECH yn cynnwys:

- Yr angen i ECH ddarparu dewis amgen hyfyw yn lle'r defnydd o wasanaethau gofal preswyl;
- Yr angen i gyflawni arbedion ac effeithiolrwydd ariannol ar gyfer y Cyngor;
- Denu RSLau neu sefydliadau eraill i ystyried datblygu ECH ym Môn;
- Osgoi'r 'model' comisiynu a fabwysiadwyd ym Mhenucheldre.

Er y gallai fod yn bosibl defnyddio bob un o'r tri opsiwn comisiynu hyn yn y tabl uchod i geisio bod yn gyson â'r ystyriaethau hyn, mae Opsiwn 3 yn debygol o fod yn cydweddu'n fwyaf cyson â'r ystyriaethau hyn.

Mae osgoi'r defnydd o gytundeb bloc ar gyfer gofal cartref o fewn ECH yn fecanwaith allweddol ar gyfer rheoli'r costau gofal o fewn cynllun ECH gan fod y Cyngor yn mynd ati'n effeithiol i reoli'r broses asesu sy'n pennu anghenion cymwys ynghyd â chost gofal; nid yw'r Cyngor ond yn ariannu gofal a gyflenwir yn seiliedig ar anghenion cymwys sydd wedi'u hasesu ar gyfer preswylwyr.  Ceir cyfle hefyd i reoli'r costau hyn ymhellach drwy gymryd trosolwg manwl o'r holl becynnau gofal cartref o fewn cynllun ECH gan weithiwr/weithwyr cymdeithasol. Tybir na fydd y Cyngor yn darparu gofal cartref o fewn cynlluniau ECH.

Mae'r model 'gwasanaeth craidd' o gefnogaeth 24/7 a darpariaeth staff dros nos yn sicrhau bod gan gynllun ECH y sylfaen craidd i fod yn ddewis amgen effeithiol yn lle defnyddio gofal preswyl gyda phecynnau gofal cartref y gellir eu teilwra ac sy'n hyblyg o ran diwallu anghenion penodol unigolion (o fewn y cyfyngiad o fod am gost is o gymharu â lleoliad mewn gofal preswyl).

Mantais i'r Cyngor yw ei fod yn rhoi'r cyfrifoldeb ar RSL i reoli a chyflenwi'r gwasanaeth ECH gyda'r posibilrwydd hefyd o fod y darparwr gofal neu i benodi darparwr gofal ar y safle gyda'r Cyngor. Y fantais i RSL yw bod ganddynt reolaeth dros yr hyn sy'n digwydd yn eu cynllun ECH yn hytrach na chael darparwr gofal sydd wedi'i benodi'n allanol gan y Cyngor.

Yn nodweddiadol, byddai'r arian ar gyfer 'gwasanaeth craidd' mor integredig yn dod o gyfuniad o'r Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion ac arian Cefnogi Pobl ond gyda'r bwriad o gael model gwasanaeth sydd wedi'i gomisiynu ar y cyd. Mae'n osgoi comisiynu 'cymorth sy'n gysylltiedig â thai' a gofal ar wahân ac mae'n seiliedig ar brofiad o wasanaeth 'di-dor' i breswylwyr.

## 6.3. ECH: Manyleb

Bwriedir i'r fanyleb ar gyfer ECH arwain yr hyn y dylai tai gofal cymdeithasol fod fel cynnig deniadol ar gyfer pobl hŷn ac anabl. Dylai hyn arwain datblygiad adeiladau newydd, fodd bynnag, bydd angen ymagwedd bragmatig tuag at uwchraddio cynlluniau tai gwarchod presennol yn nhermau pa mor 'agos' y gall cynllun uwchraddedig fod i'r nodweddion hyn. Mae'r tabl yn Atodiad 2 yn crynhoi'r elfennau 'hanfodol' a 'dymunol' a awgrymir ar gyfer tai gofal ychwanegol ar gyfer cynlluniau sydd wedi'u hadeiladu o'r newydd ac uwchraddio/ailddatblygu tai gwarchod.

Am resymau economaidd, y maint arferol ar gyfer datblygiad sy'n hyfyw yn ariannol yw o leiaf 50-60 eiddo. Serch hynny, o ystyried maint bach y mwyafrif o aneddiadau ym Môn ynghyd â'r angen i fod yn hyblyg o ran cyfyngiadau safleoedd a'r hyn y gall RSLau eu datblygu, bydd angen datblygu cynlluniau llai.

**6.4. Ystyriaethau o ran Caffael**

Ceir nifer o ymagweddau y gall y Cyngor eu mabwysiadu i gaffael ECH:

(A) Ymarfer caffael ffurfiol i ddewis darparwyr priodol (fel sefydliadau tai ond ddim wedi'u cyfyngu iddynt) y bydd y Cyngor yn gweithio â hwy i gyflenwi'r ECH sy'n ofynnol;

(B) Lle bo Grant Tai Cymdeithasol ar gael, gweithio gyda 'rhestr gymeradwy' o RSLau y gall y Cyngor weithio â hwy i gyflenwir ECH sy'n ofynnol gan gynnwys y ddarpariaeth o fodel 'gwasanaeth craidd' a nodir yn adran 6.2. (uchod);

(C) Gweithio ag unrhyw ddarparwr all ddangos y gallu i gyflenwi yn ôl manyleb ar gyfer y ECH sy'n ofynnol;

(D) Caffael gofal cartref o fen cynlluniau ECH ar wahân i 'ddewis' RSLau/darparwyr tai i gyflenwi cynlluniau ECH.

Nid yw'r rhestr hon o opsiynau'n gyflawn.

Yn nodweddiadol, ystyriwyd ei bod yn 'arfer dda' caffael tai o fewn ECH ar wahân i ofal/cefnogaeth. Mae cysylltiad anorfod rhwng cefnogaeth a phobl yn gallu byw yn llwyddiannus yn eu cartrefi eu hunain. Gall y gefnogaeth hon amrywio o lefel isel iawn i helpu i reoli tenantiaeth a hanfodion bywyd bob dydd i becyn dwys o ofal cartref i helpu i reoli pob agwedd ar fywyd.

Fodd bynnag, fel y mae'r 'model' o ofal cymdeithasol yn symud tuag at gefnogaeth a gyfeirir at y dinesydd gydag unigolyn yn gallu dewis (o fewn terfynau penodol) sut i wario arian i ddiwallu eu hanghenion gofal cymwys, yna, yn ei hanfod, y dewis a wneir gan yr unigolyn hŷn/anabl yw p'un ai i symud i gynllun ECH ai peidio gyda'r gallu i brynu gofal gan ddarparwr ar y safle os dymunant wneud hynny (neu ddewis gwasanaeth wedi'i reoli gyda phecyn gofal a ariannir gan y Cyngor).

**6.5. Yr Ymagwedd Arfaethedig**

Bydd y Cyngor yn gweithio o fewn y canllawiau caffael priodol i sicrhau ei fod yn cyflawni'r gwerth gorau am arian a'i fod yn dilyn y drefn briodol.

Wrth fynd ymlaen i ddatblygu ECH bydd y Cyngor:

- Yn cynnal proses ymgynghori yn Amlwch a Llangefni;
- Yn cwblhau Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer y ddwy ardal.

## 7. Crynodeb o Dystiolaeth

Mae'r achos busnes hwn yn dwyn ynghyd y dystiolaeth i ddangos:

- Mae digon o angen a galw am ECH yn Amlwch a Llangefni, yn nhermau tueddiadau demograffig ac anghenion gofal;
- Mae ECH yn hyrwyddo ansawdd bywyd a chanlyniadau cadarnhaol ar gyfer pobl hŷn yn nhermau eu hiechyd corfforol a'u diogelwch, eu hannibyniaeth a'u lles;
- Mae pobl hŷn sydd ar hyn o bryd yn byw yn eu cartrefi eu hunain yn Amlwch a Llangefni yn awyddus iawn i barhau i fyw'n annibynnol (h.y. gyda'u drws ffrynt eu hunain a'u hawliau tai) pe bai angen iddynt symud o'u cartrefi presennol. Mae'r mwyafrif ohonynt yn bendant nad ydynt eisiau byw mewn gofal preswyl;
- Ceir nifer o arbedion ariannol[3]:
    - Yn ogystal, mae'n fwy cost effeithiol i'r Cyngor ddarparu gofal mewn lleoliad Gofal Tai Ychwanegol yn hytrach na mewn Gofal Preswyl. Rhagamcanir y bydd yr arbedion hyn rhwng £139,362 a £156,333 y flwyddyn yn Amlwch, a rhwng £152,922 a £170,193 y flwyddyn yn Llangefni (mae'r ffigyrau'n dibynnu ar y model cyflenwi gofal).
    - Osgoi costau – ceir arbedion pellach drwy beidio gorfod ariannu cost dod â'r cartrefi i fyny i safon dderbyniol. Dros dair blynedd, amcangyfrifir y ffigyrau hyn fel a ganlyn: Brwynog £257,946 a Phlas Penlan £388,983.
    - Yn ogystal, byddai derbyniad cyfalaf ychwanegol pe bai'r cartrefi/safleoedd yn cael eu gwerthu.
- Mae ECH fel arfer yn opsiwn mwy deniadol ar gyfer pobl hŷn o gymharu â gofal preswyl; mae'r cyfraniad ariannol mwyaf o fewn ECH yn is na hynny o fewn gofal preswyl ac, yn ogystal, mae gan rywun hŷn sy'n byw mewn ECH yr hawl i'r ystod lawn o fudd-daliadau lles felly bydd ganddynt incwm wythnosol net uwch.
- Mae datblygu ECH yn Amlwch a Llangefni yn gynaliadwy yn ariannol ar gyfer y Cyngor.
- Nid yw'n gynaliadwy, yn ariannol ac yn strategol, i'r Cyngor gomisiynu ECH yn Amlwch a Llangefni **ynghyd â** bod yn ddarparwr gofal preswyl yn yr ardaloedd hyn.
- Mae partneriaid posibl ar gyfer datblygu ECH yn Llangefni wedi'u canfod; mae'r Cyngor yn gweithio i ganfod partner neu bartneriaid yn Amlwch. Bydd hyn yn cynnwys edrych ar ystod o ddulliau o gyflenwi ECH yn y ddwy ardal.

[3] It should be noted that these figures are based on net revenue budgets for 2013/14 & need to be updated for 2014/15. They also exclude an allowance for depreciation and health. In addition there will be one-off costs – at the due point in time - of closure of any homes, including staff redundancy as well as the possible cost of alternative residential placements for some clients, this estimated as: Brwynog £228k and Plas Penlan £339k

## Atodiad 1. Model Ariannol: Tybiaethau

1. Bydd rhai preswylwyr ECH yn ariannu eu hunain, h.y. byddant yn ariannu'r rhent, y costau gwasanaeth, costau eraill a chostau gofal (hyd at uchafswm o £55 yr wythnos ar gyfer gofal) o'u hadnoddau eu hunain. Serch hynny, bydd canran y preswylwyr sy'n ariannu eu hunain yn amrywio rhwng cynlluniau gofal ychwanegol yn seiliedig ar eu lleoliad a pholisïau ar arferion dyrannu.

2. Tybir y bydd y gyfradd a godir yr awr am ofal a fydd yn berthnasol mewn cynllun ECH yn £13.05 yr awr. Bydd y gyfradd hon yn cynnwys yr holl gostau. Mae hyn yn seiliedig ar gyfradd yr awr o £14.50 llai 10% i ganiatáu ar gyfer dim costau teithio.

3. Darperir gofal o fewn cynllun ECH o fewn 'bandiau gofal' dynodedig. Bwriedir i'r bandiau hyn sicrhau bod cydbwysedd o ran anghenion dibyniaeth uchel, canolig ac isel yn y cynllun. Tybir bod y bandiau gofal a ganlyn yn berthnasol:

   - Mae isel yn 0-7 awr o ofal yr wythnos;
   - Mae canolig yn 7-14 awr o ofal yr wythnos;
   - Mae uchel yn 15+ awr o ofal yr wythnos. Tybir y byddai rhai cleientiaid a chanddynt lefel uchel o anghenion yn gymwys i gael arian gan iechyd fel rhan o'u pecynnau gofal wythnosol.

4. Mae 75% o'r unedau mewn cynllun ECH ar gyfer bobl ag anghenion gofal. O'r rhain:

   - Bydd 60-70% o'r unedau hyn ar gyfer cleientiaid sydd naill ai mewn cartrefi gofal preswyl neu y gellid eu 'dargyfeirio' o gael eu derbyn i gartref preswyl gyda phecyn priodol o ofal mewn cynllun ECH. Ar gyfartaledd, tybir bod ar y cleientiaid hyn angen 17.5 awr o ofal yr wythnos (cyn cyfateb i gyfartaledd o 2.2 awr o ofal uniongyrchol i bob cleient y diwrnod) mewn cynllun ECH.
   - Bydd 30-40% o'r unedau hyn ar gyfer cleientiaid sy'n derbyn pecyn gofal cartref o fewn eu cartref presennol yn y gymuned.

5. Bydd ariannu'r 'gwasanaeth craidd' yn cynnwys cyfraniadau gan y ffynonellau incwm a ganlyn sydd ar gael i'r darparwr ECH:

   - Rhent;
   - Taliadau gwasanaeth;
   - Taliadau a godir ar gyfer gwasanaethau eraill;
   - Arian gan CSYM.

6. O ran holl gostau rheolwr cynllun ECH a hyd at 25% o staff eraill (staff sy'n rhoi cefnogaeth) gellir eu darparu drwy rent a thaliadau gwasanaeth eraill.

7. Mae'r cyfraniad ariannol gan CSYM tuag at gost y gwasanaeth craidd, h.y. staff cefnogi a staff dros nos ym mhob cynllun ECH yn seiliedig ar:

- Yr hyn sy'n cyfateb i 2 aelod staff cefnogi cyfwerth ag amser llawn (FTE) mewn cynllun gofal ychwanegol o 80 uned; sy'n cyfateb i tua £60,000 y flwyddyn.[4] Mae'r cyfraniad arian sy'n daladwy gan CSYM yn seiliedig ar gyfrifiad pro rata ar gyfer cynllun ECH yn seiliedig ar nifer yr unedau llety (o gymharu â chynllun o 80 uned) e.e. byddai cynllun ECH 40 uned yn derbyn £30,000, sy'n cyfateb i £14.42 yr uned yr wythnos). Ar y daenlen sydd ynghlwm, cyfeirir at hyn fel 'Cost flynyddol gwasanaeth craidd (cefnogaeth)'.

- Darpariaeth staff dros nos yn seiliedig naill ai ar fodel 'cysgu i mewn' neu fodel noson effro. Ar y daenlen sydd ynghlwm, cyfeirir at hyn fel 'Cost flynyddol y gwasanaeth craidd (gofal nos)'.

  Model Staffio Cysgu i Mewn
  Mae hwn yn seiliedig ar £70 y noson ar gyfer un aelod staff ar y safle am gyfnod o 9 awr dros nos (e.e. o10.30pm - 7.30am). Mae hyn yn cyfateb i £25,480 y flwyddyn.

  Model staffio noson effro
  Mae hwn yn seiliedig ar raddfa o £13.05 yr awr ar gyfer un aelod staff ar y safle am gyfnod o 9 awr dros nos (e.e. o 10.30pm – 7.30am). Mae hyn yn cyfateb i £42,751 y flwyddyn.

8. Mae cyfanswm y cyfraniad ariannol blynyddol gan CSYM tuag ag 'wasanaeth craidd' mewn cynllun ECH yn seiliedig ar y cyfraniad pro rata a asesir tuag at gostau darparu gofal ynghyd â chostau darpariaeth staff dros nos.

[4] Based on Welsh Government Supporting People Guidance (£30,000 FTE support worker cost)

# Atodiad 2. Manyleb Amlinellol ar gyfer ECH

| Nodweddion tai gofal ychwanegol | Datblygiad newydd: tai gofal ychwanegol | | Uwchraddio tai gwarchod: tai gofal ychwanegol | |
|---|---|---|---|---|
| | Hanfodol | Dymunol | Hanfodol | Dymunol |
| Anheddau hunangynhwysol o o leiaf 50m2 ar gyfer fflat 1 llofft, 60m2 ar gyfer 2 lofft. Dylent gynnwys cegin ac ystafell ar gyfer bath/cawod. | x | | | x |
| Dylai'r dyluniad adlewyrchu symudedd cyfyngedig, iechyd meddwl ac anghenion eraill preswylwyr. Mae Safonau Cartrefi Gydol Oes yn ddymunol. | x | | | x |
| Mae angen i ddyluniadau fod yn addas ar gyfer anghenion dementia. Mae angen darpariaeth ar gyfer pobl a chanddynt anableddau difrifol sydd angen manyleb mynediad llawn i gadair olwyn ynghyd â thraciau ar gyfer offer codi. Bydd angen i beth darpariaeth fod yn addas i bobl hŷn ag anableddau dysgu. | x | | | x |
| Dylai gwasanaethau gynnwys tîm gofal a chefnogaeth ar y safle sydd ar gael 24 awr y dydd. Cyfleusterau staff digonol sy'n addas ar gyfer eu graddfa fel y bo angen. | x | | x | |
| Rhagwelir y bydd y mwyafrif o gynlluniau gofal ychwanegol yn darparu lleoliad i staff gofal a chefnogaeth ddarparu gwasanaethau allgymorth i'r ardal leol. | x | | x | |
| Dylai bod gan ddatblygiadau ystod o gyfleusterau cymunol sy'n mynd y tu hwnt i'r rheiny a geir mewn tai gwarchod traddodiadol ond sy'n addas i'w maint. | x | | x | |
| Ffefrir datblygiadau deiliadaeth gymysg yn hytrach nag un math o ddeiliadaeth. | | x | | x |
| Dylid rheoli'r tai sy' cael eu gosod ac anelu i ddarparu balans o ran lefelau angen. Bydd y cyfuniad yn cael ei bennu fesul cynllun. | x | | | x |

| Nodweddion tai gofal ychwanegol | Datblygiad newydd: tai gofal ychwanegol | | Uwchraddio tai gwarchod: tai gofal ychwanegol | |
|---|---|---|---|---|
| | Hanfodol | Dymunol | Hanfodol | Dymunol |
| | | | | |
| Fan leiaf, fel mewn tai gwarchod arferol, dylai bod gan bob cynllun system larwm ynghyd â system agor drysau o bell. Mae’n ddymunol sicrhau bod ystod o synwyryddion amgylcheddol a thechnoleg gynorthwyol bersonol ar gael i unigolion. Mae hyn yn helpu i sicrhau diogelwch ond hefyd yn cynorthwyo o ran o ddarpariaeth economaidd o rai agweddau ar ofal. | x | | x | |
| Yn nodweddiadol, mae’r ddarpariaeth o brydau drwy ryw fath o fwyty/caffi yn elfen hanfodol, serch hynny, mewn cynlluniau llai, gall prydau sydd wedi’u coginio’n ffres ar y safle fod yn afrealistig. | x | | x | |
| Yn gyffredinol, dylai cyfleusterau cymunol fod ar gael i’r gymuned ehangach. Yn achos bwyty/caffi mae hyn yn eu helpu i fod yn hyfyw. | x | | x | |
| Bydd trefniadau rhwng y darparwr gofal a thai yn amrywio. Awgrymir nad yw hyn yn atal y landlord rhag bod y darparwr gofal a chefnogaeth lle maent yn ennill tendr gofal neu lle cawsant eu dewis gan feddianwyr gyda thaliadau uniongyrchol neu sy’n ariannu eu hunain. | | x | | x |
| O ran diwylliant cynlluniau, yn gyffredinol, dylent hyrwyddo annibyniaeth a heneiddio’n iach ac yn egnïol ac osgoi gwneud i bobl heneiddio’n ddiangen neu cyn eu hamser. Ystyrir fod gweithgareddau cymdeithasol ac iechyd yn rhan hanfodol o’r ethos hwn mewn gofal ychwanegol. | x | | x | |

## Cyfeiriadau

Baumker, T., Netten, A., Darton, R. & Callaghan, L. (2011) Evaluating Extra Care Housing for Older People in England: A Comparative Cost and Outcome Analysis with Residential Care, Journal of Service Science and Management, 2011, 4, pp. 523-539

Callaghan, L., Netten, A. & Darton, R. (2009) The Development of Social Well-Being in New Extra Care Housing Schemes, Joseph Rowntree Foundation, York

Croucher, K. & Bevan, M. (2012) Promoting supportive relationships in housing with care, Joseph Rowntree Foundation, York

Kneale, D. (2013) What role for extra care housing in a socially isolated landscape? Housing LIN

Netten, A., Darton, R., Baumker, T. & Callaghan, L. (2011) Improving housing with care choices for older people: an evaluation of extra care housing, PSSRU/ Housing LIN

Pannell, J., Blood, I., & Copeman, I. (2012) Affordability, Choices and Quality of Life in Housing with Care, Joseph Rowntree Foundation, York

Weiss, W & Tuck, J. (2013). An Evaluation of Extra Care Housing schemes in East Sussex. Housing LIN.

This page is intentionally left blank